


Rhif ymchwil gymdeithasol: 109/2025

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2025

Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Cam Dau



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Gwerthusiad o'r cod ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth:
cam dau

Awduron: Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones

Adroddiad Ymchwil Llawn: Pobl a Gwaith (2025). Gwerthusiad o'r cod
ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth: cam dau. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 109/2025.

Ar gael ar: [https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cod-ymarfer-ar-gyflenwi-
gwasanaethau-awtistiaeth-cam-dau](https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cod-ymarfer-ar-gyflenwi-gwasanaethau-awtistiaeth-cam-dau)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Christopher Ben Eaton

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad drwy weithdai, cyfweiliadau, drwy ymateb i geisiadau am wybodaeth a data a/neu drwy lenwi holiaduron.

Diolch yn arbennig hefyd i Aoife Pryor, Sian Lewis, Julie Annetts, Einir Price, Laura Entwistle a Dr Christopher Eaton o Lywodraeth Cymru, Kirsty Jones a Wendy Thomas o'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ac Ann Churcher, Rhodri Bowen ac Emma Preece o Pobl a Gwaith am eu mewnwleidiadau, eu cymorth a'u syniadau i gefnogi'r gwerthusiad hwn.

Cynnwys

Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Cam Dau	1
Rhestr o dablau	3
Rhestr o ffigurau	10
Rhestr termau	11
1. Cyflwyniad	12
2. Dull a methodoleg	16
3. Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Adran 1, Dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag asesiad diagnostig	36
4. Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer: Adrannau 1 a 2, dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol	51
5. Adrannau 1 a 2 o'r Cod: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (er enghraifft, ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau sy'n cyddigwydd)	73
6. Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant	86
7. Adrannau 3 a 4 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau	103
8. Adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofawyr	114
9. Asesu effaith debygol y Cod	141
10. Casgliadau	144
11. Argymhellion ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod	149
12. Llyfryddiaeth	154
Atodiad A. Data Arolwg Ychwanegol	155
Atodiad B. Meincnodau	159

Rhestr o dablau

Tabl 2.1. Rhywedd ymatebwyr yr arolwg	24
Tabl 2.2. Oedran ymatebwyr yr arolwg	24
Tabl 2.3. Ethnigrwydd ymatebwyr yr arolwg	24
Tabl 2.4. Preswylfa ymatebwyr yr arolwg.....	27
Tabl 2.5 Y gwasanaethau y nododd ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi cael mynediad atynt yn ystod y tair blynedd diwethaf	28
Tabl 3.1.1. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (cyfranogiad amlddisgyblaethol)	39
Tabl 3.1.2. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (mewn sefydliadau diogel)	40
Tabl 3.1.3. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)	42
Tabl 3.1.4 Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)	43
Tabl 3.1.5. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data).....	44
Tabl 3.1.6 Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data).....	45
Tabl 3.1.7 Adran 1 y Cod: Mynediad at gymorth asesu ôl-ddiagnostig	46
Tabl 4.1.1. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (gwybodaeth a chyfeirio)	52
Tabl 4.1.2. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i asesiad).....	53
Tabl 4.1.3. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i ymatebion arolwg asesu)	54
Tabl 4.1.4. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (rhannu gwybodaeth yn brydlon)	55
Tabl 4.2. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (sefydliadau diogel)	57
Tabl 4.3.1 Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (mae ymarferwyr a gwasanaethau yn ymwybodol o wasanaethau awtistiaeth ac mae ganddynt llwybrau atgyfeirio clir).....	62
Tabl 4.3.2. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (Mae staff iechyd ac awdurdod lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)	63

Tabl 4.3.3. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (Gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)	64
Tabl 4.3.4. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd).....	65
Tabl 4.4. Addasiadau rhesymol.....	66
Tabl 5.1.1. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion	75
Tabl 5.1.2. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (gwasanaethau cymorth sy'n diwallu anghenion cymorth ychwanegol).....	76
Tabl 5.1.3. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (nid yw cyflyrau sy'n cyddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion).....	78
Tabl 5.1.4. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (nid yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion).....	79
Tabl 6.1.1. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu.....	87
Tabl 6.1.2. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (asesu anghenion hyfforddi awtistiaeth yr holl staff).....	88
Tabl 6.1.3. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (y wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i ymgymryd â rolau).....	89
Tabl 6.1.4. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (cymorth ar gyfer unigolion mewn sefydliadau diogel yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol)	90
Tabl 6.1.5. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu darparu gan staff medrus sydd wedi cael hyfforddiant priodol)	91
Tabl 6.1.6. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (gall pob aelod o staff gael mynediad at hyfforddiant)	92
Tabl 6.1.7. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (staff yn derbyn hyfforddiant priodol).....	93
Tabl 6.1.8. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (mae'r ddarpariaeth hyfforddiant yn ystyried canllawiau NICE)	94
Tabl 6.1.9. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad a rhoi diagnosis).....	95
Tabl 6.1.10. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (digon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth)	96
Tabl 6.1.11. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth)	97
Tabl 7.1.1. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau	104

Tabl 7.1.2. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (penodir rôl hyrwyddwr awtistiaeth).....	106
Tabl 7.2.3. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (cydymffurfio â dyletswyddau perthnasol yn rhannau 2 a 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).....	107
Tabl 7.2.4. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (darpariaethau gwasanaeth arbenigol yn cael eu nodi).....	108
Tabl 7.2.5. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth).....	108
Tabl 7.2.6. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (cydymffurfiaeth â gofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru).....	109
Tabl 8.1. Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth sy'n disgrifio orau yr hyn rydych yn ei wybod ynghylch Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru?' a 'Beth ydych yn ei wybod ynghylch Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru?'	115
Tabl 8.2. Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal chi?'	116
Tabl 8.3. Ymatebion gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant awtistig i'r cwestiwn: 'yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at wasanaethau cyngor neu gymorth awtistiaeth, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?'	117
Tabl 8.4. Ymatebion gan oedolion awtistig i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth arnoch gan y gwasanaethau cymdeithasol, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'	122
Tabl 8.5. Ymatebion gan rieni neu ofalwyr i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth ar eich plentyn/plant gan y gwasanaethau cymdeithasol, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'	122
Tabl 8.6. Ymatebion gan rieni neu ofalwyr i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth arnoch gan y gwasanaethau cymdeithasol fel gofalwr, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'	122
Tabl 8.7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'mae gan blant awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan wasanaethau fel iechyd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?'	125
Tabl 8.8. Ymatebion i'r cwestiwn: 'mae gan oedolion awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan	

wasanaethau fel iechyd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?'	127
Tabl 8.9. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth?'	131
Tabl 8.10. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?'	132
Tabl 8.11. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'	134
Tabl 8.12. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'	134
Tabl 8.13. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd?'	136
Tabl 8.14. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau?'	136
Tabl 8.15. Ymatebion gan rieni a gofalcwyr plant neu bobl ifanc awtistig i'r cwestiwn: 'a ydych yn credu bod rhieni neu ofalcwyr plant awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'	138
Tabl 8.16. Ymatebion gan oedolion awtistig i'r cwestiwn: 'a ydych yn credu bod oedolion awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'	139
Tabl A1. Ymatebion i'r cwestiwn: 'a yw'n hawdd cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'	155
Tabl A2. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth?'	155
Tabl A3. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?'	156
Tabl A4. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'	156
Tabl A5. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'	157

Tabl A6. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau?'	157
Tabl A7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd?'	158
Tabl B1.1 Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (cyfranogiad amlddisgyblaethol)	159
Tabl B1.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau asesu diagnostig (mewn sefydliadau diogel)	160
Tabl B1.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)	161
Tabl B1.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros)	162
Tabl B1.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data)	163
Tabl B1.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (atgyfeirio prydlon)	164
Tabl B1.7. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (dynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol)	166
Tabl B1.8. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (darpariaeth, cyhoeddiad ac adolygiad rheolaidd o lwybrau asesu a diagnostig)	167
Tabl B2.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (gwybodaeth a chyfeirio i gael mynediad at wasanaethau asesu parhad)	172
Tabl B2.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i asesiad)	174
Tabl B2.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (rhannu gwybodaeth yn brydlon)	175
Tabl B2.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (sefydliadau diogel)	177
Tabl B3.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae ymarferwyr a gwasanaethau	

yn ymwybodol o wasanaethau awtistiaeth ac mae ganddynt lwybrau atgyfeirio clir)	178
Tabl B3.7. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth GCCh)	180
Tabl B3.8. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth am wasanaeth GCCh ar gael ar wasanaethau awtistiaeth lleol)	181
Tabl B3.9. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ar gael i'r cyhoedd).	183
Tabl B3.10. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ar gael i'r cyhoedd parhad).	186
Tabl B4.1. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (aros am ddiagnosis)	187
Tabl B4.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd)	189
Tabl B4.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion)	192
Tabl B4.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (IQ a meini prawf cymhwysedd ar gyfer asesiad o anghenion)	195
Tabl B5.1. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu a hyfforddiant	196
Tabl B5.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu a hyfforddi'r gweithlu (asesu anghenion hyfforddi awtistiaeth yr holl staff)	198
Tabl B5.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu a hyfforddi (y wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i ymgymryd â rolau)	201
Tabl B5.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu a hyfforddi'r gweithlu (gwasanaethau a gomisiynir)	202
Tabl B5.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu a hyfforddi'r gweithlu (unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalmwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth)	203

Tabl B5.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu a hyfforddi'r gweithlu (digon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth)	204
Tabl B6.1. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (cydymffurfio â rhannau 2 a 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).....	207
Tabl B6.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (darpariaethau gwasanaeth arbenigol yn cael eu nodi)	209
Tabl B6.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (cynnwys unigolion awtistig er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau).....	210
Tabl B6.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (penodir rôl hyrwyddwr awtistiaeth)	213
Tabl B6.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth)	214
Tabl B6.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau awtistiaeth (cydymffurfio â gofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru)	216

Rhestr o ffigurau

Siart 1.1. Ymatebion i gwestiynau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol [troednodyn] gan oedolion awtistig anabl (16 i 64 oed) mis Ionawr i fis Mehefin 2020, mis Ionawr i fis Mehefin 2021 ac oedolion nad ydynt yn anabl (16 i 64 oed) mis Gorffennaf i fis Mehefin 2021 yn y DU.....	13
Ffigur 2.1. Sgôr RAGG meysydd cydymffurfiaeth	17
Ffigur 2.2. Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl ALI	26
Ffigur 2.3. Sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig.....	29
Ffigur 3.1. Allwedd i Dabl 3.1 i 3.7. Sgôr RAGG ar gyfer cydymffurfiaeth	37
Ffigur 3.2. Allwedd i sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig.	38
Ffigur 4.1. Modelau hunanwasanaeth a gwasanaeth o wybodaeth a chymorth.....	71
Siart 8.1. Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal chi?'	115
Siart 8.2. Ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'	130
Siart 8.3. Ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'	131

Rhestr termau

Mae **asesiad gofal cymdeithasol** yn broses a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i benderfynu pa ofal a chymorth sydd eu hangen ar unigolyn, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

Mae **asesiad diagnostig** yn werthusiad cynhwysfawr, a gynhelir fel arfer gan dîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr i benderfynu a oes gan rywun anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD).

Mae'r [Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth](#) yn disgrifio **awtistiaeth** fel cyflwr datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar 'sut y mae person yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl eraill, a sut y maent yn profi'r byd o'u hamgylch'.

Niwroamrywiaeth: Mae gan bob un ohonom wahaniaethau unigol o ran y ffordd y mae ein hymennydd yn gweithio. Fodd bynnag, ceir grwpiau o bobl hefyd sy'n prosesu gwybodaeth mewn ffordd debyg i'w gilydd a chyfeirir atynt fel rhai sydd â'r un niwroteip. Mae hyn yn golygu y gall fod gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol niwroteipiau.

Niwrnodweddiadol: Cyfeirir at y mwyaf o'r niwroteipiau hyn fel niwrnodweddiadol. Dyma'r niwroteip mwyaf cyffredin. Gan fod pobl niwrnodweddiadol yn y mwyafrif maent yn tueddu i ffynnu gan fod yr amgylchedd yn aml wedi'i lunio gan bobl niwrnodweddiadol eraill sy'n golygu bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu.

Niwrowahanol: Gall niwroteipiau lleiafrifol gynnwys cyflyrau fel awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD), dyscalcwlia, dyslecsia ac Anhwylder yn Natblygiad y Cydsymud a gellir eu disgrifio hefyd fel cyflyrau niwroddatblygiadol. Gyda'i gilydd cyfeirir at bobl â niwroteipiau lleiafrifol fel niwrowahanol.

1. Cyflwyniad


Mae profiadau a chanlyniadau unigolion awtistig, fel gydag unrhyw grŵp mewn cymdeithas, yn amrywiol. Mae'r data ar eu profiadau a'u canlyniadau braidd yn gyfyngedig ac yn dameidiog, gan ei gwneud yn anodd eu deall neu eu mesur yn llawn. Serch hynny, mae tystiolaeth y gall y profiadau a'r canlyniadau i unigolion awtistig fod yn brin o'u cyfoedion niwronodweddiadol. Er enghraifft, fel y mae Siart 1.1. yn dangos, ar y cyfan, mae unigolion awtistig anabl yn y DU, yn nodi lefelau llawer is o lesiant a lefelau uwch o orbryder nag unigolion nad ydynt yn anabl. Ni fydd pob unigolyn awtistig yn uniaethu fel anabl nac yn cael ei ystyried yn anabl ^[troednodyn 1]. Serch hynny, mae'r data hyn yn dal i ddarparu cymhariaeth ddefnyddiol ac yn ein helpu i ddeall yn well sut y gall y profiadau a'r canlyniadau i unigolion awtistig fod yn brin o grwpiau eraill mewn cymdeithas.

Nid oes un rheswm am y gwahaniaethau mewn profiadau. Gall, er enghraifft, fod yn gysylltiedig ag anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a all yn ei dro gyfrannu at allgáu cymdeithasol ac economaidd o gymdeithas niwronodweddiadol. Fel y mae Siart 1.1. yn dangos, cafodd y pandemig hefyd effaith fawr ar lesiant pobl ac, ar y cyfan, effeithiodd ar bobl anabl yn fwy na phobl nad ydynt yn anabl ^[troednodyn 2].

[1] Mae'r meini prawf diagnostig ar gyfer awtistiaeth, sy'n cynnwys anawsterau parhaus gyda chyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol sy'n cyfyngu ac yn amharu ar weithredu bob dydd ([Meini prawf diagnostig - canllaw i bob cynulleidfia](#)), yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o unigolion awtistig yn cael eu hystyried yn 'anabl', gan y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer set ddata SYG. Yn y set ddata hon, mae statws anabled person yn cael ei hunangofnodi ac mae'n seiliedig ar ddiffiniad Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, sy'n nodi "anabl" fel person sydd â chyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy, sy'n lleihau ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd ([Methodoleg canlyniadau i bobl anabl yn y DU, diweddariad 2021](#)). Fodd bynnag, oherwydd bod y data yn seiliedig ar ddata wedi'u hunangofnodi, efallai na fydd rhai unigolion awtistig yn ystyried eu hunain yn anabl os, er enghraifft, nad oedd eu hawtistiaeth yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i dydd. At hynny, mae model cymdeithasol o anabled lle mae pobl yn destun "anablu" oherwydd rhwystrau mewn cymdeithas, nid oherwydd eu hamhariad neu wahaniaeth, hefyd yn golygu bod i ba raddau mae unigolion awtistig yn ystyried eu hunain yn anabl yn dibynnu ar agweddau ac arferion cymdeithasol, yn hytrach na'r gwahaniaethau sylfaenol yn unig.

[2] Adlewyrchir hyn yn y lefelau is o lesiant a gofnodwyd ar gyfer pobl anabl rhwng Ionawr a mis Mehefin 2020, o'i gymharu â'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2021. Yn anffodus, nid oes data ar gael am bobl nad ydynt yn anabl ar gyfer yr un cyfnodau amser.

Siart 1.1. Ymatebion i gwestiynau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol [troednodyn 3] gan oedolion awtistig anabl (16 i 64 oed) mis Ionawr i fis Mehefin 2020, mis Ionawr i fis Mehefin 2021 ac oedolion nad ydynt yn anabl (16 i 64 oed) mis Gorffennaf i fis Mehefin 2021 yn y DU



Disgrifiad o Siart 1.1: Siart bar sy'n dangos y llesiant a nodwyd gan oedolion awtistig anabl ac oedolion nad ydynt yn anabl. Mae'n dangos bod oedolion awtistig anabl wedi nodi lefelau is o hapusrwydd, teimladau bod bywyd yn werth chweil, a boddhad gyda bywyd a lefelau uwch o orbryder, nag oedolion nad ydynt yn anabl.

Ffynhonnell: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Anabledd a Llesiant](#) (2022b) (gan ddefnyddio data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)

Mewn ymateb i'r heriau hirsefydlog y mae unigolion awtistig a'u teuluoedd wedi'u hwynebu, mae'r [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016](#) yn ceisio sicrhau bod 'anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalcwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles ac i fyw bywydau llawn' (pwyslais wedi'i hepgor [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig](#), t.5). [Cafodd y](#)

[3] Dyma'r pedwar cwestiwn: Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddod? Lle mae 0 'ddim yn hapus o gwbl' a 10 yn 'hollol hapus'. Cwestiwn: Yn gyffredinol, i ba raddau rydych chi'n teimlo bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil? Lle mae 0 'ddim yn werth chweil o gwbl' a 10 yn 'hollol werth chweil'. Cwestiwn: Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd y dyddiau hyn? Lle mae 0 'ddim yn fodlon o gwbl' a 10 yn 'hollol fodlon'. Cwestiwn: Ar y cyfan, pa mor bryderus roeddech yn ei deimlo ddod? Lle mae 0 'ddim yn bryderus o gwbl' a 10 yn 'hollol bryderus' ([Anabledd a Llesiant](#)).

[Cynllun Gweithredu Strategol ei werthuso yn 2019](#). Nododd y gwerthusiad hwn fod cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu gan gynnwys:

- gwella capasiti ac ansawdd asesu a diagnosis awtistiaeth, drwy sefydlu gwasanaethau niwroddatblygiadol (NDd) plant newydd a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, er bod y galw am y ddau wasanaeth yn llawer mwy na'u capasiti
- gwella canlyniadau addysgol a phrofiadau i blant awtistig a phrofiadau eu rhieni a'u gofawyr, drwy'r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), er bod y gwerthusiad yn nodi bod perthynas rhieni a gofawyr ag ysgolion ac awdurdodau lleol (ALLau), yn aml yn wrthwynebol o hyd
- gwella canlyniadau cyflogaeth i bobl ifanc awtistig drwy, er enghraifft, y rhaglen Ymgysylltu i Newid ^[troednodyn 4]
- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gymdeithasol o awtistiaeth drwy, er enghraifft, hyfforddiant ac adnoddau wedi'u datblygu gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol erbyn hyn), er bod y gwerthusiad wedi nodi bod y defnydd o rai adnoddau yn gymharol fach

O ystyried yr heriau, ac i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Strategol, mae'r [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#) (y cyfeirir ato fel 'y Cod' o hyn ymlaen) 'yn nodi'r hyn y gall unigolion awtistig, rhieni a gofawyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru' (t.1). Mae'r Cod yn amlygu ac yn atgyfnerthu dyletswyddau presennol o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) a [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(GIG\) \(Cymru\)](#) (2006) a chafodd ei gyflwyno fel dewis arall yn lle bil awtistiaeth ar wahân (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#)).

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Nod y gwerthusiad hwn yw adolygu i ba raddau y mae'r dyletswyddau yn y Cod yn cael eu bodloni ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwelliannau o ran bodloni dyletswyddau'r Cod. Cafodd y gwerthusiad ei strwythuro mewn dau gam. Canolbwyntiodd y cam cyntaf ar farn ymarferwyr ar gydymffurfio. Gwnaeth yr ail gam hwn ehangu'r lens i ystyried profiad unigolion awtistig hefyd a rhieni a gofawyr unigolion awtistig wrth asesu cydymffurfiaeth. Amcanion yr ail gam oedd:

- archwilio a yw'r argymhellion o ran bodloni dyletswyddau'r Cod a nodwyd yng nghan 1 wedi cael sylw a nodi unrhyw heriau y mae darparwyr gwasanaethau wedi'u cael wrth weithredu'r argymhellion
- asesu ymhellach i ba raddau y mae dyletswyddau'r Cod yn cael eu bodloni

[4] Cefnogodd y [prosiect Ymgysylltu i Newid](#) bobl ifanc 16 i 25 oed a chanddynt anhawster dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth a'i nod oedd eu helpu i gyflawni eu potensial llawn.

- asesu a yw defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod a'i ddyletswyddau, er enghraifft:
 - a yw defnyddwyr gwasanaethau wedi profi asesiadau a chanlyniadau asesiadau o fewn yr amserlen a nodir yn y Cod
 - a yw defnyddwyr gwasanaethau wedi cael mynediad at gymorth yn agos at lle maent yn byw
 - a yw defnyddwyr gwasanaethau wedi cael dweud eu dweud ar sut mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u rhedeg
 - a yw defnyddwyr gwasanaethau wedi bod yn rhan o hyfforddiant awtistiaeth, gan helpu i gynllunio neu roi hyfforddiant
- asesu i ba raddau y mae'r Cod wedi gwneud gwahaniaeth i ddatblygu a darparu gwasanaethau awtistiaeth a datblygu argymhellion pellach ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod

Strwythur yr adroddiad

Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon:

- mae adran 2 yn amlinellu dull a methodoleg y gwerthusiad
- mae adrannau 3 i 7 yn amlinellu'r canfyddiadau mewn perthynas â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag
 - asesiadau diagnostig (Adran 3)
 - gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (adran 4)
 - mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (adran 4)
 - mynediad at wasanaethau i unigolion awtistig sydd ag anghenion cymhleth (adran 5)
 - sgiliau a gwybodaeth staff iechyd a gofal cymdeithasol (Adran 6)
 - cynllunio a chomisiynu gwasanaethau (adran 7)
- mae adran 8 yn ystyried profiadau oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig
- mae adran 9 yn ystyried effaith debygol y Cod
- mae adran 10 yn amlinellu'r casgliadau
- mae adran 11 yn amlinellu'r argymhellion

2. Dull a methodoleg

Cyflwyniad

Defnyddiwyd dull gwerthuso sy'n seiliedig ar theori ^[troednodyn 5]. Canolbwyntiodd hyn ar:

- archwilio gofynion y Cod
- nodi i ba raddau roedd ymarfer ALI a byrddau iechyd lleol (BILI) yn cydymffurfio â'r Cod. Er enghraifft, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ALI a BILI 'Sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill' ac asesodd y gwerthusiad a oedd aros am ddiagnosis yn rheswm pam y gellid gwrthod cymorth a/neu wasanaethau eraill i bobl
- nodi sut a pham roedd ymarfer wedi newid, gan gynnwys i ba raddau y gellid priodoli newidiadau mewn ymarfer i'r Cod a rhwystrau a galluogwyr i newid gan asesu effaith debygol newidiadau mewn ymarfer ar oedolion awtistig, plant awtistig a'u rhieni neu ofalwyr.

Archwilio gofynion y Cod

Mae'r Cod yn ddogfen hir, gydag adrannau a gofynion sy'n gorgyffwrdd. Gall yr iaith a ddefnyddir hefyd fod braidd yn amwys weithiau; er enghraifft, mae'r term 'asesiad' yn cael ei ddefnyddio yn y Cod i ddisgrifio asesuadau diagnostig a gofal cymdeithasol, ac mae hyn wedi achosi rhywfaint o ddryswch. Er mwyn archwilio a nodi gofynion y Cod, cynhaliodd y tîm gwerthuso sawl darlenniad agos o destun a dogfennau ategol y Cod, fel [Cod ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth: dogfen ganllaw ategol](#) (Llywodraeth Cymru, 2021b) a'r [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(2014\)](#) (Llywodraeth Cymru, 2023a), a thrafod dehongliad rhanddeiliaid o'r testun gyda'r canlynol:

- tîm rhaglen gwella niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru ^[troednodyn6]
- Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol

Dechreuodd y broses hon ar ddiwedd mis Ionawr 2023 a pharhau drwy gydol y gwerthusiad, nes i'r meincnodau ar gyfer pob un o ddyletswyddau'r Cod gael eu cwblhau ym mis Medi 2023. Dros y cyfnod hwn, datblygodd dehongliadau o rai o ofynion mwy goddrychol y Cod drwy drafodaethau olynol gyda Llywodraeth Cymru, tîm y rhaglen gwella

[5] Gweler, er enghraifft, Canllawiau Trysorlys EF, [The Magenta Book: Central Government guidance on evaluation](#), am drafodaeth o ddulliau gwerthuso sy'n seiliedig ar theori.

[6] Mae awtistiaeth yn gyflwr niwroddatblygiadol. Mae cyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn cynnwys, er enghraifft, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a syndrom Tourette, ac mae datblygu polisi cenedlaethol a thimau wedi symud o awtistiaeth i ganolbwyntio ar ystod ehangach o gyflyrau niwroddatblygiadol.

niwrowahaniaeth, y tîm niwrowahaniaeth cenedlaethol/tîm awtistiaeth cenedlaethol a grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol.

Defnyddiwyd y trafodaethau, a darllen y Cod a'r dogfennau ategol sawl gwaith i archwilio'r bwriad y tu ôl i'r Cod (hynny yw, y newid neu'r canlyniadau a ddymunir) ac ystyr testun y Cod. Roedd y dull hwn yn cyfateb i 'destunoliaeth' [troednodyn 7], lle cafodd gofynion y Cod eu dehongli ar sail sut y byddai darlennydd 'rhesymol' yn deall y testun yn ei gyd-destun (yn hytrach na dehongliad cwbl lythrennol [troednodyn 8]. Cafodd cyfres o feincnodau (a amlinellir yn yr atodiad – Atodiad B) eu creu i sicrhau bod dyfarniadau cydymffurfio yn erbyn pob un o'r dyletswyddau, a amlinellir yn adrannau 3 i 7, yn dryloyw ac yn gyson ar draws y saith rhanbarth. Serch hynny, yn anochel mae rhywfaint o ddyfarniad goddrychol o hyd ac mae rhai enghreifftiau ar y ffin rhwng categorïau gwahanol, neu'n agos at y ffin hon. Mae Ffigur 2.1 yn amlinellu sut y cafodd y meincnodau eu troi yn raddfa sgorio pedwar pwynt RAGG (coch-oren-gwyrdd-gwyrdd).

Ffigur 2.1. Sgôr RAGG meysydd cydymffurfiaeth

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfio o'n llawn â'r Cod)	Cydymffurfiaeth / cynnydd cymysg neu gyfyngedig hyd yma	Dim tystiolaeth / tystiolaeth annigonol i werthuso cydymffurfiaeth	Tystiolaeth glir o beidio â chydymffurfio	Amherthnasol
Cydymffurfio +	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Dd/B

Disgrifiad o Ffigur 2.1: Mae'n disgrifio sgôr RAGG meysydd cydymffurfiaeth. Mae'n mynd o wyrdd tywydd ar gyfer cydymffurfiaeth lawn i goch tywyll ar gyfer diffyg cydymffurfio. At ei gilydd, mae gan y raddfa gydymffurfiaeth lawn, cynnydd da, cynnydd cymysg neu gyfyngedig, tystiolaeth annigonol, diffyg cydymffurfio, ac amherthnasol.

Cam 1 y gwerthusiad: asesu cydymffurfiaeth â'r Cod

Cafodd y Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Cam Un (asesiad ymarferwyr o gydymffurfio) ei gyhoeddi yn 2024. Yn y cam cyntaf hwn, adolygodd

[7] Gweler, er enghraifft, yr erthygl, [The Rise and Fall of Textualism](#), ar gyfer trafodaeth ar destunoliaeth.
[8] Er enghraifft, cafodd ystyr y ddyletswydd i 'sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu' ei ddehongli yn ei gyd-destun. Dyfarnwyd bod y cyfeiriad at 'wasanaeth asesu' yn gyfeiriad at wasanaeth asesu diagnostig ar gyfer awtistiaeth (yn hytrach nag, er enghraifft, asesiad gofal cymdeithasol), gan fod y ddyletswydd yn y bennod yn trafod 'Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth'. A chafodd y gofynion sy'n ymwneud â 'gwybodaeth a chyfeiriadau i gael' y gwasanaeth ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#) t.12) eu dehongli o ystyried dealltwriaeth o sut y byddai plant neu oedolion fel arfer yn cael mynediad at wasanaeth asesu diagnostig awtistiaeth.

y gwerthusiad y gwaith yr oedd pob rhanbarth wedi'i wneud i ddatblygu asesiad sylfaenol o'i gydymffurfiaeth â'r Cod i nodi arfer da a bylchau hefyd lle nad oedd cydymffurfio yn glir. Cafodd rhagor o ymchwil ei gynnal lle nodwyd bylchau. I ategu hyn, yn ystod cam cyntaf yr adolygiad:

- datblygwyd offer a dulliau newydd er mwyn helpu i gasglu data ansoddol yn bennaf i lywio'r gwaith o werthuso cydymffurfiaeth
- cyfwelwyd â rhanddeiliaid (n=25)
- cynhaliwyd adolygiadau desg (er enghraifft, o wefannau ALI a BILI a pholisïau cydraddoldeb)
- trafodwyd asesiad y tîm gwerthuso o gydymffurfiaeth pob ardal â grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol

Cam 2 y gwerthusiad: asesu cydymffurfiaeth â'r Cod

Yn yr ail gam, ceisiodd y gwerthusiad ddefnyddio dull ychydig yn wahanol. Er mwyn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y cam cyntaf ac i sicrhau'r berchnogaeth a'r ddealltwriaeth fwyaf posibl o'r Cod ymhlith y gwasanaethau hynny sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Cod, rhoddwyd mwy o bwyslais ar annog a chefnogi pob rhanbarth i hunanasesu eu cynnydd a nodi camau gweithredu a allai fod yn ofynnol lle nad oeddent yn cydymffurfio. Er mwyn helpu hyn, aeth y tîm gwerthuso ati i adolygu'r gwersi o gam 1 a rhannu'r 51 o ddyletswyddau yn y Cod yn bedwar maes, gan bennu pob dyletswydd i un o bedwar grŵp o randdeiliaid sydd â phrif gyfrifoldeb am ddyletswyddau penodol yn y Cod. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys:

- gwasanaethau asesu diagnostig BILI (fel y Gwasanaeth NDd Plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, IMO (Iechyd Meddwl Oedolion) ac AD (Anabledd Dysgu) a gwasanaethau BILI ar gyfer unigolion awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd fel gwasanaethau CAMHS, IMO ac AD
- Tîmau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) a thîmau asesu gofal cymdeithasol ALI
- rheolwyr datblygu'r gweithlu mewn ALIau a BILI
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)

Roedd dyrannu dyletswyddau i bob grŵp o randdeiliaid yn dilyn pedair adran y Cod yn fras, er enghraifft:

- Gofynnwyd i wasanaethau asesu diagnostig BILI adolygu'r dyletswyddau yn adran 1 y Cod (Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth): 'darparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol' (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t.12)

- Gofynnwyd i wasanaethau GCCh ALI adolygu'r ddyletswydd yn adran 2 y Cod (Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol): 'sichrau bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 22)
- Gofynnwyd i reolwyr datblygu'r gweithlu ALI a BILI adolygu'r ddyletswydd yn adran 3 y Cod (Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant): 'sichrau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o'r rhaglenni hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a gynigir i bob aelod staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol' (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 31)
- Gofynnwyd i BPRh adolygu'r ddyletswydd yn adran 4 y Cod (Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid): 'cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Rhannau 2 a 9, i sichrau bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal' (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 36)

Fodd bynnag, roedd strwythur y Cod yn golygu y gofynnwyd hefyd i wasanaethau asesu diagnostig BILI a gwasanaethau GCCh ALI adolygu dyletswyddau yn adrannau 1, 2 a 3 y Cod; er enghraifft, yn ogystal â dyletswyddau yn adran 1 y Cod (Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth), gofynnwyd i wasanaethau BILI adolygu nifer o ddyletswyddau yn adran 2 y Cod (Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol), fel: 'sichrau nad yw pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion. Rhaid i ystyriaeth o ddangosyddion craidd cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth a'u dylanwad ar yr unigolion lywio'r gofal a'r cymorth a gynigir a'i ganlyniadau'. Gofynnwyd hefyd i reolwyr datblygu'r gweithlu adolygu un ddyletswydd yn adran 2 y Cod (Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant): 'sichrau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol mewn awtistiaeth ac anghenion ymddygiad a synhwyaidd cysylltiedig ar lefel sy'n briodol i'w cyfraniad nhw' (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 22).

At hynny, cafodd nifer o ddyletswyddau trawsbynciol yn adrannau 2 (Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a 3 o'r Cod (Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant), fel y ddyletswydd i 'wneud trefniadau i sichrau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.' (ibid., t. 23) a 'sichrau bod addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer unigolion awtistig er mwyn sichrau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel pawb arall' (y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 36) eu pennu i BPRh i'w hystyried, ar y sail nad oedd gan un gwasanaeth brif gyfrifoldeb.

Diweddaru'r asesiad sylfaenol a gynhaliwyd yng nghanam 1: cynorthwyo hunanasesu

Er mwyn cefnogi'r hunanasesiad o gydymffurfiaeth yn 2024, tua blwyddyn ar ôl yr asesiad sylfaenol o gydymffurfiaeth yn 2023, gwnaethom ddarparu manylion yr asesiad cychwynnol (sylfaenol) o gydymffurfiaeth yn 2023 i bob grŵp o randdeiliaid ym mhob rhanbarth, a'r argymhellion a wnaed ar gyfer pob dyletswydd y gofynnwyd iddynt ei hadolygu. Hefyd, lle roedd gwybodaeth ychwanegol ar gael, gwnaethom ychwanegwyd hyn, er enghraifft, nododd asesiad cam 1 o gydymffurfiaeth (Llywodraeth Cymru, 2023c) mai prin iawn oedd y ddealltwriaeth o gydymffurfiaeth mewn sefydliadau diogel. Mewn ymateb, gwnaethom adolygu adroddiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ar gyfer pob un o'r saith safle sefydliad diogel yng Nghymru ^[troednodyn 9] i nodi eu canfyddiadau mewn meysydd fel mynediad at asesiadau a hyfforddiant staff a gwnaethom ddiweddaru adrannau'r asesiad sylfaenol cychwynnol sy'n ymwneud â sefydliadau diogel, y gwnaethom ofyn i wasanaethau BILI ac ALI eu hadolygu ^[troednodyn10]. Yn ogystal, lle nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu yn yr asesiad cychwynnol i wneud dyfarniad ar gydymffurfiaeth, gwnaethom geisio bod mor glir ac amlwg ag y gallem ynghylch pa wybodaeth ychwanegol fyddai ei hangen i asesu cydymffurfiaeth.

Yna adolygodd y tîm gwerthuso'r deunydd ychwanegol a ddarparwyd gan randdeiliaid i benderfynu a oedd (a) y deunydd ychwanegol yn berthnasol i bob un o'r dyletswyddau yn y Cod, ac yna i ystyried a oedd (b) angen i ni ailystyried ein hasesiad o gydymffurfiaeth ar gyfer pob dyletswydd, yn seiliedig ar y wybodaeth ychwanegol honno a'r meincnodau a ddatblygwyd yng nghanam un. Yna rhannwyd yr asesiadau wedi'u diweddaru â rhanbarthau, i sicrhau bod cyfle i gywiro unrhyw gamgymeriadau neu gamddealltwriaethau.

Roedd nod y dull hwn yn ddeublyg:

- helpu i symleiddio'r broses o ddiweddaru'r asesiad cychwynnol ar ôl 12 mis a'i gwneud yn haws ei rheoli
- annog gwasanaethau i ganolbwyntio ar y dyletswyddau hynny yr oedd ganddynt brif gyfrifoldeb amdanynt, i'w hannog i gymryd perchnogaeth o'r dyletswyddau hyn a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio

Ein nod oedd symleiddio'r dull oherwydd gwelsom yn y cam cyntaf fod hyd a chymhlethdod y Cod yn achosi problemau a bod rhywfaint o ansicrwydd ymhlith rhanddeiliaid ynghylch pa wybodaeth oedd ei hangen i roi tystiolaeth o gydymffurfiaeth. Yr adborth a gawsom gan randdeiliaid oedd bod y dull newydd yn effeithiol wrth symleiddio'r broses o asesu cydymffurfiaeth.

[9] Cartref Plant Diogel Hillside yng Nghastell-nedd, Sefydliad Troseddwyd Ifanc CEF Y Parc, CEF Caerdydd, CEF Y Parc, CEF Abertawe, CEF Brynbuga a Phrescoed a CEF Berwyn.

[10] Er enghraifft, gwnaethom ddiweddaru'r asesiad o'r dyletswyddau i: 'sicrhau bod gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel' a 'sicrhau bod llwybrau o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), tt. 12 i 13).

Fodd bynnag, ein hasesiad oedd bod y dull diwygiedig a ddefnyddiwyd yng nghanau dau yn llai llwyddiannus wrth annog gwasanaethau i gymryd perchnogaeth o asesu cydymffurfiaeth a nodi camau gweithredu. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd er bod ymgysylltu cryf gan rai gwasanaethau mewn rhai rhanbarthau, nid oedd hyn yn wir mewn rhanbarthau eraill, gydag ychydig neu ddim gwybodaeth wedi'i darparu mewn rhai achosion. At hynny, lle darparwyd gwybodaeth, mewn rhai achosion cododd yr ymatebion gwestiynau ynghylch a oedd rhanddeiliaid:

- yn dal i gael trafferth deall beth sy'n ofynnol o dan y Cod, gan gynnwys achosion lle roedd yn ymddangos nad oedd ganddynt hyder yn yr hyn oedd yn ofynnol a darparwyd rhestrau hir o weithgarwch, yn y gobaith bod rhywfaint ohono yn berthnasol
- yn cael trafferth neilltuo digon o amser a sylw i adolygu cydymffurfiaeth

Diweddaru'r asesiad sylfaenol a gynhaliwyd yng nghanau un: triongli data

O gymharu â cham un, rhoddwyd mwy o bwyslais ar hunanwerthuso yng nghanau dau er mwyn galluogi triongli'r data a ddarparwyd gan hunanwerthuso ac archwilio'r data o wahanol safbwyntiau. Yn ogystal, casglwyd data drwy'r canlynol:

- trafodaethau gyda'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol
- trafodaethau gydag arweinwyr ASD, ac arolwg ohonynt
- arolwg o arweinwyr datblygu'r gweithlu ALI a BILI
- arolwg o oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr unigolion awtistig
- adolygiad desg o ddogfennau

Cydweithio â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol/Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

Sefydlwyd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol er mwyn helpu i gyflwyno'r agenda awtistiaeth yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu'r Cod. O ystyried ei rôl a chysylltiadau â grwpiau strategol rhanbarthol, ALLau a BILI, a gwaith o amgylch codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, gweithiodd y tîm gwerthuso yn agos gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r sefydliadol olynol, y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ^[troednodyn 11]. Helpodd y cydweithio agos hwn i sicrhau y gallai'r gwerthusiad gael ei lywio gan waith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol / Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ac, yn ei dro, y gallai'r gwerthusiad helpu i lywio a chynorthwyo gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol / Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.

Arolwg o Arweinwyr Datblygu'r Gweithlu

Cafodd arolwg o arweinwyr Datblygu'r Gweithlu mewn ALI a BILI ei ddatblygu a'i rannu yn hydref 2024 gyda chymorth y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Cafwyd 21 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion gan arweinwyr datblygu'r gweithlu mewn:

[11] Ym mis Hydref 2024, cafodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ei ail-lansio fel y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.

- 17 o ALLau: un ymateb i'r arolwg yr un gan Gaerdydd, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Cyngor Sir Penfro, Powys a Bro Morgannwg; dau ymateb yr un gan Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Abertawe; a phedwar ymateb i'r arolwg gan Wrecsam
- pedwar BILL: Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Phowys

Defnyddiwyd yr ymatebion hyn i lywio'r asesiad o gydymffurfiaeth pob rhanbarth â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu.

Arolwg o Arweinwyr ASD

Cafodd holiadur ar gyfer arweinwyr ASD ei baratoi a'i ddosbarthu, i sicrhau eu bod yn cael cyfle i roi adborth ychwanegol y gellid ei gynnwys yn yr asesiadau rhanbarthol o gydymffurfiaeth. Cafwyd pedwar ymateb gan arweinwyr ASD yng Nghaerffili, Conwy, Sir Benfro a Thorfaen, ac fe'u defnyddiwyd fel rhan o'r asesiadau rhanbarthol o gydymffurfiaeth yng Ngwent, Gogledd a Gorllewin Cymru.

Casglu data gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr unigolion awtistig ar eu profiad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Y bwriad oedd y byddai profiadau oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr unigolion awtistig yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio arolygon a chyfweliadau. Er mwyn mesur newid dros amser, byddai oedolion awtistig sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a rhieni a gofalwyr plant awtistig a phobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, yn cael eu harolygu ar ddwy adeg mewn amser. Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, nid oedd yn bosibl gweithredu'r cynllun gwreiddiol yn llawn.

Arolygu rhieni a gofalwyr sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ac oedolion sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Roedd nodi profiadau unigolion awtistig a'u rhieni neu ofalwyr yn creu heriau i'r gwerthusiad. Er enghraifft:

- nid oedd ffrâm samplu y gellid tynnu sampl gynrychioliadol ohoni (ac felly ni allwn adrodd am gyfraddau ymateb)
- roedd samplu nad yw'n debygolrwydd, fel gwahoddiad agored i lenwi holiadur ar-lein, yn creu'r risgiau o ragfarn yn y sampl a gyflawnwyd. Roedd hyn oherwydd na fyddai llawer o reolaeth dros bwy ymatebodd, os o gwbl, gan ei gwneud yn anodd barnu mor gynrychioliadol oedd yr ymatebion

O ystyried yr heriau hyn, er mwyn pennu llinell sylfaen y gellid ei defnyddio i fesur newid dros amser, penderfynwyd y byddai'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar brofiadau dwy sampl ddiffiniedig, yr oedd ffrâm samplu ar gael ar eu cyfer: rhieni a gofalwyr plant awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ac oedolion sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Er na fyddai'r ddwy sampl hyn yn cynrychioli 'cyfanfyd' oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl awtistig, disgwyliwyd y byddai'r dull hwn

yn darparu mewnwelediadau i brofiadau dau grŵp pwysig ac y byddai'n helpu i fesur unrhyw newid yn eu profiadau dros amser.

Cafodd holiadur ar gyfer rhieni a gofalwyr plant awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ei ddatblygu a'i drafod gyda Pholisi NDd Llywodraeth Cymru, y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a thimau Teuluoedd yn Gyntaf a'i dreialu'n llwyddiannus gyda chymorth gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Bwriadwyd y byddai llinell sylfaen yn cael ei gosod drwy gynnal yr arolwg ym mis Ebrill 2024 ac yna cynnal yr arolwg eto ar ôl tua chwe mis ym mis Tachwedd 2024 i archwilio a oedd profiadau rhieni a gofalwyr plant awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid yn y cyfamser [troednodyn 12]. Nid oedd y cyfnod byr rhwng yr arolwg sylfaenol a'r arolwg terfynol yn ddelfrydol ond roedd yn gyfyngedig gan yr amser a oedd ar gael i'r gwerthusiad.

Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd oedi wrth gytuno ar yr arolwg a'i dreialu, felly nid oedd digon o amser i gynnal arolwg dilynol ystyrlon ac yn lle hynny canolbwyntiodd y gwerthusiad ar arolwg ehangach (a drafodir isod) nad oedd yn gyfyngedig i rieni a gofalwyr plant awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.

Cafodd holiadur ar gyfer oedolion sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ei ddatblygu a'i drafod gyda Llywodraeth Cymru, y tîm niwrowahaniaeth cenedlaethol a Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, methodd ymdrechion i dreialu'r cwestiynau oherwydd nad oedd unrhyw oedolion wedi dewis cwblhau'r holiadur a chytunwyd â Llywodraeth Cymru i beidio â mynd ar drywydd hyn ymhellach.

Arolygu oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig

Cafodd yr holiadur Teuluoedd yn Gyntaf (a amlinellir uchod) ei ddefnyddio fel y sail ar gyfer holiadur mwy generig y gellid ei lenwi gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr unigolion awtistig (gyda llwybro'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y cwestiynau'n briodol i bob grŵp). Cafodd hyn ei ddosbarthu gan gyrrff cyfryngol, gan gynnwys y tîm niwrowahaniaeth cenedlaethol, BPRh, ALLau, BILI a'r sector gwirfoddol. Cyflwynwyd cyfanswm o 442 o ymatebion (a ddiffinnir fel holiaduron wedi'u cwblhau). Helpodd hyn i wrthbwysu'r problemau gyda llinynnau eraill arfaethedig y gwerthusiad. Trafodir yr ymatebion yn fanwl yn adran 8.

Fel yr oedd yn wir mewn perthynas â'r arolygon Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (a drafodwyd uchod), nid oedd ffrâm samplu y gellid tynnu sampl gynrychioliadol ohoni. Felly, ni allwn adrodd am gyfraddau ymateb, ac ni allwn fod yn hyderus bod y sampl o oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig yn gynrychioladol. Gellid disgrifio'r dull fel math o 'samplu maen prawf', gan ei fod yn canolbwyntio ar bobl a ddiffinnir naill ai gan eu niwrowahaniaeth a/neu eu profiadau bywyd penodol fel rhiant neu ofalwr unigolyn awtistig (gweler er enghraifft, y drafodaeth ar [samplu bwriadus yn The Sage Encyclopaedia of Qualitative Research Methods, tt. 697-8](#)). Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, dosbarthwyd y gwahoddiad i gymryd rhan gan amrywiaeth o gyrrff cyfryngol ac nid oedd ffrâm samplu i dynnu ohoni a phrin iawn oedd y

[12] Mae'r dull yn agored i fygythiadau i ddilysrwydd fel 'hanes' os, er enghraifft, yw anghenion plant sy'n cael mynediad at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn newid dros amser.

rheolaeth dros bwy ymatebodd, gan ei gwneud yn anodd iawn barnu mor gynrychioliadol yw'r bobl a oedd yn bodloni'r meini prawf o'r grŵp mwy neu'r boblogaeth o bobl sy'n rhannu'r nodwedd hon.

Yn ogystal, mae'n bwysig nodi bod y canlyniadau cyffredinol wedi'u gogwyddo:

- fel y dengys Tabl 2.1, roedd menywod wedi'u gor-gynrychioli yn y sampl i raddau helaeth oherwydd bod mwy o rieni neu ofalwyr a gwblhaodd yr arolwg a nododd eu bod yn fenywod yn hytrach nag, er enghraifft, oedolion awtistig gwrywaidd
- fel y dengys Tabl 2.2., roedd tua hanner ymatebwyr yr arolwg yn 25 i 44 oed a thua 40% yn 45 i 64 oed, gyda niferoedd bach 16 i 24 oed a 65 oed a throsodd
- fel y dengys Tabl 2.3, nododd bron 95% eu bod yn 'Wyn-Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig'
- fel y dengys Ffigur 2.2. a Thabl 2.4, er bod amrywiaeth da o gynrychiolaeth o bob rhan o Gymru, gydag ymatebion gan bob ALI yng Nghymru, roedd y boblogaeth mewn rhai ALLau â chynrychiolaeth ormodol neu heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sampl; er enghraifft, dim ond dau ymateb a gafwyd gan Ynys Môn a dau gan Dorfaen. Mewn cyferbyniad, cafwyd 74 o ymatebion gan Gaerffili, 47 gan Rionda Cynon Taf a 46 gan Fro Morgannwg

Tabl 2.1. Rhywedd ymatebwyr yr arolwg

Categori (Nifer yr ymatebion)	Benyw (%)	Gwryw (%)	Arall (%)	Mae'n well gennyf beidio â dweud (%)
Rhywedd (n=442)	87	10	1	1

Tabl 2.2. Oedran ymatebwyr yr arolwg


	16 i 24 (%)	25 i 44 (%)	45 i 64 (%)	65 oed a throsodd (%)
Oedran (n=368)	2	54	42	1

Tabl 2.3. Ethnigrwydd ymatebwyr yr arolwg

Gwyn-Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd	Gwyn Arall (%)	Pob grŵp ethnig arall (%)
---	----------------	---------------------------

	Iwerddon neu Brydeinig (%)		
Ethnigrwydd (n=431)	94	2	4

Ffigur 2.2. Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl ALI



Disgrifiad o Ffigur 2.2: Map coropleth o Gymru yn amlinellu dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg yn ôl awdurdod lleol.

Tabl 2.4. Preswylfa ymatebwyr yr arolwg

Rhanbarth	ALI	Nac ydw.	%
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	29	7
Caerdydd a'r Fro	Bro Morgannwg	47	11
Cwm Taf Morgannwg	Pen-y-bont ar Ogwr	4	1
Cwm Taf Morgannwg	Merthyr Tudful	5	1
Cwm Taf Morgannwg	Rhondda Cynon Taf	11	2
Gwent	Torfaen	2	0
Gwent	Blaenau Gwent	6	1
Gwent	Casnewydd	7	2
Gwent	Sir Fynwy	19	4
Gwent	Caerffili	74	17
Bae Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	14	3
Bae Abertawe	Abertawe	46	10
Powys	Powys	38	9
Gogledd Cymru	Ynys Môn	2	0
Gogledd Cymru	Wrecsam	3	1
Gogledd Cymru	Gwynedd	12	3
Gogledd Cymru	Conwy	15	3
Gogledd Cymru	Sir Ddinbych	16	4
Gogledd Cymru	Sir y Fflint	18	4
Gorllewin Cymru	Ceredigion	18	4
Gorllewin Cymru	Sir Gaerfyrddin	21	5
Gorllewin Cymru	Sir Benfro	33	7
Cyfanswm		440	100

Fel y mae tabl 2.5 yn amlinellu, nododd oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig a gwblhaodd un o bedwar holiadur yr arolwg eu bod wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau gwahanol y sector gwirfoddol, ALI a BILI yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw'n ymddangos eu bod yn grwpiau nad oeddent yn cael eu cyrraedd gan wasanaethau.

Tabl 2.5 Y gwasanaethau y nododd ymatebwyr yr arolwg eu bod wedi cael mynediad atynt yn ystod y tair blynedd diwethaf

	Cyfanswm [1]
Grŵp neu sefydliad y sector gwirfoddol	165
Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG	150
Y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol (NDd) Plant	139
Gofal Cymdeithasol Awdurdod Lleol (gall hyn hefyd gael ei alw'n Wasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant neu Wasanaethau Oedolion)	129
Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	103
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdod Lleol (gall hyn hefyd gael ei alw'n Wasanaeth Cyngor i Deuluoedd)	60
Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yr Awdurdod Lleol	59
Gwasanaethau Anabledd Dysgu y GIG	31
Arall [2]	80

[1] Oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un gwasanaeth, mae cyfanswm nifer y gwasanaethau a nodwyd yn llawer mwy na chyfanswm nifer yr ymatebwyr (N=442)

[2] Nodwyd amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cyflogaeth, troseddau ieuenctid a gwasanaethau'r sector preifat. Fodd bynnag, cofnododd y rhan fwyaf o sylwadau ysgrifenedig yn y categori 'arall' enwau grwpiau neu sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Mae'r profiad bywyd a nodwyd gan oedolion awtistig a/neu rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig wedi bod yn ffynhonnell bwysig iawn o ddata i lywio'r gwerthusiad. Fodd bynnag, ni all y gwerthusiad drin y data hyn fel data sy'n uniongyrchol gymaradwy â barn ymarferydd ar gydymffurfiaeth oherwydd:

- fel yr amlinellwyd uchod, ni allwn asesu'n hyderus mor gynrychiadol yw eu profiadau o bob profiad gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig mewn rhanbarth penodol

- nid oedd y cwestiynau a ofynnwyd i oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig bob amser yn uniongyrchol gyfaradwy â'r rhai a ofynnwyd i ymarferwyr. Roedd hyn oherwydd ei bod yn debygol bod gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl awtistig feysydd gwahanol o wybodaeth. Er enghraifft, ni fyddai disgwyl i oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig wybod pa hyfforddiant a gyflwynwyd i staff iechyd a gofal cymdeithasol (byddai disgwyl i ymarferwyr wybod hyn), ond byddai disgwyl iddynt feddu ar wybodaeth am eu profiadau o ryngweithio â staff iechyd a gofal cymdeithasol
- mae'n debygol y byddai eu profiadau yn aml yn adlewyrchu canlyniad amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys effeithiolrwydd nifer o wahanol bolisiâu, yn hytrach na graddau cydymffurfio ag un ddyletswydd. Fel yr amlinellwyd yn adran 8, ymddengys hefyd fod profiadau o wasanaethau addysg yng Nghymru (fel eu profiadau o'r ysgol), nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n uniongyrchol gan y Cod ^[troednodyn 13], wedi llunio barn a phrofiadau llawer o bobl (a'u hymatebion i'r cwestiynau yn yr arolygon)

Felly, nid ydym o'r farn bod yr ymatebion gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig yn uniongyrchol gyfaradwy, wrth asesu cydymffurfiaeth, ac nid ydym yn eu defnyddio fel tystiolaeth uniongyrchol o gydymffurfiaeth. Serch hynny, nid oes awgrym nad yw eu hymatebion yn ddiffuant. Wrth drafod canfyddiadau, cadarnhaodd rhanddeiliaid yn aml eu bod yn gyson â'r data anecdotaidd ac, mewn rhai achosion, data mwy systematig (fel canlyniadau arolygon neu ymgynghoriadau), oedd ganddynt ar brofiadau oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig. Er mwyn rhoi arwydd o sut y mae eu profiadau yn cymharu ag asesiadau cydymffurfiaeth ymarferwyr, rydym yn defnyddio'r raddfa sgorio RAG a amlinellir isod, yn adrannau 3 i 7.

Ffigur 2.3. Sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig.

Cynnydd da: 67 y cant neu fwy	Cynnydd cymysg neu gyfyngedig: 34 i 66 y cant	Ddim yn cydymffurfio: 33 y cant neu lai
Da	Cymysg/Cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio
...o oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant a phobl ifanc awtistig yn rhoi ymateb cadarnhaol (er enghraifft, 'hawdd iawn, eithaf hawdd', 'hyderus iawn', 'rhywfaint yn hyderus') ac eithrio ymatebion ddim yn gwybod NEU yn rhoi ymateb negyddol, fel 'ddim yn hyderus o gwbl'.		

Disgrifiad o Ffigur 2.3: Mae'n disgrifio sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwyr plant neu bobl ifanc awtistig. Mae gwyrdd yn nodi cynnydd da (67% neu fwy), mae

[13] Mae darpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sydd ag angen dysgu ychwanegol yn cael ei chwmpasu o fewn [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#).

oren yn nodi cynnydd cymysg neu gyfyngedig (34 i 66%), ac mae coch yn nodi nad yw'n cydymffurfio (33% neu lai).

Cyfweliadau ag oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig

Y bwriad oedd y byddai arolygon o oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig yn cael eu hategu gan gyfweliadau ag oedolion awtistig a rhieni a gofalwr. Bwriadwyd y byddai rhywun yn cysylltu â nhw gyda chymorth cyfryngwyr, fel sefydliadau'r trydydd sector fel Autism Spectrum Connections Cymru, grwpiau rhieni a gofalwyr NAS, gwasanaethau NDD ac arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau (a'r rhai sydd â hawl i wasanaethau sydd wedi dewis peidio ag ymgysylltu â gwasanaethau, neu sydd wedi methu gwneud hynny). Cynigiwyd amrywiaeth o ffyrdd i ddarpar gyfranogwyr gymryd rhan, gan gynnwys galwadau ffôn a fideo drwy Microsoft Teams neu, lle gofynnodd y cyfranogwyr, trafodaethau grŵp a holiaduron hunanlenwi ar-lein (a drafodwyd uchod). Fodd bynnag, yn ymarferol, er gwaethaf cymorth cyrff cyfryngol a diddordeb posibl gan lond llaw o bobl, ni ddewisodd unrhyw oedolion awtistig na rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig gael eu cyfweld. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai'r gwerthusiad yn parchu dewisiadau pobl ynghylch sut yr oeddent yn dymuno cymryd rhan yn y gwerthusiad, a chafodd y llinyn hwn o'r gwerthusiad ei atal.

Asesu profiadau cyn ac ar ôl y Cod

Cyhoeddwyd y Cod ym mis Gorffennaf 2021 a'i weithredu o 1 Medi 2021. Gan fod y Cod yn ailddatganiad o ddyletswyddau presennol, gwnaethom farnu ei bod yn rhesymol disgwyl a mesur cydymffurfiaeth o'r dyddiad hwn (yn hytrach nag, er enghraifft, ar ôl cyfnod paratoi neu weithredu). Felly, canolbwyntiodd ymchwil gydag oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig ar eu profiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dewiswyd y cyfnod hwn gan ei fod yn cwmpasu'r cyfnod ar ôl i'r Cod gael ei gyhoeddi ^[troednodyn 14] ac i liniaru'r risgiau y byddai cyfweleion yn cael trafferth galw i gof a disgrifio profiadau dros dair blynedd yn ôl yn gywir.

Cydnabuwyd hefyd y gallai pobl adrodd am amrywiaeth o brofiadau, y mae rhai ohonynt yn rhagflaenu'r Cod a rhai profiadau a gafwyd ar ôl cyflwyno'r Cod; er enghraifft, efallai eu bod wedi cael diagnosis cyn 2021 ond maent wedi ceisio cymorth gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a/neu wasanaethau GCCh yn fwy diweddar.

Archwilio profiadau rhyngweithio â gwasanaethau GCCh a gwefannau ALI/BILI

Bwriadwyd hefyd defnyddio ymgysylltu ag oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig fel ffordd o archwilio eu profiadau o rhyngweithio â gwasanaethau GCCh a gwefannau ALI/BILI. Bwriadwyd y byddai oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant awtistig a gymerodd ran yn yr ymchwil (fel cyfweleion neu drafodwyr grŵp), nad oeddent wedi cael mynediad at wasanaethau GCCh a/neu gwefannau yn cael eu gwahodd i wneud hynny ac yna'n rhoi adborth i'r tîm gwerthuso ar eu profiadau. Byddai hyn wedi bod yn debyg i ddull

[14] Bydd amseriad profiadau yn cael ei ystyried wrth asesu effaith (er enghraifft, os yw'r profiadau'n ymwneud â chyfnod o amser cyn neu ar ôl adroddiad ymarferwyr bod newidiadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth hwnnw).

arddull 'cwsmer cudd' ond byddai, er enghraifft, yn osgoi gosod unrhyw ofynion diangen ar wasanaethau (gan y byddai pobl yn cael mynediad at wasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt) a byddai'n ceisio gwneud eu rhyngweithio â gwasanaethau mor naturiol â phosibl (gan y byddai'n cynnwys oedolion awtistig neu'r rhieni a'r gofalmwyr sy'n cael mynediad at y gwasanaethau hynny). Mae cyfweld neu geisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiadau (fel y byddai'r dull hwn yn ei wneud) yn arfer safonol a barnwyd bod y risgiau moesegol sy'n gysylltiedig â'r dull hwn wedi'u lleihau. Yn anffodus, fel yr amlinellwyd uchod, nid oedd unrhyw oedolion awtistig na rhieni a gofalmwyr plant awtistig wedi dewis cael eu cyfweld, ac nid oedd yn bosibl gweithredu'r llinyn hwn o'r gwerthusiad.

Adolygiad desg

Lle bynnag y bo modd, cafodd data a ddarparwyd drwy hunanwerthuso ei driongli â ffynonellau eilaidd, er enghraifft:

- adolygwyd gwefannau ALI a BILI wrth ystyried asesiad ymarferwyr ynghylch dyletswyddau sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth am hawliau unigolion awtistig neu lwybrau at wasanaethau ^[troednodyn 15]
- Adolygwyd dogfennau BPRh, fel yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, wrth ystyried dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r asesiadau hyn ^[troednodyn 16], a dogfennau ALI a BILI, fel cynlluniau cydraddoldeb strategol, wrth ystyried dyletswyddau mewn perthynas â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ^[troednodyn 17]
- adolygwyd ymchwil a gwerthusiadau eraill, fel [adolygiad Arolygiaeth Iechyd Cymru \(AGIC\)](#), [Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru \(AGC\) o gymorth ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc](#) (2024), wrth ystyried mynediad at wasanaethau i bobl ifanc awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd ac, fel y nodwyd uchod, adroddiadau HMIP wrth ystyried dyletswyddau sy'n gysylltiedig â sefydliadau diogel

Dadansoddi a thriongl data o wahanol ffynonellau

Defnyddiwyd dulliau gwahanol o ddadansoddi data o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, data a gasglwyd drwy:

[15] Roedd hyn yn cynnwys er enghraifft, dyletswyddau yn adran 1 o'r Cod, fel: 'sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu' a 'sicrhau bod unigolion awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalmwr ar gyfer gofalmwr' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 12) ac yn adran 3 o'r Cod, fel: 'gwneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd' (Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, t. 31).

[16] Y ddyletswydd yn adran 4, 'cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Rhannau 2 a 9, i sicrhau bod anghenion unigolion awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 36).

[17] Y ddyletswydd yn adran 4: 'sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer unigolion awtistig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel pawb arall'.

- defnyddiwyd trafodaethau gyda'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i wella ein dealltwriaeth o ofynion y Cod, i archwilio'r ffordd orau o asesu cydymffurfiaeth ac i drafod y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth. Nid oedd y data a gasglwyd yn y modd hwn wedi'u codio yn ffurfiol, ond cawsant eu syntheseiddio â data a gasglwyd drwy, er enghraifft, ein darlleniad ein hunain o'r Cod
- cynhyrchodd arolygon o arweinwyr ASD, arweinwyr datblygu'r gweithlu ALI a BILI, oedolion awtistig a rhieni a gofalcwyr unigolion awtistig, ddata meintiol ac ansoddol. Dadansoddwyd data meintiol drwy greu ystadegau disgrifiadol i ddisgrifio'r data ac i gynorthwyo cymharu rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr ac ar draws gwahanol arolygon. Cafodd data ansoddol, fel sylwadau a wnaed gan ymatebwyr, eu codio â llaw. Yna defnyddiwyd y codau i ddatblygu a nodi themâu yn yr ymatebion, a gafodd eu dehongli a'u hadrodd drwy ddefnyddio dyfyniadau darluniadol
- roedd yr adolygiad desg o ddogfennau yn cynnwys dadansoddi cynnwys (i nodi ystyr a bwriad testunau) ac yna echdynnu data ar elfennau arwyddocaol o'r testunau, fel amcanion polisi
- roedd data hunanwerthuso/asesu a ddarparwyd gan ymarferwyr yn cynnwys dadansoddi cynnwys (i nodi ystyr a bwriad testunau) ac yna echdynnu data ar elfennau o'r testunau, fel y gwahanol fathau o dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos eu hasesiad o gydymffurfiaeth â gwahanol ddyletswyddau

Ystyriwyd pob achos lle roedd data a ddarparwyd gan ymarferwyr yn anghyson â ffynonellau eraill fesul achos, er enghraifft, lle roedd ymarferwyr wedi nodi gwefannau fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth i'r cyhoedd ac, yn ein barn ni, roedd y wybodaeth ar y tudalennau gwe yn annigonol yn unol â'r meincnodau a ddatblygwyd yng nghanam 1, roedd hyn yn llywio'n uniongyrchol ein hasesiad ar gyfer cydymffurfio.

Fel y mae adrannau 3 i 7 yn amlinellu, yn aml nid oedd yr adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalcwyr plant a phobl ifanc awtistig yn gyson ag asesiad ymarferwyr, oherwydd efallai nad oedd y data hyn:

- yn uniongyrchol gymaradwy ag asesiadau'r ymarferydd oherwydd gallai, er enghraifft, ymwneud â phrofiadau a oedd yn rhagflaenu'r Cod ^[troednodyn 18]
- efallai nad oedd y data hyn yn cynrychioli profiadau pob rhiant a gofalwr awtistig mewn rhanbarth penodol

Yn unol â hynny, ni wnaethom eu defnyddio i newid yr asesiad o gydymffurfiaeth sydd, fel y nodwyd, yn seiliedig yn bennaf ar ddata a ddarparwyd gan ymarferwyr wedi'u triongli, lle bo hynny'n bosibl, â ffynonellau eraill. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yr adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalcwyr plant a phobl ifanc awtistig yn gyson, ac ychwanegwyd

[18] Er bod camau wedi'u cymryd i liniaru hyn, a gofynnwyd i oedolion awtistig a rhieni a gofalcwyr plant a phobl ifanc awtistig am eu profiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf (hynny yw, mewn cyfnod ar ôl i'r Cod gael ei gyflwyno) ymddengys mewn rhai achosion fod profiadau hanesyddol o wasanaethau (a allai fod wedi rhagflaenu'r Cod, neu welliannau mewn gwasanaethau) yn aml yn llunio eu barn.

nodyn o rybudd pan wnaethom ddarparu'r asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddarau i bob rhanbarth.

Asesu effaith debygol newidiadau mewn ymarfer

Defnyddiodd y gwerthusiad ddull sy'n seiliedig ar theori ar gyfer asesu effaith debygol newid mewn ymarfer, fel newidiadau mewn gwasanaethau ALI a BILI gan ystyried ffactorau fel:

- math, natur a graddfa'r newid mewn ymarfer
- dyheadau, profiadau ac anghenion gwahanol grwpiau (er enghraifft, oedolion awtistig, plant awtistig a'u rhieni neu ofalwyr)
- effaith debygol newidiadau mewn ymarfer ar ddyheadau, profiadau ac anghenion gwahanol grwpiau

Tynnwyd data i brofi ac archwilio'r ddamcaniaeth newid o nifer o ffynonellau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau, gan gynnwys:

- cyfweiliadau â rhanddeiliaid
- adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig (a drafodir ymhellach yn adran 8)
- adolygiad desg o ymchwil flaenorol, fel gwerthusiadau blaenorol o'r Strategaeth Awtistiaeth yng Nghymru ([Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)) a oedd yn archwilio dyheadau, profiadau ac anghenion unigolion awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru

Datblygu argymhellion ar gyfer Cam 2

Defnyddiodd yr astudiaeth y canfyddiadau ar ofynion y Cod, cydymffurfiaeth â'r Cod a'r rhesymau pam yr oedd ymarfer wedi newid neu heb newid, ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer da ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg ^[troednodyn19] o fewn ac ar draws y rhanbarthau, i ddatblygu argymhellion i wella cydymffurfiaeth â'r Cod.

Cryfderau a chyfyngiadau'r dull a'r fethodoleg

Mae'r asesiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn seiliedig, i raddau helaeth, ar ddata a ddarperir gan ymarferwyr. O ystyried eu gwybodaeth a'u cyfranogiad wrth ddatblygu a chyflwyno polisi ac ymarfer ALI a BILI a/neu BPRh, mewn sawl ffordd yr ymarferwyr a ddiweddarodd yr asesiad oedd y bobl sydd orau i farnu cydymffurfiaeth â'r Cod. Felly, dylid ystyried hyn yn un o gryfderau'r gwerthusiad.

Profodd hyd a chymhlethdod y Cod i fod yn rhwystr i asesu cydymffurfiaeth gan fod dehongliadau rhanddeiliaid o'r Cod weithiau'n wahanol. Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r

[19] Mae ymarfer da yn disgrifio ymarfer y dyfarnodd y tîm gwerthuso ei fod yn briodol ac yn effeithiol. Defnyddir ymarfer sy'n dod i'r amlwg i ddisgrifio ymarfer sy'n ymddangos ei fod yn briodol ac yn effeithiol ond lle nad oedd digon o ddata i wneud dyfarniad gyda lefel resymol o hyder.

risgiau hyn drwy ddatblygu amrywiaeth o offer a chymorth a gweithio'n agos gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol/Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Fel yr amlinellwyd uchod, croesawodd ymarferwyr y newidiadau a wnaed yng nghanam 2 y gwerthusiad i symleiddio'r broses. Yn ogystal, fel yr amlinellwyd drwy gydol adrannau 3 i 7, er bod cynnydd wedi'i wneud ers 2023, mae bylchau o hyd mewn rhai meysydd, yn fwyaf arbennig ymarfer mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac anabledau dysgu, lle nad oedd digon o wybodaeth i wneud dyfarniad cadarn ar gydymffurfiaeth.

Er bod yr asesiad yn seiliedig yn bennaf ar dderbyn dyfarniadau ymarferwyr o gydymffurfiaeth ac (yn bwysig) y data a ddarparwyd ganddynt i roi tystiolaeth o'u dyfarniadau, nid oedd y gwerthusiad yn derbyn dyfarniadau ymarferwyr o gydymffurfiaeth yn anfeirniadol. Cafodd eu barn ei phrofi a'i herio drwy, er enghraifft:

- cyfweiliadau a thystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil desg
- triongli ymatebion gan wahanol randdeiliaid (gan gynnwys ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd o wasanaethau ALI a BILI) a gwahanol ffynonellau
- dull trylwyr sy'n seiliedig ar theori o werthuso effaith debygol y Cod

Mae'n bwysig cofio bod y graddau y gallai'r tîm gwerthuso driongli data o wahanol ffynonellau i ddarparu mwy o hyder yng nghywirdeb asesiadau ymarferwyr yn wahanol, er enghraifft, fel y nodwyd:

- gallai'r tîm gwerthuso adolygu'n hawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar, er enghraifft, wefannau ALI a BILI, wrth ystyried gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau awtistiaeth ^[troednodyn 20]
- fodd bynnag, ni allent adolygu'n annibynnol yn hawdd yr hyfforddiant a ddarperir i staff o fewn gwasanaethau ^[troednodyn 21].

Roedd archwilio'r hyder a oedd gan bobl â phrofiad bywyd (hynny yw, oedolion awtistig a rhieni a gofawyr plant neu bobl ifanc awtistig) bod staff iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, yn deall awtistiaeth, yn darparu un ffordd o archwilio'r cwestiynau hyn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn berffaith, er enghraifft:

- mae hyfforddiant yn debygol o fod yn un o nifer o ffactorau sy'n llunio profiadau pobl o wasanaethau ac o ganlyniad eu hyder bod staff yn deall awtistiaeth. Felly, ni ellir ystyried eu barn yn fesur uniongyrchol o ddarparu hyfforddiant
- fel yr amlinellwyd uchod, ni allwn fod yn hyderus bod profiadau'r 442 o oedolion awtistig a/neu rieni a gofawyr plant neu bobl ifanc awtistig, a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn gwbl gynrychioladol

[20] Er enghraifft, y ddyletswydd i 'wneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 31).

[21] Er enghraifft, y ddyletswydd i 'sicrhau bod gan unrhyw un sy'n asesu anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad....' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 30).

Mae cysondeb ymatebion gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig ledled Cymru yn awgrymu na ddylid eu diystyru'n ysgafn fel profiadau annodweddiadol. Maent yn darparu nodyn pwysig o rybudd yn erbyn unrhyw hunanfodlonrwydd ar ran BPRh, ALI neu BILI. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd wrth ddatblygu a gwerthuso polisi i ddeall yn well sut mae polisi yn cael ei brofi yn ymarferol a pha effaith y mae'n ei chael ar fywydau pobl.

3. Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Adran 1, Dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag asesiad diagnostig

Cyflwyniad

Gall asesiad diagnostig fod yn bwysig i ymdeimlad person awtistig o'i hun a'i hunaniaeth; gall helpu i lywio'r dewis o ymyriadau i'w gynorthwyo a gwella mynediad at gymorth a gall helpu pobl i arddel eu hawl i addasiadau rhesymol (GIG, 2023). Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, nododd y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (ASD) ([Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)) welliannau o ran mynediad at asesiad diagnostig yn dilyn sefydlu'r gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ond gwnaeth hefyd amlygu'r bylchau galw-capasiti a oedd yn rhoi pwysau ar wasanaethau asesu diagnostig.

Mae Adran 1 y Cod yn cynnwys wyth dyletswydd sy'n cwmpasu asesiadau diagnostig, gan gynnwys:

- llwybrau i wasanaethau diagnostig (gan gynnwys ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel) a chymorth ôl-ddiagnostig ac asesiadau pellach
- sicrhau bod asesiadau diagnostig yn ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfranogiad amlddisgyblaethol
- cydymffurfio â'r targed amser aros cenedlaethol i blant ^[troednodyn22] ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#))

Gwasanaethau asesu diagnostig

Mae nifer o wahanol wasanaethau yn cynnal asesiadau diagnostig, gan amlaf:

- gwasanaethau NDd plant sy'n cynnig asesiadau diagnostig i blant (hyd at 18 oed)
- y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sy'n cynnig asesiadau diagnostig i oedolion nad ydynt yn gymwys i gael asesiad gan wasanaethau AD neu iechyd meddwl oedolion
- gwasanaethau AD ac iechyd meddwl oedolion (gyda chyflwr AD neu iechyd meddwl ^[troednodyn 23]).

Fel y mae Tabl 3.1. yn dangos, mae cydymffurfiaeth â'r Cod yn wahanol ar gyfer y mathau gwahanol hyn o wasanaethau asesu diagnostig. Fel yr amlinellir yn adran 2, mae'r asesiad

[22] Mae targed amser aros o 26 wythnos o'r atgyfeirio i'r apwyntiad cyntaf ar gyfer asesiadau diagnostig plant.

[23] Mae'r Model Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn nodi y bydd y gwasanaeth yn darparu asesu diagnostig ar gyfer y rhai 18 oed a throsodd nad ydynt yn gymwys i gael asesiad diagnostig gan wasanaethau anableddau dysgu neu iechyd meddwl yn sgil eithrio cymhwysra ([Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig: Dogfen Ganllaw Ategol](#)).

o gydymffurfiaeth yn cael ei raddio ar raddfa RAGG pedwar pwynt ^[troednodyn24], gan ddefnyddio'r codau lliw a ddangosir gan Ffigur 3.1. Ar gyfer pob dyletswydd, mae'r tablau yn cyflwyno:

- yr asesiad sylfaenol yn 2023
- yr asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddaru yn 2025

Ffigur 3.1. Allwedd i Dabl 3.1 i 3.7. Sgôr RAGG ar gyfer cydymffurfiaeth

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfio'n llawn â'r Cod)	Cydymffurfiaeth / cynnydd cymysg neu gyfyngedig hyd yma	Tystiolaeth glir o beidio â chydymffurfio	Dim tystiolaeth / tystiolaeth annigonol i werthuso cydymffurfiaeth	Amherthnasol
Cydymffurfio+	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Dd/B

Disgrifiad o Ffigur 3.1: Yr allwedd i dabl 3.1 i 3.5. Mae'n disgrifio sgôr RAGG ar gyfer meysydd cydymffurfiaeth. At ei gilydd, mae gan y raddfa gydymffurfiaeth lawn (cydymffurfiaeth +), cynnydd da (da), cynnydd cymysg neu gyfyngedig (cymysg/cyfyngedig), diffyg cydymffurfiaeth (heb gydymffurfio), tystiolaeth annigonol (anhysbys) ac amherthnasol (Dd/B).

Yn ogystal, lle bo hynny'n berthnasol, cyflwynir adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig, gan ddefnyddio graddfa RAG tri phwynt a ddangosir gan ffigur 3.2.

[24] Mae'r meincnodau a ddefnyddir i farnu cydymffurfiaeth yn eu herbyn wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

Ffigur 3.2. Allwedd i sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig.

Cynnydd da: 67 y cant neu fwy	Cynnydd cymysg neu gyfyngedig: 34 i 66 y cant	Ddim yn cydymffurfio: 33 y cant neu lai
Da	Cymysg/Cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio
...o oedolion awtistig a/neu rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig yn rhoi ymateb cadarnhaol (er enghraifft, 'hawdd iawn, eithaf hawdd', 'hyderus iawn', 'rhywfaint yn hyderus') ac eithrio ymatebion ddim yn gwybod NEU yn rhoi ymateb negyddol, fel 'ddim yn hyderus o gwbl'.		

Disgrifiad o Ffigur 3.2: Mae'n disgrifio sgôr RAG adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig. Mae gwyrdd yn disgrifio cynnydd da gyda 67 y cant neu fwy (da), mae oren yn gynnydd cymysg neu gyfyngedig gyda 34 i 66 y cant (cymysg/cyfyngedig), ac mae coch yn golygu nad yw'n cydymffurfio gyda 33 y cant neu lai (ddim yn cydymffurfio).

Tabl 3.1.1. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (cyfranogiad amlddisgyblaethol)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: Ddarparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
NDd 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IAS 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Da	Da	Da
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IMO 2023	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
IMO 2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
AD 2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
AD 2025	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys

Tabl 3.1.2. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (mewn sefydliadau diogel)

Dyletswydd: Rhaid i BILI sicrhau bod gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw yn y sefydliad diogel.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Dd/B	Cymysg/cyfyngedig [Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc]	Ddim yn hysbys [Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed]	Dd/B	Dd/B	Ddim yn hysbys [LASCH Hillside]	Dd/B
Plant 2025	Dd/B	[Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc]	Ddim yn hysbys [Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed]	Dd/B	Dd/B	Ddim yn hysbys [LASCH Hillside]	Dd/B
Oedolion 2023	Ddim yn hysbys [Caerdydd]	Cymysg/cyfyngedig [Parc]	Ddim yn hysbys [Brynbuga]	Ddim yn hysbys [Berwyn]	Dd/B	Ddim yn hysbys [Abertawe]	Dd/B
Oedolion 2025	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da [Berwyn]	Dd/B	Ddim yn hysbys	Dd/B

	[Caerdydd]	[Parc]	[Brynbuga]			[Abertawe]	
--	------------	--------	------------	--	--	------------	--

Tabl 3.1.3. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael gwybod am lwybrau atgyfeirio asesu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Da	Ddim yn hysbys	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
NDd 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
IAS 2023	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IMO/AD 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
IMO/AD 2025	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
Profiad Bywyd [troednodyn 25]	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig

[25] Yn seiliedig ar ymatebion gan oedolion awtistig a rhieni a gofalmwyr plant a phobl ifanc awtistig i'r cwestiwn: 'Pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?' yn ateb 'ddim o gwbl'.

Tabl 3.1.4 Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)

Dyletswydd: Rhaid i ALI gyda BILL: ddynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Da	Da	Ddim yn hysbys	Da
NDd 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Ddim yn hysbys	Da
IAS 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IMO 2023	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
IMO 2025	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
AD 2023	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
AD 2025	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys

Tabl 3.1.5. Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: gydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol ar gyfer asesu a diagnosis.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio
NDd 2025	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

Tabl 3.1.6 Adran 1 y Cod: Mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data)

Dyletswydd: Rhaid i BILL: sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu plant, pobl ifanc ac oedolion yn cydymffurfio â'r safonau amser aros cenedlaethol presennol ar gyfer asesu a diagnosis.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
NDd 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IAS 2023	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da

Tabl 3.1.7 Adran 1 y Cod: Mynediad at gymorth asesu ôl-ddiagnostig

Dyletswydd: Rhaid i BILL: Pan wneir diagnosis o awtistiaeth, gwneud atgyfeiriad prydlon at asesiadau cymorth ôl-ddiagnosis, lle bo hynny'n briodol, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos y rhan fwyaf o blant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr) NEU

pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, atgyfeirio'r unigolyn gyfer archwiliad pellach, os yw'r asesiad yn dangos bod angen gwneud hynny, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos plant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd 2023	Da	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
NDd 2025	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Da
IAS 2023	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
IAS 2025	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Da
IMO/AD 2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
IMO/AD 2025	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig

Mynediad i wasanaethau: Llwybrau atgyfeirio

Fel y mae Tabl 3.3. yn dangos, prin fu'r newid ers 2023 ac ar draws y saith rhanbarth mae ymwybyddiaeth o asesiad diagnostig a llwybrau atgyfeirio yn wahanol ar gyfer gwahanol wasanaethau:

- sefydlwyd llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol plant yn 2015. Er bod y lefel uchel iawn o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau yn nodi bod pobl yn cael mynediad atynt, mewn nifer o ranbarthau nodir y gall llwybrau i gael mynediad at wasanaethau NDd plant deimlo braidd yn aneglur a/neu yn gymhleth i rieni a gofalwyr eu deall. Er enghraifft:
 - gall fod llwybrau gwahanol ar gyfer plant cyn oed ysgol a phlant oed ysgol
 - er mwyn helpu i gryfhau sgrinio, gall y wybodaeth sydd ei hangen gan atgyfeirwyr fod yn helaeth, a gall fod yn ofynnol gan sawl atgyfeiriwr gwahanol
 - yn ddiweddar, mae nifer o ranbarthau wedi adolygu neu yn y broses o adolygu a diwygio llwybrau a gwaith papur
 - o ganlyniad, roedd rhanddeiliaid weithiau'n codi pryderon am anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau NDd
- cafodd llwybr cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ei sefydlu yn 2017 ac mae llwybrau i Wasanaethau Awtistiaeth Integredig unigol yn glir ar y cyfan ac yn cael cyhoeddusrwydd da ar wefannau BILI
- nid yw llwybrau i wasanaethau diagnostig eraill, fel gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac AD yn cael cyhoeddusrwydd ac maent yn llwybrau mewnol o fewn gwasanaethau, oherwydd yn gyffredinol dim ond oedolion sydd eisoes yn cael mynediad at y gwasanaethau eilaidd hyn fyddai'n eu dilyn. Mae dealltwriaeth o sut y mae'r llwybrau hyn yn gweithredu yn gyffredinol yn gyfyngedig ymhlith yr ymarferwyr sy'n ymwneud ag asesu cydymffurfiaeth

Er bod enghreifftiau fel Hywel Dda lle mae'r gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn rhan o'r un gyfarwyddiaeth, yn y rhan fwyaf o achosion maent ar wahân, ac mae goruchwyllo'r gwasanaethau ar wahân hefyd. Felly, fel y mae Tabl 3.3 yn dangos, er bod clinigwyr unigol yn aml wedi'u nodi fel rhai sy'n gyfrifol am adolygu llwybrau ar gyfer eu gwasanaeth, nid oedd yn bosibl nodi unigolyn a enwir ar gyfer pob gwasanaeth na nodi bob amser pryd a sut roedd llwybrau wedi'u hadolygu, neu eu hyrwyddo, ac ni roddwyd unrhyw enghreifftiau o un unigolyn â chyfrifoldeb am oruchwyllo pob llwybr ar gyfer rhoi diagnosis o awtistiaeth (gan gynnwys llwybrau gwasanaeth NDd plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, Iechyd Meddwl ac AD).

Gwasanaethau asesu diagnostig: Gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Fel y mae Tablau 3.1 i 3.7 yn dangos, prin fu'r newid ers 2023 mewn perthynas â gwasanaethau NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac, ar gyfer y rhan fwyaf o ddyletswyddau yn y Cod, mae rhanbarthau'n cydymffurfio. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad yn y gwasanaethau hyn ers 2015, sefydlu llwybrau cenedlaethol ac, yn achos y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, model cenedlaethol ac mae'n golygu, i bob pwrpas, bod y Cod wedi codio'r arfer presennol. Fodd bynnag:

- mae'r holl ranbarthau wedi cael trafferth cyflawni'r targed amser aros i blant, o ystyried y diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a'r capasiti (gweler er enghraifft, yr [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#)); gall y diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a'r capasiti ac, mewn rhai ranbarthau, anawsterau recriwtio a chadw staff, sy'n golygu bod gwasanaethau o dan bwysau sylweddol (yr [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#)) a allai fygwth cynaliadwyedd timau a gwasanaethau a chydymffurfio parhaus â'r Cod
- mae pwysau ar wasanaethau wedi cyfyngu ar gapasiti gwasanaethau, ac yn enwedig gwasanaethau NDd plant, i ddarparu cymorth cyn ac ar ôl asesu

Enghreifftiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

Mae'r modelau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn seiliedig ar ganllawiau NICE sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer cyfranogiad amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, gall yr anawsterau y mae rhai gwasanaethau yn eu hwynebu wrth recriwtio a/neu gadw staff a lefelau uchel o alw ei gwneud yn anodd cynnal y lefelau o gyfranogiad amlddisgyblaethol mewn asesiadau diagnostig a argymhellir gan NICE. Yn gyffredinol, nid oes atebion hawdd i'r heriau hyn, ond mae canfyddiadau ac argymhellion yr [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#) (Llywodraeth Cymru, 2022) a'r adolygiad diweddar o wasanaethau NDd a gynhaliwyd gan Uned Gyflawni'r GIG a Chynllun Cyflym Gwelliannau i amseroedd aros asesu a diagnostig y GIG ar gyfer Cymru, i gyd yn bwysig yma.

O ran cyfeirio, ceir enghreifftiau da o sut y gellir darparu gwybodaeth am 'beth i'w ddisgwyl' ar wefannau fel tudalen we [Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig BIPCTM](#) ac mae tudalen we gwasanaeth NDd plant Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i hadolygu ac ar gael drwy [dudalen rhyngwryd y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol](#) (a hefyd ar [wefan Cyngor Sir Powys](#)). Mae'r dudalen we yn cynnwys gwybodaeth am y broses atgyfeirio ac asesu diagnostig a bydd yn destun adolygiad a dylunio pellach gan fforwm Cydgynhyrchu Rhieni neu Ofalwyr NDd Powys.

Er bod pwysau o ran galw a chapasiti yn parhau i herio gwasanaethau, mae'n bwysig nodi bod ansawdd casglu data yn gwella ac mae hyn, ynghyd â newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau NDd plant yn gweithredu, yn golygu bod cynnydd wedi'i wneud o ran lleihau amseroedd aros. Disgwylir cynnydd pellach, wedi'i gynorthwyo gan fuddsoddiad pellach o £3m, a gyhoeddwyd mewn [datganiad ysgrifenedig ar leihau amseroedd aros hir y GIG](#) ym

mis Tachwedd 2024, er mwyn lleihau'r amseroedd aros hiraf ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant ledled Cymru a chefnogi'r gwaith ehangach y mae Gweithrediaeth y GIG a'r BILI yn ei wneud i drawsnewid gwasanaethau.

Gwasanaethau AD ac Iechyd Meddwl Oedolion

Fel y mae'r tablau yn yr adran hon yn dangos, mewn perthynas â gwasanaethau eraill sy'n cynnal asesiadau diagnostig, fel gwasanaethau AD ac Iechyd Meddwl Oedolion, mae llawer llai o hyder bod rhanbarthau'n cydymffurfio â'r Cod. Yn wahanol i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac (i raddau llai) gwasanaethau NDd plant, nid yw'r gwasanaethau hyn wedi cael budd o'r un lefel o sylw cenedlaethol, datblygu llwybrau a modelau cenedlaethol a buddsoddiad pwrpasol. Yn hanesyddol, bu mwy o arbenigedd a phrofiad o asesiad diagnostig ar gyfer awtistiaeth mewn gwasanaethau AD o gymharu â gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ([Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: Adroddiad Terfynol](#)). Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth bod ymarfer yn y gwasanaethau hyn wedi bod yn destun craffu gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol, sydd yn lle hynny wedi canolbwyntio ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a gwasanaethau NDd plant. Mae'r darlun mewn perthynas â gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yn fwy cymhleth. Gwnaed ymdrechion drwy Rwydwaith Diagnostig Cymru Gyfan i adeiladu capasiti mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (yn ogystal â gwasanaethau AD) ([Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: Adroddiad Terfynol](#)). Fodd bynnag, o 2016, yn dilyn y diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth, symudodd y sylw a'r cyllid o'r Rhwydwaith i sefydlu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Yn wir, mae rhywfaint o awgrym o wanhau gwasanaethau Iechyd meddwl oedolion mewn un rhanbarth, wrth i sylw a chlinigwyr symud i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Dylai'r Cod gynyddu craffu rhanbarthol ar ymarfer yn y gwasanaethau hyn, ac, mewn rhai achosion, mae hyn yn digwydd gan arwain at israddio'r asesiad o gydymffurfiaeth, sy'n bwysig ac yn darparu'r sylfeini ar gyfer gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth, ar y cam hwn, bod y Cod wedi arwain at newidiadau o ran ymarfer mewn gwasanaethau AD ac IMO.

Mynediad at asesiad diagnostig mewn sefydliadau diogel

Ym mis Ebrill 2006, daeth BILI yn gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yn eu hardal. Felly, ar gyfer plant ac oedolion, y BILI lle mae'r sefydliad diogel wedi'i leoli sy'n gyfrifol am ddarparu mynediad at asesiadau diagnostig. Yng Nghymru mae:

- dau sefydliad i droseddwyr ifanc; CEF y Parc ^[troednodyn 26] ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd ag uned ar gyfer pobl ifanc 15 i 17 oed a CEF Prescoed, sef carchar agored i ddynion a sefydliad troseddwyr ifanc yn Sir Fynwy, a Chartref Plant Diogel Hillside yng Nghastell-

[26] Trosglwyddodd y cyfrifoldeb am wasanaethau gofal iechyd eilaidd a thrydyddol yng ngharchar y Parc i BIP Cwm Taf Morgannwg yn dilyn newid i ffin ar 1 Ebrill 2019 ac ad-drefnu BIP Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg.

nedd, felly mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Aneurin Bevan Phrifysgol Bae Abertawe

- pum carchar sy'n lletya oedolion yng Nghymru: CEF Caerdydd, CEF y Parc, CEF Abertawe, CEF Brynbuga a Phrescoed a CEF Berwyn, felly BIP Caerdydd a'r Fro, BIP Bae Abertawe, BIP Aneurin Bevan a BIP Betsi Cadwaladr sy'n gyfrifol am oedolion

Mae diffyg craffu o hyd gan grwpiau strategol rhanbarthol o wasanaethau ar gyfer mynediad at asesiad diagnostig i'r rhai mewn sefydliadau diogel ac, fel y nodwyd yn adran 2, roedd llawer o'r asesiad yn seiliedig ar adolygiad desg o adroddiadau HMIP yn hytrach na gwybodaeth a ddarparwyd gan ymarferwyr. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder gan y tybir yn eang bod yr achosion o awtistiaeth yn sylweddol uwch yn y system cyfiawnder troseddol nag yn y boblogaeth gyffredinol ([Neurodiversity In The Criminal Justice System: A review of evidence](#)).

Casglu data

Mae gofynion casglu data yn wahanol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn ddarostyngedig i'r casgliad data mwyaf cynhwysfawr, gyda data'n cael eu casglu gan Data Cymru ar gyfer y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth NDd plant gasglu data ar y targed amser aros cenedlaethol i blant ond nid oes casglu data cenedlaethol arall ^[troednodyn 27]. Fel y mae Tabl 3.4 yn amlinellu, ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch casglu'r data hyn yn 2023, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir yn 2025.

Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw ddyletswyddau penodol (yn y Cod) sy'n cwmpasu casglu data gan wasanaethau AD ac Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r diffyg data ar y gwasanaethau hyn yn gyfyngiad o ran deall eu perfformiad. At hynny, fel yr amlinellwyd uchod, mae grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol wedi tueddu i ganolbwyntio ar y gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sy'n golygu nad yw ymarfer mewn gwasanaethau AD ac Iechyd Meddwl Oedolion wedi bod yn destun yr un lefel o graffu a goruchwyllo. Un o effeithiau'r Cod fu dechrau tynnu sylw at lwybrau i'r gwasanaethau hyn, a'r ymarfer ynddynt.

[27] Yn absenoldeb set ddata genedlaethol fwy cynhwysfawr, mae Uned Gyflawni'r GIG wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau NDd plant i wella'r broses o gasglu data ar alw a chapasiti.

4. Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer: Adrannau 1 a 2, dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol

Cyflwyniad

Efallai y bydd gan unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalmwr anghenion ieched a/neu ofal a chymorth ac felly mae'n bwysig eu bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth gan gynnwys asesiadau gofal cymdeithasol. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, nododd y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ASD ([Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)) broblemau o ran mynediad at ofal cymdeithasol ac mae adrannau 1 a 2 o'r Cod yn cynnwys chwe dyletswydd sy'n cwmpasu gwybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol, gan gynnwys y dylai ALLau a/neu fyrdau ieched sicrhau:

- bod 'gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu'
- 'unigolion awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalmwr ar gyfer gofalmwr'
- 'bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), tt. 12 i 33, 22 i 23)

Fel yn adran 3, mae'r asesiad o gydymffurfiaeth yn cael ei raddio ar raddfa RAGG pedwar pwynt ^[troednodyn 28], gan ddefnyddio'r codau lliw a ddangosir gan ffigurau 3.1 a 3.2; ar gyfer pob dyletswydd, mae'r tablau yn cyflwyno:

- yr asesiad sylfaenol yn 2023
- yr asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddarau yn 2025
- lle y bo'n berthnasol, adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig

[28] Mae'r meincnodau a ddefnyddir i farnu gydymffurfiaeth yn eu herbyn wedi'u cynnwys yn atodiad A.

Tabl 4.1.1. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (gwybodaeth a chyfeirio)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 4.1.2. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i asesiad)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: sicrhau bod unigolion awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr ar gyfer gofalwr. Dylai'r broses o gael gafael ar y rhain gyd-fynd â'r diagnosis.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio
Plant 2025	Cydymffurfio +	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Oedolion 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio
Oedolion 2025	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 4.1.3. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i ymatebion arolwg asesu)

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Profiad Bywyd: hawliau plant [troednodyn 29]	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Profiad Bywyd: hawliau oedolion [troednodyn 30]	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn cydymffurfio
Profiad Bywyd: hawliau gofalwyr [troednodyn 31]	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig

[29] Yn seiliedig ar gyfran y rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'a ydych yn gwybod os oes angen help neu gymorth ar eich plentyn/plant gan wasanaethau cymdeithasol, mae gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?' a atebodd 'ydw'.

[30] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig pan ofynnwyd iddynt 'a ydych yn gwybod os oes angen help neu gymorth arnoch gan wasanaethau cymdeithasol, mae gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?' a atebodd 'ydw'.

[31] Yn seiliedig ar gyfran y rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'a ydych yn gwybod os oes angen help neu gymorth arnoch gan wasanaethau cymdeithasol, fel gofalwr mae gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?' a atebodd 'ydw'.

Tabl 4.1.4. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (rhannu gwybodaeth yn brydlon)

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILI: sicrhau pan gynhelir asesiad o awtistiaeth a gwneir / na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol:

Rhaid i ALI a BILI: sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am anghenion plant ac oedolion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth os nodwyd y gellid bod angen cymorth ychwanegol.

Rhaid i ALI a BILI: sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am blant ac oedolion nad ydynt wedi cael diagnosis o awtistiaeth ond y nodwyd ei bod yn angenrheidiol gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad pellach.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Da
Plant 2025	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Da
IAS 2023	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
IMO/AD 2023	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
IMO/AD 2025	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys

Tabl 4.2. Adran 1. Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol (sefydliadau diogel)

Dyletswydd: rhaid i ALLau gyda BILI ac Ymddiriedolaethau'r GIG: sicrhau bod llwybrau o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
Plant 2025	Ddim yn hysbys	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
Oedolion 2023	Ddim yn hysbys [Caerdydd]	Ddim yn hysbys [Parc]	Da [Brynbuga]	Ddim yn hysbys [Berwyn]	Dd/B	Ddim yn hysbys [Abertawe]	Dd/B
Oedolion 2025	Da [Caerdydd]	Da [Parc]	Da [Brynbuga]	Da [Berwyn]	Dd/B	Ddim yn hysbys [Abertawe]	Dd/B

Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol [troednodyn 32]

Mae cyfeirio i asesiad gofal cymdeithasol drwy wasanaethau GCCh ac, fel y mae Tabl 4.1 yn dangos, gwybodaeth am sut i gael mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol drwy wasanaethau GCCh yn cael cyhoedduswydd da ar y cyfan ar wefannau ALI. Mae cyflwyno 'drysau blaen' unigol i wasanaethau plant ac oedolion wedi symleiddio llwybrau ac adroddwyd yn eang bod ymarferwyr yn, er enghraifft, y gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu gwybodaeth a chyfeirio pobl i wasanaethau asesu, lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r camau a gymerwyd i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio unigolion awtistig i'r gwasanaeth yn cael eu hadrodd (heblaw am roi cyhoedduswydd i hyn ar wefannau ALI). Mae'n debygol y bydd cysylltu hyn â gwaith codi ymwybyddiaeth ehangach yr ALI a BILI a hyfforddiant i staff ar sut i atgyfeirio pobl i wasanaethau GCCh yn bwysig.

At hynny, er bod cynnydd wedi'i wneud, mewn rhai meysydd, yn enwedig mewn perthynas â phlant, nododd y tîm gwerthuso bryderon y gallai rhieni a gofalwyr plant awtistig gael eu digalonni rhag ceisio asesiad ar gyfer plant, o ystyried cysylltiad 'asesiadau' ag 'amddiffyn plant' ar dudalennau gwe ALI. Mae hyn yn adlewyrchu'r stigma a/neu'r ofn sy'n gallu bod yn gysylltiedig â cheisio cymorth gan wasanaethau cymdeithasol; stigma, gan y gall rhieni a gofalwyr deimlo eu bod rywsut wedi 'methu' ac ofn am gynnwys gwasanaethau cymdeithasol yn eu bywydau teuluol. Cafodd y pryderon hyn, yn enwedig diffyg ymddiriedaeth o wasanaethau cymdeithasol, neu deimlad eu bod yn cael eu beio, eu hadlewyrchu mewn nifer fach o'r sylwadau a wnaed gan rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig (a drafodir yn adran 8). Serch hynny, mae'n bosibl gorbwysleisio'r diffyg ymddiriedaeth mewn gofal cymdeithasol; er enghraifft, yn 2023, nododd Arolwg Canfyddiadau'r Cyhoedd fod 72% o bobl yn dweud bod ganddynt hyder mewn pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ([Gofal Cymdeithasol Cymru, 2023](#)) [troednodyn 33].

Yn ogystal, fel y mae Tabl 4.1 yn dangos, ym marn y tîm gwerthuso, nid oes unrhyw ranbarth yn sicrhau'n gyson bod yr holl unigolion awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael mynediad at asesiad o anghenion a bod yr holl ofalwyr yn ymwybodol o'u hawl i asesiad gofalwr [troednodyn 34]. Yn anaml iawn y cyhoeddir y wybodaeth hon ar wefannau ALI ac mae rhanddeiliaid yn nodi pryderon y byddai rhoi cyhoedduswydd i'r hawl yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol, ond roedd yn annhebygol o olygu y byddai mwy o bobl yn cael eu nodi fel rhai sydd ag 'anghenion cymwys' [troednodyn 35]; er enghraifft, mae rhanddeiliaid o wasanaethau iechyd fel arfer yn nodi eu bod yn atgyfeirio i ofal cymdeithasol pan fyddant o'r farn ei fod yn 'briodol', sef fel arfer pan fyddant yn teimlo ei bod yn debygol

[32] Mae'r term 'asesiad' yn cael ei ddefnyddio yn y Cod i ddisgrifio asesiadau diagnostig a gofal cymdeithasol, ac mae hyn wedi achosi rhywfaint o ddryswch.

[33] Mae hyn yn seiliedig ar arolwg heb ei gyhoeddi o 1000 o bobl a drafodwyd yn adroddiad [Gwerthfawrogi Gwaith Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#).

[34] Fel yr amlinellir yng [Nghanolllawiau DGCLI \(Llywodraeth Cymru, 2019\)](#): 'mae gan unrhyw unigolyn neu deulu sydd angen gofal a chymorth yr hawl i asesiad ar sail yr angen hwnnw'.

[35] Mae 'gan yr unigolyn angen cymwys am ofal a chymorth os yw asesiad yn sefydlu mai dim ond os bydd gan awdurdod lleol gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, a sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi, y gall unigolion oresgyn rhwystrau a chyflawni eu canlyniadau personol' ([Asesu a Diwallu Anghenion Unigolion](#), t.1).

bod gan yr unigolyn anghenion cymwys. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi hyd yn oed os nad yw'r asesiad yn nodi bod gan unigolyn anghenion cymwys, gall arwain at gyfeirio i wasanaethau ataliol a llesiant (gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector) i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Yn fwy sylfaenol, fel y mae'r adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalmwyr plant a phobl ifanc awtistig (a drafodir yn adran 8) yn dangos, hyd yn oed pan oedd pobl yn ymwybodol o'u hawliau, prin oedd yr hyder y gallent naill ai gael mynediad at asesiad neu y byddai asesiad yn helpu; gall hyn adlewyrchu:

- canfyddiadau cyhoeddus o'r hyn mae 'asesiad' yn ei olygu (oherwydd gallent gael eu 'hasesu', o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ond heb deimlo ei fod yn asesiad 'llawn')
- y teimlad mai unig ganlyniad asesiad sydd o werth yw cael anghenion cymwys wedi'u nodi. Er bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhagweld y gellir diwallu anghenion mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys, er enghraifft, cyfeirio i wasanaethau eraill

Felly, gall ALLau fod yn cydymffurfio â'r Cod, ond nid yw hyn o reidrwydd yr hyn y mae pobl ei eisiau.

Yn olaf, mewn perthynas â phlant, gall datblygu un pwynt mynediad ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, fel y panel SPACE-WB, sy'n cael ei ystyried yn arfer da ([Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#)), olygu nad yw atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r gwasanaethau cymdeithasol, fel y mae'r Cod yn awgrymu y dylent fod yn ei wneud, ond yn hytrach maent yn mynd drwy baneli, a all wneud atgyfeiriad pellach i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i gymorth arall a allai helpu i ddiwallu anghenion. Mae hyn yn gyson ag ysbryd y Cod er, gellir dadlau, nad yw'n gyson â llythyren (neu destun) y Cod ^[troednodyn 36]. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai arfer o'r fath yn cydymffurfio â'r Cod, er gwaethaf geiriad y Cod.

Mae'r sgiliau sydd eu hangen ar staff i gynnal asesiad gofal cymdeithasol yn cael eu hystyried yn adran 6.

[36] Er enghraifft, mae'r Cod yn nodi 'pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t.12).

Enghreiffiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

Efallai na fydd unigolion awtistig a/neu eu rhieni neu ofalwyr, sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn sylweddoli y gallant gael mynediad at help a chymorth. Mae strategaethau i gynyddu ymwybyddiaeth o gymorth, a manteisio arno yn cynnwys:

- darparu gwybodaeth yn awtomatig yn hytrach na dibynnu ar ddisgresiwn neu farn gweithwyr proffesiynol ynghylch p'un a ddylid rhannu gwybodaeth a phryd; er enghraifft, yng Nghaerdydd a'r Fro, mae gwybodaeth am hawl unigolyn i asesiad gofal cymdeithasol yn cael ei rhannu yng ngohebiaeth adborth ôl-ddiagnostig y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (y mae pawb yn ei chael)
- estyn allan yn rhagweithiol at unigolion awtistig a/neu eu rhieni neu eu gofalwyr gan ddefnyddio dulliau ar-lein ac wyneb yn wyneb; er enghraifft, yng Nghaerdydd, pan fydd pobl yn cofrestru ar gyfer [Y Mynegai](#), sef cofrestr wirfoddol ar gyfer phlant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol, mae'r neges e-bost croeso yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau rhieni/gofalwyr a sut i gael mynediad atynt; ac yn Nhorfaen, mae'r Swyddog Cymorth Awtistiaeth yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr plant awtistig ac yn rhannu gwybodaeth am fynediad at asesiadau gofal cymdeithasol, pan maent yn siarad â theuluoedd a gall weithredu fel cyswllt rhwng teuluoedd a gwasanaethau
- helpu unigolion awtistig a/neu rhieni neu ofalwyr i ddeall neu nodi y gallent fod yn gymwys i gael help a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol a'i gwneud mor hawdd â phosibl cael mynediad at asesiadau, er enghraifft mae gwefan [Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(CBS RhCT\)](#) yn rhoi enghreifftiau o'r rhesymau pam y gallai fod angen help a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar rywun
- 'prif ffrydio' awtistiaeth mewn cynigion lleol; er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Bartneriaeth Rhieni yn darparu sesiynau galw heibio ADY i Rieni neu Ofalwyr. Mae'r rhain yn darparu'r cyfle i rieni drafod pryderon gyda Swyddogion Cyswllt Teuluol. Yn Sir Gaerfyrddin darperir gwybodaeth am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar [wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin](#) a cheir tudalen we [Anabledd ac Awtistiaeth](#) sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol mewn un lle i blant a phobl ifanc ag ADY ac anableddau a'u teuluoedd. Mae gwefan Cysylltu Sir Gâr wedi'i sefydlu hefyd (gyda [thudalen Awtistiaeth](#)) sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a chyfleoedd i oedolion
- sicrhau bod gan staff fynediad at wybodaeth gyfredol a dibynadwy, er enghraifft, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfeiriadur o wasanaethau awtistiaeth sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac mae gan yr holl staff eicon ar eu cyfeiriadur er mwyn cael mynediad ato. Gall gwasanaethau plant, pobl ifanc ac oedolion ei anfon at unigolion awtistig ac at rieni a gofalwyr ac at bartneriaid y trydydd sector. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio ar ymgorffori GCCh awtistiaeth yn yr holl GCCh cyffredinol, sy'n haeddu ymchwil bellach fel enghraifft bosibl o arfer da

Rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau diagnostig a gofal cymdeithasol

Fel y mae Tabl 4.1 yn dangos, mae darlun tameidiog o hyd yn 2025 mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Fel yr amlinellwyd uchod, mae amharoddrwydd i atgyfeirio, neu annog oedolion neu rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig i hunanatgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol, oni bai bod gwasanaethau asesu diagnostig o'r farn eu bod yn debygol o fod ag anghenion cymwys. Fodd bynnag, lle teimlir y gallai unigolyn fod ag anghenion cymwys, nodir bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Nodwyd hefyd, yn aml pan fydd plentyn yn cael ei atgyfeirio i gael asesiad diagnostig, mae'r plentyn a'r teulu eisoes yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol, fel Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer yn parhau i gynorthwyo'r teulu ar ôl yr asesiad diagnostig. Fodd bynnag, nodwyd bod oedolion sy'n cael mynediad at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig er mwyn cael asesiad diagnostig yn llai tebygol o fod yn cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion (ac felly nad ydynt eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau hyn).

Mynediad at asesiad gofal cymdeithasol mewn sefydliadau diogel

Fel y mae Tabl 4.2 yn dangos, mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg yn 2025 mewn perthynas â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol mewn sefydliadau diogel, ar yr wyneb, yn gadarnhaol ac ymddengys fod cynnydd yn cael ei wneud ^[troednodyn 37]. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn adran 2, mae llawer o hyn yn seiliedig ar adolygiad desg o adroddiadau HMIP (a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso) ac mae dealltwriaeth dameidiog o drefniadau mewn grwpiau strategol rhanbarthol. At hynny, yn enwedig mewn perthynas â phlant lle mae eu ALI cartref yng Nghymru yn gyfrifol am anghenion gofal a chymorth plentyn yng Nghymru, mae'n anodd iawn asesu sut y mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni. Mae hyn oherwydd ymddengys fod gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn sefydliadau diogel yn cael eu darparu gan yr ALI lle mae'r sefydliad diogel wedi'i leoli (felly, er enghraifft, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gofal cymdeithasol i'r rhai sy'n gymwys yn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc).

[37] Mae ALI yn gyfrifol am anghenion gofal a chymorth plentyn yng Nghymru a oedd yn preswyllo yn yr ALI cyn mynd i'r sefydliad diogel, ond mae'r ALI lle mae'r sefydliad diogel wedi'i leoli yn gyfrifol am anghenion gofal a chymorth oedolyn yn y sefydliad diogel (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017).

Tabl 4.3.1 Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (mae ymarferwyr a gwasanaethau yn ymwybodol o wasanaethau awtistiaeth ac mae ganddynt lwybrau atgyfeirio clir)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod ymarferwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir A

gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
Plant 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da
Oedolion 2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Oedolion 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da
Profiad Bywyd	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[troednodyn 38]							
-----------------	--	--	--	--	--	--	--

Tabl 4.3.2. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (Mae staff iechyd ac awdurdod lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)

Dyletswydd: Dylai ALLau gyda BILL: sicrhau bod staff iechyd ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a sut i gyfeirio unigolion awtistig at y gwasanaeth.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig		Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
2025	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da
Profiad Bywyd [troednodyn 39]	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig

[38] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a rhianta yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?' a atebodd 'ddim o gwbl'.

[39] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at wasanaethau cyngor neu gymorth awtistiaeth, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?' a atebodd ei bod yn 'eithaf' anodd neu'n 'anodd iawn' gwneud hynny.

Tabl 4.3.3. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (Gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: Sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth AC

Fel rhan o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn darparu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Cydymffurfio +	Da	Da	Da	Da	Da	Da
2025	Cydymffurfio +	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Da	Da	Da

Tabl 4.3.4. Adran 2. Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd)

Dyletswydd: Dylai ALLau gyda BILI: wneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Plant 2025	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da
Oedolion 2023	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Oedolion 2025	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da

Tabl 4.4. Addasiadau rhesymol

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILI: sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer unigolion awtistig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel pawb arall.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
Profiad Bywyd [troednodyn 40] BILI	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio
Profiad Bywyd [troednodyn 41] ALI	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig

[40] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd?' a atebodd 'ddim yn hyderus o gwbl'.

[41] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a rhianta yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol?' a atebodd 'ddim yn hyderus o gwbl'.

Gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth

Fel y mae Tabl 4.3 yn dangos, mae darlun cymysg o hyd mewn perthynas â darparu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth, gyda chynnydd mewn rhai meysydd, ond atchweliad mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod:

- llawer mwy o arfer da wedi'i nodi yn 2025 nag yn 2023 gyda, er enghraifft, datblygu tudalennau gwe newydd mewn llawer o feysydd
- oherwydd nad oedd y cynnydd bob amser yn gyson ar draws y rhanbarth gyda, er enghraifft, gwahaniaethau mewn ALLau gwahanol, nid oedd yr asesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y rhanbarth o reidrwydd yn newid
- nid oedd yr enghreifftiau lle roedd yn ymddangos bod meysydd wedi llithro'n ôl oherwydd bod y ddarpariaeth gwybodaeth wedi dirywio ers 2023 ond yn hytrach oherwydd bod mwy o wybodaeth ar gael yn 2025, ac felly roedd yn bosibl gwneud asesiad mwy cynhwysfawr a gwybodus o gydymffurfiaeth
- yn gyffredinol, roedd y dyletswyddau mewn perthynas â gwasanaethau awtistiaeth heblaw am wasanaethau asesiad diagnostig ^[troednodyn 42] a drafodwyd yn adran 3, yn canolbwyntio ar wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth, yn hytrach na darparu'r gwasanaethau hyn
- mae hyn yn golygu (braidd yn wrthnysig) bod cael llai o wasanaethau yn debygol o wneud cydymffurfiaeth yn haws (gan fod llai o wasanaethau y mae angen iddynt wybod amdanynt a darparu gwybodaeth amdanynt)

[42] Dyma'r ddyletswydd i 'ddarparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t.12).

Enghreifftiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

O ystyried ehangder ac amrywiaeth 'gwasanaethau awtistiaeth' mae ystod eang o bobl, gan gynnwys arweinwyr awtistiaeth lleol, gwasanaethau fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (fel yng Nghaerdydd a'r Fro a Gwent), y trydydd sector a staff ALI a BILI, fel cysylltwyr cymunedol (fel yng Nghaerdydd a Sir Benfro), neu lyw-wyr anabledd (fel yn Sir Ddinbych) sydd i gyd â rôl weithredol wrth nodi gwasanaethau awtistiaeth lleol a sicrhau bod gwasanaethau GCCh yn deall yr ystod o wasanaethau yn eu hardal. Yng Nghaerdydd, mae swyddi cysylltwyr cymunedol plant a phobl ifanc wedi'u sefydlu drwy Brosiect Braenaru'r Blynnyddoedd Cynnar i weithio gyda phlant a phobl ifanc a gofalwyr wrth iddynt aros am asesiad NDD. Mae'r cynnig yn cynnwys tri llinyn; gwybodaeth, cysylltiad a chymorth a bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner. Gall creu cyfeiriaduron o wasanaethau a/neu wefannau pwrpasol fod o gymorth, er bod angen eu diweddarau'n rheolaidd, er enghraifft:

- mae [Dewis Cymru](#) yn cael ei defnyddio'n helaeth
 - mae CBS RhCT wedi [cyhoeddi cyfeiriadur o wasanaethau awtistiaeth](#)
 - yng Ngwynedd, mae cyfeiriadur o wasanaethau awtistiaeth wedi'i ddatblygu, ac mae'r tîm awtistiaeth yn mapio'r hyn sydd ar gael yn lleol ac yng Nghonwy a Sir Ddinbych; mae cyfeiriadur gweithgareddau awtistiaeth lleol NAS, a luniwyd gan unigolion awtistig ar gyfer unigolion awtistig a'u teuluoedd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar a'i rannu â staff; mae ap ar-lein sy'n dod â gwybodaeth ac adnoddau lleol at ei gilydd hefyd yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag unigolion awtistig a'u teuluoedd
 - mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfeiriadur o wasanaethau awtistiaeth sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac mae gan yr holl staff eicon ar eu cyfeiriadur er mwyn cael mynediad ato
 - mae pump o wefannau ALI Gogledd Cymru wedi'u datblygu ac yn darparu gwybodaeth glir am wasanaethau ac adnoddau lleol a chenedlaethol (fel gwefan y tîm niwrowahaniaeth cenedlaethol); gweler er enghraifft: [tudalen we 'awtistiaeth' Conwy](#); [tudalennau gwe 'cefnogaeth leol i unigolion awtistig' Sir Ddinbych](#); [tudalen we 'Awtistiaeth' Sir y Fflint](#); [tudalen we 'Awtistiaeth' Gwynedd](#), a [gwefan 'Cefnogaeth ac adnoddau Niwroamrywiaeth' Wrecsam](#)
- Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth wedi'i hymgorffori mewn gwefannau eraill y bydd pobl yn mynd iddynt i gael gwybodaeth a mynediad at gymorth, er enghraifft:
- mae partneriaid, o dan arweiniad grwpiau rhieni neu ofalwyr, yn datblygu hyb awtistiaeth ar draws pedwar is-ranbarth Castell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio enghraifft [Info-nation Abertawe](#) sy'n darparu gwybodaeth a chynghor ar iechydd meddwl a llesiant i bobl ifanc;

- Nod [Cynnig Lleol Sir Gaerfyrddin](#), sy'n darparu gwybodaeth mewn un lle i blant a phobl ifanc ag ADY ac anableddau a'u teuluoedd, yw dangos i deuluoedd yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan ystod o asiantaethau lleol o addysg i iechyd a gofal cymdeithasol

Dylai timau GCCh fod yn adnodd pwysig a hefyd yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Yng Ngogledd Cymru, gwnaed ymdrechion i godi ymwybyddiaeth mewn timau GCCh o dudalennau gwe a chyfeiriaduron lleol awtistiaeth neu niwrowahaniaeth, i ategu'r defnydd o Dewis. Yng Ngwynedd, adroddir hefyd bod y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi darparu hyfforddiant i dimau GCCh er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u dyletswyddau o dan y Cod. Yn ogystal, adroddir mewn ardaloedd fel Conwy, Sir y Fflint a Gwynedd bod:

- y tudalennau gwe wedi'u rhannu a'u hyrwyddo ag eraill, fel timau GCCh, gwasanaethau asesu diagnostig, sefydliadau trydydd sector lleol, grwpiau cymorth rhieni, (yn Sir y Fflint) llyw-wyr llesiant anabledd, ac (yng Ngwynedd) ysgolion, meddygfeydd teulu, canolfannau hamdden a grwpiau cymunedol, a thrwy gyfryngau cymdeithasol a diwrnodau gwybodaeth, er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch i'r rhai a allai, er enghraifft, fod wedi'u hallgáu yn ddigidol

- cynigir GCCh a chyfeirio cychwynnol i deuluoedd gan ganolfannau teuluoedd (yng Ngwynedd) lle mae staff wedi cael hyfforddiant penodol i awtistiaeth ac mae swydd wedi'i chyllido gan y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth yn cael ei threialu yn eu gwasanaeth, ac (yn Wrecsam) mewn canolfannau llesiant

Mae gwerthuso cydymffurfiaeth yn anodd hefyd oherwydd nid yw'r Cod yn diffinio gwasanaethau awtistiaeth ac mae'r term yn agored i'w ddehongli. Mae tuedd i randdeiliaid ystyried y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig fel y 'gwasanaeth awtistiaeth' ym mhob rhanbarth. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn wasanaeth awtistiaeth pwysig sy'n darparu asesiad diagnostig awtistiaeth oedolion, cymorth a chynghor i oedolion awtistig, rhieni/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, dim ond un o nifer o wasanaethau sy'n cynnig asesiadau diagnostig ar gyfer oedolion ydyw a dim ond un o lawer o wasanaethau a fydd yn cynorthwyo unigolion awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Nid yw llawer o'r gwasanaethau hyn bob amser yn cael eu hyrwyddo fel gwasanaethau 'awtistiaeth' ^[troednodyn 43] gan nad ydynt yn gweithio gydag unigolion awtistig a/neu eu rhieni a'u gofalwyr yn unig, fel:

- gwasanaethau NDd, Iechyd Meddwl Oedolion ac AD (a drafodwyd yn adran 3)
- GCCh a gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a thimau anabledd plant
- sefydliadau'r trydydd sector (y nodir eu bod yn ffynhonnell bwysig o gymorth i rieni a gofalwyr ac oedolion awtistig hefyd)

[43] Hynny yw, nid yw 'awtistiaeth' yn ymddangos yn enw'r gwasanaeth.

Fodd bynnag, at ddibenion y Cod, fe'u hystyri'r yn 'wasanaethau awtistiaeth' [troednodyn 44].

Fel yn 2023, nododd rhanddeiliaid fod y dirwedd polisi hon sydd ychydig yn gymhleth yn gallu bod yn heriol i'w llywio ac mae'n golygu y gall fod yn anodd nodi gwasanaethau awtistiaeth (heblaw am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig) ar wefannau ALI a BILI. Mae hyn yn bwysig, oherwydd bod y gwefannau hyn (ynghyd â'r gwasanaethau GCCh a drafodir isod) yn gyfrwng pwysig ar gyfer lledaenu gwybodaeth am wasanaethau lleol ac, oni bai bod rhywun yn gwybod beth i chwilio amdano, gall fod yn anodd nodi gwasanaethau awtistiaeth ALI a BILI [troednodyn 45].

Gwasanaethau hunangymorth a hunangymorth â chefnogaeth


Un o'r themâu mewn sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan oedolion awtistig a rhieni neu ofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig (a drafodir yn adran 8) oedd yr anhawster a brofodd llawer wrth lywio tirwedd neu glytwaith o wasanaethau cymorth sy'n aml yn gymhleth. Roedd rhai pobl yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r adnoddau newydd a ddatblygwyd gan ALIau, BILI a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd eraill yn cael trafferth, weithiau'n teimlo eu bod wedi'u llethu gan yr amrywiaeth o wybodaeth a/neu'n teimlo nad oedd ganddynt y lled band meddyliol i gynnal 'ymchwil', o ystyried yr holl anawsterau eraill y gallent eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd. Yn hytrach na'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel modelau hunangymorth neu hunanwasanaeth fel gwefannau, roeddent eisiau rhywun i'w tywys a'u harwain a'u helpu i ddeall pa opsiynau oedd yno ac o bosibl eu cefnogi i gael mynediad atynt (er enghraifft, drwy gymorth i lenwi ffurflenni atgyfeirio). Roedd hefyd yn ymddangos bod pobl yn aml eisiau cymysgedd o gymorth ymarferol a/neu emosiynol i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chymorth. Mae hefyd yn bosibl, er nad yw'n amlwg yn yr adborth ar gyfer y gwerthusiad hwn, bod rhai oedolion awtistig a rhieni neu ofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig hefyd eisiau mwy o gymorth i ddefnyddio, neu gymhwyso, yr hyn y maent wedi'i ddysgu ar ôl, er enghraifft, mynd ar gwrs hyfforddi ar-lein neu bersonol. Mae Ffigur 4.1 yn ceisio dangos y ddau ddimensiwn hyn o alluogedd.

[44] Mae'r term 'gwasanaethau awtistiaeth' yn cael ei ddefnyddio'n eang, ond nid yw'n cael ei ddiffinio'n benodol gan y Cod (nac yn y [Ddogfen Ganllaw Ategol](#) na'r [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig](#)). Mae'r Cod yn awgrymu bod 'gwasanaethau awtistiaeth' yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer unigolion awtistig a'u teuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau NDd fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ond hefyd, er enghraifft, gwasanaethau GCCh. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad yn y Cod at 'wasanaethau prif ffrwd' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t. 25) yn awgrymu bod y 'gwasanaethau prif ffrwd' hyn yn wahanol i 'wasanaethau awtistiaeth' ac nid yw 'gwasanaethau awtistiaeth' yn unrhyw wasanaeth y mae unigolion awtistig a/neu eu teuluoedd yn ei ddefnyddio. Felly, mae rhywfaint o amwysedd ynghylch cwrpas y term.

[45] Er enghraifft, bydd chwiliad ar y rhyngrwyd am "wasanaethau awtistiaeth" mewn ALI penodol fel arfer yn nodi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a rhai sefydliadau'r trydydd sector, ond anaml y bydd yn nodi gwasanaethau eraill yr ALI neu'r BILI sy'n gallu helpu a chynorthwyo unigolion awtistig a'u rhieni neu ofalwyr ac yn gwneud hynny.

Ffigur 4.1. Modelau hunanwasanaeth a gwasanaeth o wybodaeth a chymorth

Lefel y fenter unigol sy'n ofynnol i nodi
ac ymgysylltu â ffynonellau
gwybodaeth / cymorth



Disgrifiad o Ffigur 4.1: Diagram gyda 4 cwadrant yn mapio modelau hunanwasanaeth a gwasanaeth o wybodaeth a chymorth, yn erbyn lefel y fenter unigol sy'n ofynnol i nodi ffynonellau gwybodaeth/cymorth ac ymgysylltu â nhw, yn ôl lefel y fenter unigol sy'n ofynnol i ddefnyddio gwybodaeth/cymorth a chael budd ohonynt

Ffactorau sy'n llunio gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth

Mae nifer o ddatblygiadau sy'n rhagflaenu'r Cod wedi gwella gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth. Nid ydynt wedi symleiddio'r dirwedd polisi, ond maent wedi gwella gwybodaeth amdani, yn enwedig:

- arweinwyr awtistiaeth lleol, a sefydlwyd mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Strategol Awtistiaeth cyntaf yn 2008, y mae eu rolau'n amrywio ond gall gynnwys nodi gwasanaethau lleol a/neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth uniongyrchol i unigolion
- grwpiau rhanddeiliaid lleol, sy'n gallu darparu fforymau pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth

- sefydlu [Dewis Cymru](#) ac, ym mhob ALI, sefydlu gwasanaethau GCCh mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- sefydlu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn dilyn [y Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol Awtistiaeth yn 2016](#), sy'n cynnig cymorth a chynghor i oedolion awtistig, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, er bod ei gynnig o gymorth yn amrywio o ranbarth i ranbarth

Fel y mae Tabl 4.4 yn dangos, rydym yn asesu bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith er mwyn i unigolion awtistig allu cael mynediad at wasanaethau yn yr un ffordd â phawb arall. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwelliant mewn datblygiad a hyfforddiant y gweithlu (a drafodir yn yr adran nesaf).

Serch hynny, roedd yr adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig ar hyn yn negyddol iawn (mae Adran 8 yn darparu rhagor o fanylion). Fel y mae adran 2 yn amlinellu, nid yw'r data hyn yn cael eu hystyried yn uniongyrchol gymaradwy â'r asesiad o gydymffurfiaeth yn seiliedig yn bennaf ar ddata a ddarparwyd gan ymarferwyr [troednodyn 46]. Fodd bynnag, fel y mae adran 2 hefyd yn amlinellu, nid oes unrhyw awgrym nad yw eu hymatebion yn ddifffuant ac roedd y profiadau a adroddwyd ganddynt yn aml yn cael eu cydnabod gan randdeiliaid (er enghraifft, fel rhai sy'n gyson â data anecdotaidd ar brofiadau pobl). Felly, mae'n nodyn cryf o rybudd ynghylch effaith y cynnydd y mae ALLau a BILI yn ei adrodd a phwysigrwydd monitro a gwerthuso profiadau bywyd pobl o ryngweithio â gwasanaethau ALLau a BILI.

[46] Gall yr ymatebion gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig (a drafodir ymhellach yn adran 8) ymwneud â phrofiadau hanesyddol a gall fod yn rhy gynnar i farnu effaith gwelliannau yn natblygiad a hyfforddiant y gweithlu. Efallai nad yw'r ymatebion hyn yn gwbl gynrychioliadol ychwaith.

5. Adrannau 1 a 2 o'r Cod: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (er enghraifft, ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd)

Mae gan lawer o unigolion awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd ^[47] ac weithiau fe'u disgrifir fel rhai sydd ag anghenion 'cymhleth', yn rhannol oherwydd nad ydynt yn ffitio'n hawdd i strwythurau gwasanaeth presennol. Yn hanesyddol, mae'r rhai sydd ag anabledd dysgu ac awtistiaeth wedi gallu cael mynediad at wasanaethau AD ([Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: Adroddiad Terfynol](#)). Fodd bynnag, bu pryderon hirsefydlog ynghylch mynediad plant awtistig ac oedolion awtistig i CAMHS ac AMHS ac at wasanaethau eraill fel gwasanaethau anhwylderau bwyta (gweler er enghraifft, adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, [Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru](#); adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru fel [Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#), a [Dull Dim Drws Anghywir i Niwroamrywiaeth: Llyfr o Brofiadau](#); a'r adolygiad gan AGIC, Estyn ac AGC, [Sut mae gwasanaethau gofali iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?](#)). Mae hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau cydgysylltiedig a all gyfyngu ar fynediad unigolyn awtistig at y gwasanaethau hyn gan gynnwys:

- bylchau o ran gwybodaeth, sgiliau a hyder staff sy'n gallu golygu eu bod yn amharod i gynorthwyo unigolion awtistig
- y ffordd y gellir priodoli problemau unigolyn, fel ei anawsterau iechyd meddwl, i'w awtistiaeth, yn hytrach nag achosion fel profiadau trawmatig y mae gwasanaethau'n fwy hyderus yn mynd i'r afael â nhw
- y pwysau ar wasanaethau, sydd wedi arwain at godi trothwyon ar gyfer mynediad

Mewn ymateb, mae adrannau 1 a 2 o'r Cod yn cynnwys pum dyletswydd sydd wedi'u bwriadu i sicrhau, er enghraifft:

- 'lle mae gan unigolion awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau cymorth sy'n gallu diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth'
- 'nad yw pobl â chyflwr ar y sbectwm awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion'

[47] Er enghraifft, fel y mae Fframwaith Awtistiaeth Cenedlaethol Lloegr yn nodi, 'none of the individual autism diagnostic criteria are exclusive to autism' ac 'autism also co-occurs with other conditions more often than it occurs as a sole diagnosis' ([A national framework to deliver improved outcomes in all-age autism assessment pathways: guidance for integrated care boards](#)).

- ‘nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill’
- ‘nad yw [cyniferydd deallusrwydd] IQ yn cael ei ystyried fel rhan o’r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant’

Fel yn adrannau 3 a 4, mae'r asesiad o gydymffurfiaeth yn cael ei raddio ar raddfa RAGG pedwar pwynt ^[troednodyn 48], gan ddefnyddio'r codau lliw a ddangosir gan ffigurau 3.1 a 3.2; ar gyfer pob dyletswydd, mae'r tablau yn cyflwyno:

- yr asesiad sylfaenol yn 2023
- yr asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddarau yn 2025
- adborth gan oedolyn awtistig a/neu rieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig

[48] Mae'r meincnodau a ddefnyddir i farnu cydymffurfiaeth yn eu herbyn wedi'u cynnwys yn atodiad A.

Tabl 5.1.1. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion

Dyletswydd: Rhaid i ALLau a BILI: sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da
Plant 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da
Oedolion 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da
Oedolion 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da

Tabl 5.1.2. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (gwasanaethau cymorth sy'n diwallu anghenion cymorth ychwanegol)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau a BILI [sicrhau]: lle mae gan unigolion awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau cymorth sy'n gallu diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
Plant 2025	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
Profiad Bywyd [troednodyn 49]	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[49] Yn seiliedig ar gyfran rhieni a gofawyr plant a phobl ifanc awtistig wrth ymateb i'r cwestiwn 'mae gan blant awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan wasanaethau fel iechyd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?' a ddywedodd ei bod naill ai'n 'eithaf anodd' neu'n 'anodd iawn' gwneud hynny.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Oedolion 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Da
Oedolion 2025	Da	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da
Profiad Bywyd [troednodyn 50]	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[50] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig wrth ymateb i'r cwestiwn 'mae gan oedolion awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan wasanaethau fel iechyd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?' a ddywedodd ei bod naill ai'n 'eithaf anodd' neu'n 'anodd iawn' gwneud hynny.

Tabl 5.1.3. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (nid yw cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: Sicrhau nad yw pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion. Rhaid i ystyriaeth o ddangosyddion craidd cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth a'u dylanwad ar yr unigolion lywio'r gofal a'r cymorth a gynigir a'i ganlyniadau.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
Plant 2025	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Da
Oedolion 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Da
Oedolion 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Da

Tabl 5.1.4. Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (nid yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: Sicrhau nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Rhaid i BILI: Sicrhau nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
ALI 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Da	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
ALI 2025	Da	Ddim yn hysbys	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da
Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
BILI 2023	Ddim yn cydymffurfio [Nodyn 1]	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
BILI 2025	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da

[Nodyn 1] Er y nodwyd yn 2023 bod cynnydd yn cael ei wneud ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn fater hanesyddol, roedd hynny bellach yn cael sylw.

Mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion

Fel y mae Tabl 5.1 yn dangos, nododd rhanddeiliaid yn gyson fod ALLau ac, i raddau llai, BILI, wedi symud neu wrthi'n symud tuag at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion yn hytrach na gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddiagnostig neu IQ, fodd bynnag:

- fel yn 2023, adroddir bod plant a phobl ifanc niwrowahanol yn dal i gael trafferth cael mynediad at CAMHS (gweler er enghraifft, adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, [Dull Dim Drws Anghywir i Niwroamrywiaeth: Llyfr o Brofiadau](#) ac adolygiad AGIC, Estyn ac AGC, [Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?](#))
- fel yn 2023, ymddengys fod rhywfaint o ddryswch o hyd ymhlith rhanddeiliaid am y defnydd o IQ fel maen prawf cymhwysra ar gyfer gwasanaethau (nad yw'n cydymffurfio â'r Cod) a'i ddefnyddio i benderfynu beth fyddai'r gwasanaeth priodol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth (sy'n cydymffurfio â'r Cod)
- nodwyd bod rhai gwasanaethau awdurdodau lleol, fel gwasanaethau anabledd plant, yn dal i'w gwneud yn ofynnol cael diagnosis (er enghraifft, diagnosis o awtistiaeth) er mwyn cael mynediad atynt ^[troednodyn 51]
- er bod Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn gynyddol yn cynnig cyngor awtistiaeth sy'n agored i bawb (ac sy'n cael ei ystyried yn arfer da), mae agweddau ar ei gymorth, fel cyrsiau ôl-ddiagnostig, wedi'u cyfyngu i'r rhai sydd â diagnosis, yn unol â'r model Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig cenedlaethol
- mae meini prawf cymhwysra cenedlaethol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cael eu diffinio gan anghymhwysra ar gyfer gwasanaethau eilaidd (hynny yw, gwasanaethau iechyd Meddwl Oedolion ac AD) ([Canllaw Cefnogol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig](#)). Felly, mewn gwirionedd, mae mynediad at wasanaethau diagnostig a chymorth i oedolion yn dal i gael ei ddiffinio gan gyflyrau (hynny yw, a oes gan rywun ddiagnosis o awtistiaeth neu gyflwr AD neu iechyd meddwl sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer gofal eilaidd). Mae'r olaf yn bryder, lle teimlir nad yw'r wybodaeth, yr help a'r cymorth a gynigir gan wasanaethau iechyd meddwl oedolion ac AD mor dda â'r hyn a gynigir gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

At hynny, fel yr amlinellwyd uchod, oherwydd bod llawer llai o oruchwyliaeth a dealltwriaeth o ymarfer mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac AD mewn grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol ac mae llai o fuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth wedi bod yn y gwasanaethau hyn o'i gymharu â gwasanaethau NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, mae llawer llai o hyder bod y gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â'r Cod.

[51] Fel y nodwyd, gellir defnyddio diagnosis i nodi'r gwasanaeth mwyaf priodol. Fodd bynnag, mae ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis er mwyn cael mynediad at rai gwasanaethau yn mynd yn groes i ysbryd y Cod, os nad yw gwasanaethau amgen nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis, yn gallu darparu'r un lefelau o gymorth (neu lefelau tebyg o gymorth) â'r gwasanaethau hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis.

Mae pryderon hefyd bod rhai gwasanaethau, fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn dal i'w gwneud yn ofynnol cael diagnosis er mwyn cael mynediad atynt. Yng Ngwent, felly, nodwyd fel arfer da y gall oedolion ar restr aros y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gael mynediad at gyngor a chymorth drwy ganolfannau rhithwir y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Adroddwyd bod rhai grwpiau sector gwirfoddol yn derbyn hunanddiagnosis, a oedd hefyd yn cael ei ystyried yn arfer da, er bod ymarferwyr weithiau'n teimlo bod hwn yn faes anodd, ac mae pryderon ynghylch pa mor ddibynadwy yw hunanddiagnosis a'i effeithiau posibl (gweler er enghraifft, David a Deeley, 2024).

Mae'n ymddangos bod y canfyddiad bod angen diagnosis i gael mynediad at wasanaethau a chymorth yn parhau i fod yn gyffredin. Mewn ymateb, er enghraifft:

- yng Ngorllewin Cymru, mae'r gwasanaeth NDd plant yn cynnig cymorth cyn-ddiagnostig dros y ffôn neu ddull rhithwir i rieni a gofalwyr sy'n aros am asesiadau diagnostig
- mae gwasanaethau NDd Powys yn adrodd y bydd staff yn nodi'r hyn y mae pobl ei eisiau ac yn ei ddisgwyl o asesiad diagnostig a byddant (lle y bo'n briodol) yn atgyfeirio pobl i wasanaethau cymorth cyn asesiad diagnostig

Ffactorau sy'n llunio mynediad at wasanaethau i blant awtistig (0 i 17) sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Fel yn 2023, mae rhanddeiliaid yn nodi bod nifer o ffactorau wedi gwella mynediad at wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu a chyflwyno'r [fframwaith NYTH](#) ^[troednodyn 52] ac ymgyrch y Comisiynydd Plant ar gyfer 'dim drws anghywir' i wasanaethau ([Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#)), a ddefnyddiodd arfer da presennol mewn rhanbarthau, fel y panel SPACE-WB ^[troednodyn 53] yng Ngwent
- cyngor a hyfforddiant ar gyfer staff CAMHS sydd wedi helpu i gynyddu sgiliau a hyder ymarferwyr wrth gefnogi plant awtistig

Mae'r ffyrdd y mae'r fframwaith NYTH yn cynorthwyo cydymffurfiaeth â'r Cod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn enghraifft bwysig o sut y mae angen i bolisi awtistiaeth fod yn rhan o bolisi ehangach, neu ei brif ffrydio ^[troednodyn 54] i bolisi ehangach (gweler y testun mewn blwch).

[52] Mae NYTH yn seiliedig ar y egwyddorion: 'rhoi Nerth – rhoi nerth / grymuso'; 'Ymddiried - dibynadwy ac yno i chi'; 'Tyfu'n ddiogel – tyfu'n ddiogel' a 'Hybu - annog' ac fel arfer cyfeirir ato fel y "fframwaith NYTH" ([Fframwaith NYTH \(iechyd meddwl a lles\): cyflwyniad](#)).

[53] Dyma'r Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant, ond fel arfer cyfeirir ato fel "SPACE-WB".

[54] Gall y model 'prif ffrydio rhywedd' fod yn ddefnyddiol yma o ran sicrhau bod safbwynt awtistig – neu niwroamrywiol - yn cael ei ymgorffori ym mhob polisi ar bob lefel ac ar bob cam, gan yr gweithredwyr sydd fel arfer yn ymwneud â llunio polisiau ([What is gender mainstreaming?](#)).

Prif ffrydio awtistiaeth mewn polisi

Mewn sawl rhanbarth, bydd cydymffurfio â'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol prif ffrydio awtistiaeth i bolisi ehangach, neu bydd cydymffurfio â'r Cod yn cael ei gyflawni'n fwy effeithiol os gwneir hyn, er enghraifft:

- dylai mynediad at wasanaethau i blant awtistig ag anghenion cymhleth gael ei wella drwy waith rhanbarthol i ddatblygu fframwaith NEST ac argymhellion 'dim drws anghywir
- dylai hyfforddiant awtistiaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol gael ei gefnogi gan y Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol
- dylai camau gweithredu i sicrhau bod gwybodaeth a chyfeirio i gael mynediad at wasanaethau asesu a bod unigolion awtistig y gall fod ganddynt anghenion gofal a chymorth yn ymwybodol o'u hawl i asesiad o anghenion, fod yn rhan o strategaethau ehangach ALI i fodloni'r dyletswyddau i bawb o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) [troednodyn 55]
- dylai camau gweithredu i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud a bod gwasanaethau yn fwy cynhwysol i unigolion awtistig fod yn rhan annatod o bolisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yr ALI a'r BILI

Efallai y bydd gan grwpiau strategol rhanbarthol rôl allweddol wrth ymgysylltu â'r rhaglenni a'r meysydd polisi hyn i sicrhau bod anghenion a buddiannau unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalmwyr yn cael eu hystyried pan fydd polisi yn cael ei ddatblygu, ei gyflwyno a'i werthuso

Nodwyd (gan randdeiliaid) bod cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod mewn perthynas â mynediad at wasanaethau i blant sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd gryfaf lle mae gweithredu'r Fframwaith NYTH yn fwyaf datblygedig.

Ffactorau sy'n llunio mynediad at wasanaethau i oedolion sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Mae'r cynnydd o ran mynediad at wasanaethau i oedolion ag anghenion cymhleth wedi bod yn anwastad. Fel yr amlinellir yn Nhabl 5.1. mae'n nodedig bod yng Nghwm Taf Morgannwg a Gwent bod yr asesiad o gydymffurfiaeth yn 2025 â'r ddyletswydd i sicrhau 'lle mae gan bobl awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau cymorth sy'n gallu diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth', yn is nag yn 2024. Yn y ddau achos, yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod gwybodaeth ychwanegol (nad oedd ar gael yn 2024) wedi'i darparu yn 2025, a arweiniodd at adolygu'r asesiad. Tynnwyd sylw at y craffu hwn ar ymarfer a bod yn agored am yr heriau sy'n wynebu pob rhanbarth yn eu hasesiadau o gydymffurfiaeth fel arfer da, ac mae'n enghraifft o gynnydd 'aflinol', a all

[55] Er enghraifft, gellid integreiddio hyn i ymgyrchoedd fel 'A ydych yn gofalu am rywun?', sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalmwyr a gwasanaethau cymorth.

gael ei guddio pan ddefnyddir graddfa RAGG i ddangos cynnydd ^[troednodyn 56]. Fodd bynnag, yn ogystal, mewn un o'r ddau ranbarth, ymddengys nad oedd y llwybrau i AMHS a sefydlwyd ac a oedd yn gweithredu yn 2024, bellach yn gweithredu'n effeithiol, a chyfrannodd hyn hefyd at israddio cydymffurfiaeth o 'gynnydd da' i gynnydd 'cymysg neu gyfyngedig'.

Lle mae cynnydd wedi'i wneud, mae rhanddeiliaid yn nodi bod y cynnydd hwn wedi'i gefnogi gan:

- sefydlu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sy'n gallu cynorthwyo oedolion nad ydynt yn gymwys i gael gwasanaethau eilaidd fel gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion neu AD (ond a allai fod ag anawsterau iechyd meddwl neu anabledd dysgu ysgafn o hyd). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, yn unol â'r model cenedlaethol, nad yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cynorthwyo oedolion awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl neu AD eilaidd
- gwaith i godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac ymgynghoriadau yn enwedig gydag AMHS (a drafodir isod)

Fodd bynnag, yn absenoldeb paneli cyfatebol fel SPACE-WB, nodir y gall rhai oedolion ag anghenion cymhleth barhau i gael trafferth cael mynediad at wasanaethau a chymorth.

Enghreifftiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

Dau ffactor allweddol a all gynorthwyo mynediad at wasanaethau i bobl sydd ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd yw:

- un pwynt mynediad at wasanaethau, er mwyn lleihau'r risgiau bod pobl yn cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau
- cydweithio rhwng gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau, er enghraifft, bod gan weithwyr proffesiynol fynediad hawdd at yr arbenigedd sydd ei angen arnynt i gynorthwyo unigolion sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Gall hyn yn ei dro helpu i sicrhau bod ganddynt yr hyder i gynorthwyo unigolion sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Mae un pwynt mynediad at wasanaethau iechyd, fel panel SPACE-WB Gwent, wedi cael ei argymhell yn gryf gan Gomisiynydd Plant Cymru, ac mae hyn yn llawer mwy cyffredin i blant nag ar gyfer oedolion. Serch hynny, ceir enghreifftiau mewn gwasanaethau iechyd oedolion, fel yr un pwynt mynediad at y gwasanaethau ASD a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Ngorllewin Cymru. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent ar hyn o bryd yn adolygu'r llwybrau i'r gwasanaethau wrth iddynt symud i ddod yn wasanaeth NDd gydag ADHD. Mae'r Gwasanaeth NDd Oedolion newydd yn gweithio i gyflwyno system 'drws blaen'. Byddai hyn yn golygu y bydd yr holl atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau NDd

[56] Mae cynnydd 'afllinol' yn disgrifio cynnydd nad yw'n symud ymlaen mewn llinell syth, ac a all yn hytrach gynnwys, er enghraifft, lefelu neu hyd yn oed atchweliad, ond ar y cyfan mae cynnydd yn dal i gael ei wneud tuag at y canlyniad a ddymunir

oedolion yn dod i un lle a'u brysbennu er mwyn penderfynu pa wasanaeth/llwybr niwroddatblygiadol sy'n darparu'r daith claf orau i'r unigolyn er mwyn diwallu ei anghenion.

Yr enghraifft fwyaf cyffredin o gydweithio rhwng gwasanaethau i ddarparu mynediad hawdd at arbenigedd, oedd y cydweithio rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r AMHS mewn ardaloedd fel Caerdydd a'r Fro. Mae enghreifftiau nodedig eraill yn cynnwys y cydweithio rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth ASD oedolion yng Ngorllewin Cymru. Cafodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth ASD oedolion eu huno i ddechrau er mwyn creu 'Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Mwy', gan ddarparu un pwynt mynediad ar gyfer asesiadau awtistiaeth diagnostig ar gyfer oedolion sy'n bodloni, a'r rhai nad ydynt yn bodloni, meini prawf cymhwysra ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl statudol. Fodd bynnag, mae camau bellach yn cael eu cymryd i gynyddu capasiti diagnostig mewn CAMHS ac mewn AMHS, fel Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) (sy'n golygu y gellir gwneud mwy o asesiadau diagnostig yn y gwasanaethau hyn). Mae rhai staff yn y gwasanaethau hyn wedi'u hyfforddi mewn asesiad diagnostig, a gwnaed trefniadau iddynt fynychu'r fforwm NDd Plant neu fforwm y tîm amlddisgyblaethol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig/ADHD ar y cyd er mwyn helpu gyda llunio achosion. Yn ogystal, darperir cyfleoedd cysgodi yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, i glinigwyr yn AMHS atgyfnerthu eu hymarfer drwy arsylwi asesiadau diagnostig. Yna gallant arwain ar eu hasesiad diagnostig eu hunain o dan oruchwyliaeth, nes eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys. Yn ogystal, cyflogir dau ymarferydd Iechyd Meddwl (nyrsys o TIMC) yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gan ddefnyddio cyllid y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth a nodir eu bod yn cryfhau rhyngwyneb y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig â gwasanaethau iechyd meddwl yn sylweddol, gan lywio ymarfer o amgylch materion iechyd meddwl yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a gwella cynnig cymorth cyn ac ôl-ddiagnostig y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Yn yr un modd, yng Ngorllewin Cymru ceir cydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaethau ADHD i oedolion, o ystyried mor aml y mae awtistiaeth ac ADHD yn cyd-ddigwydd. Mae'r gwasanaethau wedi'u cyd-leoli ac maent yn ceisio cysoni a chynnig un pwynt cyswllt/mynediad i bob atgyfeiriad. Nodir bod mwyafrif y clinigwyr yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth ADHD i oedolion bellach wedi'u hyfforddi ar gyfer diagnosis deuol, sy'n golygu y bydd y gwasanaethau'n gallu cynnig asesiad diagnostig o ADHD ac ASD yn fwy amserol ac yn galluogi gweithio mwy cydgysylltiedig i flaenoriaethau anghenion ar y pwynt atgyfeirio.

Yng Ngwent, adroddir bod perthnasoedd gwaith da rhwng y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth AD, sydd wedi'u cyd-leoli'n effeithiol ar yr un llawr yn yr un adeilad.

6. Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Fel y mae Rhagair y Gweinidog i'r Cod yn nodi 'mae'n bwysig i ddeall y ffordd mae unigolion awtistig a'r rhai â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio.' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#)). Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau a chymdeithas yn fwy 'caredig' ac yn fwy cynhwysol (er enghraifft, drwy sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud). Mewn ymateb, mae adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod yn cynnwys 11 o ddyletswyddau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau'r canlynol, er enghraifft:

- 'mae amrywiaeth o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd'
- 'mae ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn deall gwybodaeth, cyngor a chymorth (gan gynnwys gwasanaethau awtistiaeth) ac yn gallu cyfeirio pobl iddynt'
- 'mae gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i addasu eu hymarfer i ddiwallu anghenion unigolion awtistig yn well; a, lle y bo angen fel rhan o'u rôl, cyngori a hyfforddi eraill a/neu gynnal asesiadau diagnostig neu asesiadau o anghenion'

Fel yn adrannau 3, 4, a 5, mae'r asesiad o gydymffurfiaeth yn cael ei raddio ar raddfa RAGG pedwar pwynt ^[troednodyn 57], gan ddefnyddio'r codau lliw a ddangosir gan ffigurau 3.1 a 3.2; ar gyfer pob dyletswydd, mae'r tablau yn cyflwyno:

- yr asesiad sylfaenol yn 2023
- yr asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddarau yn 2025
- lle y bo'n berthnasol, adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig

[57] Mae'r meincnodau a ddefnyddir i farnu cydymffurfiaeth yn eu herbyn wedi'u cynnwys yn atodiad A.

Tabl 6.1.1. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu

Dyletswydd: Rhaid i ALLau a BILI: sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o'r rhaglenni hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a gynigir i bob aelod staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
ALI 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da
ALI 2025	Da	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys
BILI 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
BILI 2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da

Tabl 6.1.2. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (asesu anghenion hyfforddi awtistiaeth yr holl staff)

Dyletswydd: Fel rhan o gynllunio'r gweithlu [dylai ALI a BILI]: asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth eu holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi faint o hyfforddiant sydd ei angen yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
ALI 2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
ALI 2025	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
BILI 2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
BILI 2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 6.1.3. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (y wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i ymgymryd â rolau)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i gyflawni eu rôl, gan ymgysylltu â chyrff cofrestru arbenigwyr proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
202	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da

Tabl 6.1.4. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (cymorth ar gyfer unigolion mewn sefydliadau diogel yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol)

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILL: sicrhau bod cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer unigolion awtistig mewn sefydliadau diogel yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Plant 2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
Plant 2025	Da	Da	Da	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
Oedolion 2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig	Dd/B	Ddim yn hysbys	Dd/B
Oedolion 2025	Da	Da	Da	Da	Dd/B	Ddim yn hysbys	Dd/B

Tabl 6.1.5. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu darparu gan staff medrus sydd wedi cael hyfforddiant priodol)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: lle comisiynir gwasanaethau, rhaid i ALLau sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu darparu gan staff medrus sydd wedi cael hyfforddiant priodol

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 6.1.6. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (gall pob aelod o staff gael mynediad at hyfforddiant)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau a BILI: wneud trefniadau i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael yr hyfforddiant a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
ALI 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
ALI 2025	Da	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
BILI 2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig
BILI 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
Profiad Bywyd [troednodyn 58]	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[58] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?' a atebodd 'ddim yn hyderus o gwbl'.

Tabl 6.1.7. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (staff yn derbyn hyfforddiant priodol)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol mewn awtistiaeth ac anghenion ymddygiad a synhwyrdd cysylltiedig ar lefel sy'n briodol i'w cyfraniad nhw.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
NDd Plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 2023	Da	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
NDd Plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Da
Gwasanaethau eraill BILI 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
Gwasanaethau eraill BILI 2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 6.1.8. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (mae'r ddarpariaeth hyfforddiant yn ystyried canllawiau NICE)

Dyletswydd: Dylai ALLau a BILL: Lle nodir bod angen hyfforddiant arbenigol, sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant yn ystyried canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys
2025	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 6.1.9. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad a rhoi diagnosis)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cynnal asesiad o gyflwr ar y sbectwm awtistiaeth gydag unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i asesu a rhoi diagnosis.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
Gwasanaeth NDd Plant 2023	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Da
Gwasanaeth NDd Plant 2025	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn hysbys	Da
IAS 2023	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Da	Da
IAS 2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
Gwasanaethau AD ac Iechyd Meddwl 2023	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys
Gwasanaethau AD ac Iechyd meddwl 2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 6.1.10. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (digon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau: sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n asesu cymhwysra unigolyn awtistig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ddigon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth ar allu'r unigolyn i gyflawni'r pum elfen llesiant heb ofal a chymorth.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Ddim yn hysbys	Da	Da
2025	Da	Da	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da
Profiad Bywyd [troednodyn 59]	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[59] Yn seiliedig ar gyfran yr oedolion awtistig a rhieni a gofalmwr plant a phobl ifanc awtistig pan ofynnwyd iddynt 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a rhianta yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?' a atebodd 'ddim yn hyderus o gwbl'.

Tabl 6.1.11. Adran 3. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu (unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth)

Dyletswydd: Dylai ALLau a BILL: sicrhau bod unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth. Gall hyn gynnwys ymgynghori ar hyfforddi neu gymryd rhan wrth gyflwyno hyfforddiant.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Ddim yn hysbys	Da	Cymysg/cyfyngedig

Sgiliau, gwybodaeth a hyder staff

Fel y dengys Tabl 6.1, mae cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Cod mewn perthynas â hyfforddiant staff yn amrywio, ac yn gyffredinol mae mwy o gynnydd wedi'i wneud ers 2023 gan ALLau o'i gymharu â BILI. Yn rhannol gall hyn adlewyrchu ymgysylltiad mwy cyfyngedig arweinwyr datblygu'r gweithlu BILI, o'i gymharu ag ALI ^[troednodyn 60], a oedd yn cyfyngu i ba raddau y gellid gwneud asesiadau o gydymffurfiaeth BILI yn hyderus.

Fel yn 2023, mae'r cynnydd mwyaf wedi'i wneud o ran:

- cynnig hyfforddiant cyffredinol ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth i weithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol a nodir bod
 - mewn sawl ALLau fel Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Fynwy, mae'r hyfforddiant hwn bellach yn orfodol i staff gofal cymdeithasol
 - ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae'r hyfforddiant hwn yn orfodol i bob aelod o staff (ac mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol bellach yn cael ei gydnabod fel sefydliad 'Deall Awtistiaeth' gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol)
 - ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro , mae'r hyfforddiant hwn yn orfodol i staff yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl
- cynnig hyfforddiant lefel uwch i'r rhai sy'n cynnal asesiadau gofal cymdeithasol ^[troednodyn 61]
- sicrhau bod staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig sy'n cynnal asesiadau diagnostig yn meddu ar y sgiliau a'r cymhwysedd gofynnol ^[troednodyn 62]

Mae datblygu hyfforddiant gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol (y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gynt) wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi hyn. Serch hynny, bu mentrau lleol pwysig hefyd, yn aml wedi'u hysgogi gan arweinwyr awtistiaeth, sy'n rhagflaenu'r fframwaith

[60] Fel yr amlinellwyd yn adran 2, cafodd arolwg o arweinwyr datblygu'r gweithlu mewn ALI a BILI ei ddatblygu a'i rannu yn hydref 2024 gyda chymorth y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Cafwyd 21 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion gan arweinwyr datblygu'r gweithlu mewn 17 o ALLau: Caerdydd, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin (n=2 ymateb), Ceredigion (n=2 ymateb), Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd (n=2 ymateb), Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Abertawe (n=2 ymateb), Bro Morgannwg a Wrecsam (n=4 ymateb); a 4 BILI: Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Phowys.

[61] Er enghraifft, mae'n ofynnol i ALLau 'sicrhau bod gan unrhyw un sy'n asesu anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad. Os nad oes gan yr aseswr brofiad o'r cyflwr awtistiaeth, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymgynghorir ag unigolyn â'r arbenigedd hwnnw' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t.30).

[62] Er enghraifft, mae'n ofynnol i BILI 'sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cynnal asesiad o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth gydag unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i asesu a rhoi diagnosis' ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#), t.30). Fodd bynnag, mae llai yn hysbys am sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff mewn gwasanaethau AD (er y teimlir yn gyffredinol bod y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen yn bresennol) ac AMHS (lle mae unigolion, yn hytrach na gwasanaethau yn hynny o beth, wedi tueddu i feddu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad).

hyfforddi cenedlaethol (gweler, er enghraifft, [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig: adroddiad terfynol](#), am fanylion). Mae rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd yn nodi bod y dyletswyddau cyfreithiol a fynegir yn y Cod wedi helpu i godi proffil a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ymhlith rheolwyr datblygu'r gweithlu.

Mewn cyferbyniad, fel yn 2023, mae llawer llai o gynnydd wedi'i wneud wrth gynnal dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant i asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth yr holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau swydd. Felly, er y bydd llawer mwy o staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi derbyn hyfforddiant ar lefelau 1 a 2, mae risg o fylchau mewn perthynas â hyfforddiant ar lefelau 3 a 4. Fel yr amlinellwyd uchod, ceir enghreifftiau o ymarfer da mewn perthynas â grwpiau staff penodol ond, ac eithrio un ALL, prin yw'r dystiolaeth a nodwyd gan gyfweleion o ddadansoddiadau o anghenion hyfforddiant ar draws y gweithlu a datblygu cynlluniau hyfforddi i fynd i'r afael â bylchau, ar y cam hwn. Serch hynny, awgrymodd arolwg o reolwyr datblygu'r gweithlu, er ei fod yn aml yn dal yn waithe ar y gweill, fod hyn yn cael ei ddatblygu yn y rhan fwyaf o ALLau. Mae'n debygol y bydd cysylltu'r gwaith hwn â ffrydiau gwaith ehangach, fel Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn bwysig.

Adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr

Fel y dengys Tabl 6.1 hefyd, mae adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr yn awgrymu nad oes gan bobl sydd â phrofiad bywyd o wasanaethau ALL a BILI lawer o hyder o hyd yn sgiliau a gwybodaeth staff iechyd a gofal cymdeithasol (trafodwn eu hadborth yn fanylach yn adran 8). Fel y mae adrannau 2 a 4 yn amlinellu, nid yw'r data hyn yn cael eu hystyried yn uniongyrchol gymaradwy ag asesiad o gydymffurfiaeth yr ymarferwyr yn bennaf [troednodyn 63]. Serch hynny, fel y mae adran 2 hefyd yn amlinellu, nid oes unrhyw awgrym nad yw eu hymatebion yn ddifffuant ac roedd y profiadau a adroddwyd ganddynt yn aml yn cael eu cydnabod gan randdeiliaid (er enghraifft, fel rhai sy'n gyson â data anecdotaidd ar brofiadau pobl). Felly, mae'n nodyn cryf o rybudd ynghylch effaith y cynnydd y mae ALLau a BILI yn ei adrodd a phwysigrwydd monitro a gwerthuso profiadau bywyd pobl o ryngweithio â gwasanaethau ALLau a BILI.

Cydgynhyrchu hyfforddiant

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau gyda BILI 'sicrhau bod unigolion awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth'. Mae'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a ddatblygwyd gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi'i gydgynhyrchu, felly mae defnyddio'r hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Ceir enghreifftiau hefyd o gynnwys unigolion awtistig wrth ddatblygu hyfforddiant penodol ar gyfer BILI neu ALL, ond nodir na wneir hyn yn gyson ar draws BILI neu ALLau.

[63] Fel y mae adran 4 yn amlinellu, efallai fod eu hymatebion wedi cael eu llunio gan brofiadau hanesyddol, ac efallai ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith gwelliannau mewn datblygu a hyfforddi'r gweithlu. Efallai nad yw'r ymatebion hyn yn gwbl gynrychioliadol ychwaith.

Enghreifftiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

Mae Cyngor Sir Fynwy yn darparu hyfforddiant awtistiaeth i holl weithlu'r ALI (y tu hwnt i ofal cymdeithasol). Maent yn defnyddio holiadur y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol fel rhan o sefydlu staff i asesu ymwybyddiaeth o awtistiaeth a defnyddio fframwaith hyfforddiant awtistiaeth y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gyda'r tîm hyfforddi ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae modiwl hyfforddi a chyfathrebu ar-lein y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn orfodol ar draws yr ALI ac mae'n ofynnol i staff feddu ar dystysgrifau ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Maent wedi sefydlu platfform sy'n monitro hyfforddiant ac yn anfon negeseuon atgoffa at bobl pan nad ydynt wedi gwneud hyfforddiant penodol neu os oes angen diweddariad arnynt.

At hynny, o ganlyniad i'r Cod, dechreuodd arweinydd awtistiaeth Sir Fynwy sesiwn 'gadewch i ni siarad am awtistiaeth' bob chwe mis ar gyfer staff yr ALI. Mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth, ymateb i broblemau a chynnig cyngor. Mae'r sesiynau hyn hefyd wedi cael eu cynnal gyda gwasanaethau'r heddlu.

Mewn dau ALI yng Nghwm Taf Morgannwg mae anghenion hyfforddi awtistiaeth yr holl staff gofal cymdeithasol naill ai wedi'u hasesu (RhCT) neu yn cael eu datblygu fel rhan o'u cynllun hyfforddi (Pen-y-bont ar Ogwr) ^[troednodyn 64], er mwyn nodi lefel yr hyfforddiant sydd ei hangen yn unol â rolau swydd staff. Yn ogystal;

- mae darpariaeth hyfforddiant ar gael ar lefel 1 (deall awtistiaeth) a lefel 2 (medrus o ran awtistiaeth) yn barhaus, gan gynnwys ar gyfer staff newydd a staff presennol sy'n newid eu rolau swydd ac i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddysgu ar-lein
- mae trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod yr holl staff gofal cymdeithasol yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion hyfforddiant gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth (yn bennaf drwy sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar-lein) ac, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae hyfforddiant awtistiaeth bellach yn orfodol i'r tîm gofal cymdeithasol (enghraifft o arfer da)
- mae'r defnydd o'r gwahanol lefelau o hyfforddiant awtistiaeth a gynigir i staff naill ai'n cael ei fonitro (Pen-y-bont ar Ogwr), neu mae cynlluniau ar gyfer hyn yn cael eu datblygu (RhCT)
- mae cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant awtistiaeth ar gael ar lefel 3 (awtistiaeth uwch) a lefel 4 (arbenigedd awtistiaeth) i'r staff hynny sydd ei angen.

[64] Ym Mhen-y-bont ar Ogwr cafodd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ei gylchredeg y llynedd ond prin iawn oedd yr ymateb, felly maent yn ystyried sut y gellir gwella hyn wrth symud ymlaen.

Gwybodaeth am awtistiaeth ac ymwybyddiaeth ohoni a chyfeirio i wasanaethau

Nododd rhanddeiliaid enghreifftiau o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o awtistiaeth. Mae'r ffocws hyd yma wedi bod ar wella mynediad at wybodaeth i unigolion awtistig a'u teuluoedd ac ymarferwyr (fel staff iechyd a gofal cymdeithasol), yn hytrach na'r cyhoedd.

7. Adrannau 3 a 4 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth ar waith i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardal leol. Dylai cynllunio a chomisiynu strategol fod yn sail i bob un o ddyletswyddau'r Cod a hefyd ystod o gamau gweithredu ategol eraill nad ydynt wedi'u cwmpasu (nac yn ofynnol) gan y Cod ond sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion pobl. Mae Adrannau 3 a 4 o'r Cod yn cynnwys pum dyletswydd sy'n cwmpasu ystod o feysydd gan gynnwys:

- datblygu 'timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys unigolion awtistig i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau' a phenodi 'hyrwyddwr awtistiaeth' rhanbarthol
- sicrhau bod 'anghenion unigolion awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal'
- annog arloesedd a darparu gwasanaethau arbenigol
- monitro a chasglu data

Fel yn adrannau 3, 4, 5 a 6, mae'r asesiad o gydymffurfiaeth yn cael ei raddio ar raddfa RAGG pedwar pwynt ^[troednodyn 65], gan ddefnyddio'r codau lliw a ddangosir gan ffigurau 3.1 a 3.2. Ar gyfer pob dyletswydd, mae'r tablau yn cyflwyno:

- yr asesiad sylfaenol yn 2023
- yr asesiad o gydymffurfiaeth wedi'i ddiweddarau yn 2025
- lle y bo'n berthnasol, adborth gan oedolion awtistig a/neu rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig

[65] Mae'r meincnodau a ddefnyddir i farnu cydymffurfiaeth yn eu herbyn wedi'u cynnwys yn atodiad A.

Tabl 7.1.1. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILI fynd ati ar y cyd i: ddatblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys unigolion awtistig i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig
2025	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig
Profiad bywyd rhieni a gofalwyr [troednodyn 66]	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio
Profiad bywyd oedolion awtistig	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio	Ddim yn cydymffurfio

[66] Yn seiliedig ar yr ymateb i'r cwestiwn: 'a yw rhieni neu ofalwyr plant awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'

[troednodyn 67]							
--------------------	--	--	--	--	--	--	--

[67] Yn seiliedig ar yr ymateb i'r cwestiwn: 'a yw oedolion awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'

Tabl 7.1.2. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (penodir rôl hyrwyddwr awtistiaeth)
Dyletswydd: Rhaid i BILI ac ALLau fynd ati ar y cyd i: sicrhau bod hyrwyddwr awtistiaeth yn cael ei benodi ym mhob ardal BPRh a'i fod yn rhan o strwythur llywodraethu'r bwrdd.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Ddim yn cydymffurfio	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn cydymffurfio

Tabl 7.2.3. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (cydymffurfio â dyletswyddau perthnasol yn rhannau 2 a 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant)

Dyletswydd: Rhaid i BILI ac ALLau: fynd ati ar y cyd i gydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rhannau 2 a 9, i sicrhau bod anghenion unigolion awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Ddim yn hysbys	Cymysg/ cyfyngedig
2025	Da	Ddim yn cydymffurfio	Da	Da	Cymysg/ cyfyngedig	Da	Cymysg/ cyfyngedig

Tabl 7.2.4. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (darpariaethau gwasanaeth arbenigol yn cael eu nodi)

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILL: sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu lle nodwyd bod eu hangen.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Da	Cymysg/ cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
2025	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Da	Cymysg/ cyfyngedig	Cymysg/ cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 7.2.5. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth)

Dyletswydd: Rhaid i ALI a BILL: annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Cymysg/cyfyngedig	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig	Ddim yn hysbys	Cymysg/cyfyngedig
2025	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Da	Cymysg/cyfyngedig	Da	Cymysg/cyfyngedig

Tabl 7.2.6. Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau (cydymffurfiaeth â gofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru)

Dyletswydd: Rhaid i BILI ac ALLau: Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru.

Nodiadau	Caerdydd a'r Fro	CTM	Gwent	Gogledd Cymru	Powys	Gorllewin Morgannwg	Gorllewin Cymru
2023	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da
2025	Da	Da	Da	Da	Da	Da	Da

Timau strategol a gweithredol

Mae sefydlu, rôl ac effeithiolrwydd grwpiau awtistiaeth strategol a gweithredol a rôl yr hyrwyddwr awtistiaeth yn amrywio'n sylweddol ar draws y saith rhanbarth. Ym mhob un o'r saith rhanbarth, roedd grŵp awtistiaeth 'strategol' [troednodyn 68] ac mewn rhanbarthau eraill, fel Caerdydd a'r Fro a Gogledd Cymru, mae capasiti'r grŵp wedi cynyddu dros y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad. Mae eu haelodaeth naill ai wedi cael ei ehangu, a/neu mae ymgysylltiad gan aelodau presennol wedi cynyddu. Fodd bynnag, gall fod heriau o hyd wrth nodi pwy sydd angen mynychu ac ar ôl eu nodi, eu cael i fynychu, yn ogystal:

- yn y gorffennol, mae'r grwpiau strategol wedi canolbwyntio ar y gwasanaeth NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (sy'n wasanaethau awtistiaeth pwysig ond nid yr unig rai sy'n bwysig) ac, gan fod y Cod wedi helpu i daflu goleuni ar ymarfer mewn gwasanaethau awtistiaeth eraill, fel gwasanaethau GCCh, iechyd meddwl oedolion ac AD, erbyn 2025 maent wedi mabwysiadu safbwynt ehangach yn gyffredinol. Serch hynny, fel yr amlinellir yn adrannau 3, 4 a 5, roedd craffu ar wasanaethau awtistiaeth, a rôl wrth eu datblygu, fel gwasanaethau GCCh, iechyd meddwl oedolion ac AD yn gyffredinol yn gyfyngedig ac er bod cysylltiadau'n cael eu datblygu ag arweinwyr datblygu'r gweithlu ALI a BILI, mae'r rhain yn gyffredinol yn parhau i fod yn gysylltiadau cychwynnol
- Yn 2025, er bod y berthynas rhwng y grŵp strategol awtistiaeth a'r BPRh yn llawer cliriach ar y cyfan, yn aml iawn mae gweddu braidd yn anesmwyth o hyd rhwng grŵp strategol awtistiaeth sy'n canolbwyntio ar gyflwr penodol i bob oedran a grwpiau strategol rhanbarthol eraill sydd â chylch gwaith trawsbynciol llawer ehangach ond ar gyfer grŵp oedran penodol fel plant a phobl ifanc, oedolion neu bobl hŷn [troednodyn 69]
- fel yn 2023, roedd cyfranogiad uniongyrchol pobl â phrofiad bywyd yn aml yn gyfyngedig ac nid oedd y cysylltiadau rhwng y grŵp strategol ac arweinwyr awtistiaeth lleol a grwpiau rhanddeiliaid lleol bob amser yn glir

Mae cyflwyno'r Cod wedi helpu i gynyddu proffil rhai grwpiau strategol ac annog mwy o ymgysylltu gan uwch gynrychiolwyr BILI a/neu ALI. Mae hefyd wedi helpu rhai staff, fel arweinwyr awtistiaeth a/neu gydlynwyr rhanbarthol, a all dynnu sylw at y dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar ALI a BILI. Mae'r Cod hefyd wedi helpu i roi diben cliriach i rai grwpiau (wrth iddynt ganolbwyntio ar asesu cydymffurfiaeth), er, fel yr amlinellir yn y casgliadau, gallai ehangder, hyd a chymhlethdod y Cod fod wedi ei gwneud yn anodd i grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol flaenoriaethu camau gweithredu oherwydd:

- bod asesiad o gydymffurfio wedi amlygu cynifer o feysydd lle roedd angen camau gweithredu

[68] Roedd grwpiau gweithredol yn llawer llai amlwg.

[69] Er enghraifft, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa is-grŵp/is-grwpiau o'r BPRh, y dylai grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol adrodd iddynt a thrwyddynt.

- gall canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Cod fwrw cysgod dros feysydd nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cod ond sydd hefyd yn bwysig ac mae'n arwain at y perygl o annog yr hyn a ddisgrifiwyd gan randdeiliaid fel dull 'ticio blychau' o ran cydymffurfio
- gall fod yn anodd gweld y cysylltiadau rhwng rhannau o'r Cod a'r darlun mwy (neu'r system ehangach) os yw'r ffocws yn culhau i bob un o'r 51 o ddyletswyddau unigol

Mae canllawiau'r Cod yn awgrymu y dylai 'grwpiau llywio awtistiaeth strategol' gynnwys aelodau 'ar lefel digon uchel i lywio datblygiad gwasanaethau' ac y dylid cael 'grwpiau llywio gweithredol sy'n cynnwys ac yn cynrychioli unigolion awtistig ac sy'n gallu llywio gwelliannau i wasanaethau'. Fodd bynnag, (braidd yn ddryslyd) mae'r ddyletswydd yn dweud bod yn rhaid i ALLau a BILI fynd ati a 'datblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys unigolion awtistig er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau' [troednodyn 70]⁷⁰ (Llywodraeth Cymru 2021a, tt. 34, 36). At hynny, nid yw'r canllaw ategol, sy'n cynnwys diagram ar dudalen 70 sy'n amlinellu'r berthynas rhwng gwahanol grwpiau, yn sôn am grwpiau gweithredol (Llywodraeth Cymru 2021b). Gall hyn helpu i esbonio pam nad oedd llawer o enghreifftiau 'grwpiau gweithredol', a llawer llai o eglurder ynghylch eu rôl, a sut roeddent yn gysylltiedig â 'grwpiau strategol' yn rhanbarthol, er bod grwpiau rhanddeiliaid awtistiaeth lleol mewn llawer o ardaloedd yn cyflawni rôl sy'n cyfateb i'r hyn a amlinellir yn y canllawiau.

Yn 2023, nododd sawl rhanbarth eu bod wedi cael trafferth nodi rhywun sy'n barod i ymgymryd â rôl hyrwyddwr awtistiaeth a/neu mae eu hyrwyddwyr wedi ymddiswyddo o'r rôl. Fel y dengys Tabl 7.1, yn 2025 roedd nifer o ranbarthau yn cael trafferth sicrhau parhad ac roedd ganddynt, er enghraifft, hyrwyddwyr awtistiaeth a oedd naill ai wedi ymddiswyddo a neb wedi cymryd eu lle eto, neu nid oeddent yn aelodau o'r BPRh llawn.

O ystyried y pwysau a'r cyfyngiadau ariannol y mae BILI ac ALLau yn eu hwynebu, mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwasanaethau awtistiaeth drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth wedi bod yn bwysig. Mae wedi cynorthwyo camau gweithredu i helpu rhanbarthau i symud yn agosach at gydymffurfio, er enghraifft drwy gyllido gwasanaethau niwroddatblygiadol i wella eu capasiti i gynnal asesiad diagnostig a chymorth cyn ac ôl-ddiagnostig ac, mewn rhai ardaloedd, cynorthwyo'r trydydd sector.

Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a chasglu data

Fel y dengys Tabl 7.2, fel yn 2023, lle mae awtistiaeth yn cael ei hystyried mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r asesiad yn ddigon manwl. Er enghraifft, nid yw Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cynnwys asesiad trylwyr o:

- i ba raddau nad yw anghenion awtistiaeth yn cael eu diwallu
- ystod a lefel gwasanaethau awtistiaeth sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion a nodwyd

[70] Felly, roedd rhywfaint o ddrysych ynghylch a ddylai unigolion awtistig fod yn aelodau o grwpiau strategol ai peidio.

- ystod a lefel gwasanaethau awtistiaeth sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen
- sut y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu darparu gan ystyried poblogaeth, diwylliant ac iaith gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg ([Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#))

Mae hyn, yn ei dro, yn golygu nad oes llawer o dystiolaeth bod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn llywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol ac arloesedd. Serch hynny, mae eithriadau i hyn, fel Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro a Gogledd Cymru.

Enghreiffiau o arfer da ac arfer sy'n dod i'r amlwg

Mae gan [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru](#) un o'r trafodaethau mwyaf cynhwysfawr ar awtistiaeth, er enghraifft mae'n cynnwys: trafodaeth ar wasanaethau awtistiaeth; data meintiol (er enghraifft, nifer yr unigolion awtistig); data ansoddol ar brofiadau pobl a'r hyn yr hoffent ei newid; dadansoddiad o faterion fel anghydraddoldebau; y Gymraeg; diogelu ac effaith y pandemig. Mae hefyd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Yng Nghaerdydd a'r Fro, bydd prosesau ar gyfer darparu cyngor a chyfeirio ehangach i bobl sy'n gofyn am gymorth yn cael eu hadolygu yn ystod 2025/26. Bydd hyn yn cynnwys GCCh, timau pwynt cyswllt cyntaf i oedolion a phlant yng Nghyngor Caerdydd, a gweithwyr cymorth NDd. Mae hyn yn bwysig o ystyried yr adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalmwy'r yng Nghaerdydd a'r Fro ar eu mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (a drafodir yn adran 8). Bydd yr adolygiad o'r cynnydd yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau'r BPRh ar gyfer 2025/26.

Fel y dengys Tabl 7.2, fel yn 2023, mae pob rhanbarth yn cydymffurfio â'r dyletswyddau ynghylch casglu data ^[troednodyn 71]; fodd bynnag:

- nid yw'r defnydd o'r data gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol i lywio penderfyniadau am ddatblygu gwasanaethau yn gyson
- fel yr amlinellir yn adrannau 3 i 6, mae gwybodaeth a goruchwyliaeth grwpiau strategol rhanbarthol o wahanol feysydd a gwmpesir gan y Cod yn dameidiog

[71] Mae gofynion y ddyletswydd yn cynnwys adrodd gan yr BPRh ar y defnydd o gronfeydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, y gwasanaeth NDd i blant yn darparu data amser aros i Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu data chwarterol i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol (drwy Data Cymru).

- mae gwybodaeth grwpiau am brofiad bywyd unigolion awtistig (er enghraifft, o gael mynediad at wasanaethau a chymorth) yn aml yn dameidiog ac yn anecdotaidd

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y dyletswyddau casglu data yn y Cod yn gul, ac mae gwendid yn y data a gesglir, gan gynnwys y bylchau yn y data am brofiadau bywyd pobl a dealltwriaeth amrywiol o ymarfer mewn gwasanaethau awtistiaeth gwahanol, yn cyfrannu at y gwendidau mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth. Heb gamau gweithredu i wella casglu a defnyddio data, ni fydd Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth na dealltwriaeth grwpiau strategol awtistiaeth a'u gallu i gynllunio'n strategol yn gwella.

8. Adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr

Cyflwyniad

Fel yr amlinellir adran 2, cwblhaodd ychydig dros 440 o oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig un o bedwar holiadur a ddosbarthwyd gan arolygon yn 2023 a 2024. Y rhain oedd:

- y prif arolwg yn 2024, a oedd yn agored i oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig
- arolwg Teuluoedd yn Gyntaf 2024 o rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig sy'n cael mynediad at Teuluoedd yn Gyntaf
- arolwg peilot Teuluoedd yn Gyntaf 2023 o rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig sy'n cael mynediad at Teuluoedd yn Gyntaf
- arolwg STAND 2023 o rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig sy'n cael mynediad at STAND yng Ngogledd Cymru

Rydym yn trafod eu hymatebion yn yr adran hon.

Fel y mae adran 2 hefyd yn amlinellu, nododd oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig a gwblhaodd un o'r pedwar holiadur arolwg hyn eu bod wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau gwahanol y sector gwirfoddol, ALI a BILI yn ystod y tair blynedd diwethaf. Felly, nid yw'n ymddangos eu bod yn grwpiau nad oeddent yn (neu ddim yn ceisio) cael mynediad at wasanaethau neu gymorth. Roedd y canlyniadau o bob rhan o Gymru hefyd yn gyson, gan awgrymu profiad cyffredin mewn gwahanol rannau o Gymru. Serch hynny, (fel yr amlinellir adran 2) nid yw'n bosibl barnu'n hyderus pa mor gynrychioliadol yw eu profiadau o'r holl oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig yng Nghymru.

Ymwybyddiaeth o'r Cod ac ymgysylltu ag ef

Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 8.1, roedd ymateb rhanedig iawn pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hymgysylltiad â'r Cod. Roedd bron pumed o'r 440 o ymatebwyr wedi darllen y Cod, sy'n awgrymu lefel eithaf uchel o ymgysylltu â'r Cod. Fodd bynnag, nid oedd bron hanner yr ymatebwyr wedi clywed am y Cod.

Tabl 8.1. Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth sy'n disgrifio orau yr hyn rydych yn ei wybod ynghylch Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru?' a 'Beth ydych yn ei wybod ynghylch Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru?'


	(Nifer)	(%)
Rwyf wedi'i ddarllen	82	19
Rwyf wedi clywed amdano	118	27
Nid wyf erioed wedi clywed amdano	208	47
Nid wyf yn siŵr / ddim yn gwybod	32	7

Ffynonellau: Prif Arolwg (2024) + Teuluoedd yn Gyntaf (2024), + Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023) + STAND (2023). Cyfanswm N= 440 o ymatebion

Mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth

Fel y dengys Siart 8.1 a Thabl 8.2, dywedodd bron 70% o'r ymatebwyr ei bod naill ai'n eithaf anodd neu'n anodd iawn cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. Fel y dengys Tabl A1 yn yr atodiad, roedd ymatebion i'r ddau arolwg llai a gynhaliwyd yn 2023 yn debyg ar y cyfan.

Siart 8.1. Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal chi?'



Disgrifiad o Siart 8.1: Siart bar sy'n amlinellu ymatebion i'r cwestiwn "Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal chi?". Mae mwyafrif yr ymatebion yn adrodd ei bod yn eithaf anodd neu'n anodd iawn.

Ffynhonnell: Prif Arolwg (2024) + Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024), N= 402 o ymatebion

Tabl 8.2. Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal chi?'

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Nifer)	Cyfanswm (%)
hawdd iawn	14	1	15	4
eithaf hawdd	59	5	64	16
eithaf anodd	133	14	147	37
anodd iawn	117	10	127	32
nid wyf yn gwybod neu nid wyf yn siŵr	45	4	49	12

Roedd sylwadau ysgrifenedig yn cefnogi hyn ac yn hynod o negyddol am fynediad at wybodaeth neu gymorth. Roeddent yn cynnwys y rhai a ddywedodd nad oedd llawer o gefnogaeth gan wasanaethau ALI neu BILI, gan eu gadael yn cael trafferth ac yn teimlo'n unig neu'n ynysig, er enghraifft roedd sylwadau'n cynnwys:

- 'nid wyf erioed wedi cael cynnig help'
- 'nid oes fawr ddim cymorth i unigolion awtistig yng Nghymru'
- 'nid wyf wedi gofyn ond yr unig gymorth gwirioneddol yw'r fforymau gyda rhieni eraill sy'n cael trafferth'
- '... mae'n cymryd llawer i estyn allan am help; ac yna pan nad oes neb yn dod yn ôl atoch mae'n peri gofid mawr'

Yn llai cyffredin, adroddodd ymatebwyr ei bod yn anodd nodi a deall y cymorth a oedd ar gael, er enghraifft:

- 'Mae cymaint o wahanol grwpiau ac asiantaethau a phob un yn honni cynnig rhywbeth gwahanol. Mae'n ddryslyd'
- 'Nid wyf byth yn gwybod beth sydd ar gael i ni, beth allwn ni a beth na allwn ei fynychu heb gael ein cyfeirio ato a pha wasanaethau sydd yno i'n cefnogi'
- 'mae'n anodd hyd yn oed i berson niwronodweddiadol!'
- 'mae'n ymddangos yn ddigyswllt ac yn anodd dod o hyd i unrhyw beth oni bai eich bod yn gwybod yn benodol beth rydych yn chwilio amdano'
- '....mae hyd yn oed dod o hyd i wybodaeth yn anodd, mae edrych ar-lein yn eich cyfeirio i sawl lle gwahanol ac mae'n rhwystredig ac yn gymhleth. Mae'n ymddangos nad oes

unrhyw gymorth, dim gweithio mewn partneriaeth, dim cydweithredu a diffyg truenus o wybodaeth am niwroamrywiaeth mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol’

Roedd nifer fach o sylwadau yn canolbwyntio ar yr anawsterau ymarferol a wynebwyd ganddynt wrth gael mynediad at wybodaeth a chymorth, o ystyried eu hamgylchiadau, er enghraifft:

- ‘rwy'n ymwybodol o Niwrowahaniaeth Cymru ac yn sicr yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd ar gael. Rwy'n ymweld â'r wefan yn aml i wyllo hyfforddiant/sesiynau ar-lein a darllen adnoddau. Wrth gwrs, mae'n anodd jyglo hyn â gwaith a gofalu am fy mhlentyn (a'r brawd/chwaer), nid wyf yn gallu mynychu sesiynau byw’
- ‘rwy'n rhagweithiol ac felly yn chwilio am wasanaethau. Anfonwyd rhywfaint o wybodaeth ataf ar gyfer cyrsiau ond nid wyf yn gallu mynychu oherwydd gwaith a phroblemau o ran gofalu am fy mhlentyn. Rwy'n cael mynediad at hyfforddiant ar-lein sy'n cael ei bostio ar wefan niwroddatblygiadol Cymru ac rwy'n gwylio gyda'r nos ond yn aml nid wyf yn gallu mynychu’

At hynny, fel y mae llawer o'r sylwadau a drafodir isod yn amlinellu, gwnaeth rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig neu weithiau oedolion, gysylltu'r anawsterau a wynebwyd ganddynt wrth ofalu ac ymdopi â'u trafferthion o ran dod o hyd i wasanaethau a chymorth. Teimlwyd y gallai hyn greu cylch dieflig a oedd yn anodd dianc ohono, er enghraifft:

‘Mae'n lle unig iawn i fod. Mewn argyfwng, cael pethau'n anodd, peidio â gwybod ble i droi a hyd yn oed pan fyddwch yn cyrraedd yno gyda diagnosis, nid ydych yn gwybod mewn gwirionedd pa gymorth y gallwch ei gael neu gael mynediad ato. Rhaid i chi fynd i chwilio a phan fydd ein bywydau yn llawn o'r holl bethau bach rydym yn eu gwneud o ddydd i ddydd i adael y tŷ, i geisio atal chwalfa, nid gennych amser i fod yn ymchwilydd hefyd.’

Mynediad at gymorth

Fel y dengys Tablau 8.3 ac 8.4, roedd adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant awtistig pan ofynnwyd iddynt pa mor hawdd oedd cael mynediad at gymorth yn negyddol iawn.

Tabl 8.3. Ymatebion gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant awtistig i'r cwestiwn: ‘yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at wasanaethau cyngor neu gymorth awtistiaeth, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?’

Prif Arolwg (2024) (nifer)	Prif Arolwg (2024) (%)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024) (%)

			(2024) (nifer)	
Hawdd iawn	5	2	8	2
Eithaf hawdd	31	8	45	13
Eithaf anodd	85	17	111	32
Anodd iawn	110	31	158	46
Nid oedd angen y cymorth hwn arnaf	11	3	25	7

Roedd sylwadau ysgrifenedig yn cefnogi hyn; roedd llawer ohonynt yn canolbwyntio ar y diffyg cymorth a/neu'r 'frwydr' i gael mynediad at gymorth, er enghraifft:

- 'mae popeth yn anodd. Ymladd a brwydro cyson. Mae'r ALL yn canolbwyntio ar arian yn unig sy'n amlwg yn broblem ond nid oes gan neb unrhyw fewnwelediad i sut y byddai gwario'r arian mewn ffordd ddoethach yn helpu yn y pen draw'
- 'mae pob peth bach wedi bod yn frwydr!'
- 'rwy'n ofalwr ac wn i ddim beth i'w wneud nesaf. Nid oes unrhyw gymorth yn dod heb i mi ei gychwyn a chyfrifoldeb y rhiant bob amser yw ymladd am gymorth. Mae'n teimlo fel brwydr gyson'
- 'Rwyf wedi gorfod ymladd bob cam o'r ffordd. Ar ôl diagnosis cafodd hi [fy merch] ei rhyddhau heb unrhyw gynllun wrth symud ymlaen a dim cymorth'
- yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall nid oes unrhyw wasanaethau awtistiaeth ar gael i ni'
- 'Nid wyf yn gwybod at bwy i fynd gan nad wyf wedi cael diagnosis swyddogol rwyf wedi fy ngadael ar fy mhen fy hun i (beidio) ymdopi'

Roedd rhai o'r sylwadau ysgrifenedig yn cysylltu eu trafferthion wrth gael mynediad at wasanaethau â rhestrau aros, y pwysau ar wasanaethau a/neu doriadau ariannol. Er enghraifft:

- 'Rwy'n teimlo bod y GIG wedi'i ymestyn i'r eithaf ac felly'n gadael y cyfrifoldeb i ysgolion. Os ydych yn ceisio cael mynediad at unrhyw beth i chi'ch hun neu'ch plentyn, mae'n aml yn cael ei wthio i un ochr fel mân bryder'
- 'nid yw'r cymorth yn bodoli! Mae rhestrau aros yn enfawr ac nid oes unrhyw wybodaeth am ble i geisio cymorth yn cael ei rhannu â rhieni pan fyddant yn aros i gael eu gweld!'
- 'gallwch erfyn am help a byddant yn dweud mae'n ddrwg gen i mae rhestr aros o 9 mis'

Roedd y diffyg cymorth hwn, a'r frwydr i gael mynediad at gymorth, yn golygu bod nifer o sylwadau yn disgrifio pobl sy'n profi blinder eithafol, a oedd mewn rhai achosion yn teimlo'n agos at anobaith, gan gynnwys ofnau y byddai'r teulu'n chwalu o ganlyniad i hyn. Er enghraifft:

- 'mae'r frwydr yr wyf wedi'i chael gyda fy ngŵr a'm mab am gymorth iddyn nhw yn annisgrifiadwy. Rwyf wedi teimlo fel lladd fy hun ac mae fy ngŵr wedi ceisio lladd ei hun. Nawr rydym yn mynd drwyddo gyda fy merch, oherwydd ei bod hi'n iau mae'n broses wahanol eto. Gall pob dydd fod yn her. Mae hyn yn ychwanegu at hynny. Fel tywallt petrol ar y tân'
- 'Rwy'n fam o'r UE [yr Undeb Ewropeaidd ^[troednodyn 72]], ar fy mhen fy hun gyda dau o blant awtistig, weithiau mae'n anodd iawn goroesi'r diwrnod. Pan fydd pethau'n mynd o'i le, nid yn unig mae'n rhaid i mi ymdrin ag anghenion fy mhiant ond rhagfarn pawb arall'
- 'mae'n anodd iawn iawn i'r pwynt ni allaf ymdopi â hyn mwyach ac rwy'n ystyried symud i ffwrdd o [hepgor enw'r ALI]'
- 'Mae'n system ofnadwy i blant. A dweud y gwir, mae wedi fy arwain at chwalfa feddyliol go iawn, oherwydd bod plant nad oes ganddynt unrhyw anawsterau dysgu yn syrthio drwy'r rhwyd, nid oes neb eisiau helpu ac rydych yn teimlo'n anobeithiol'
- 'Mae angen llawer mwy o gymorth ar rieni/gofalwyr nag sydd allan yna. Mae cymaint ohonom wedi ein hymestyn i'r eithaf sy'n golygu bod ein plant ar ffiniau gofal'
- 'mae mynediad at wasanaethau, help a hyd yn oed gwybod beth sydd allan yno yn anodd ac yn aml rwy'n teimlo fy mod yn boddi heb wybod at bwy mae angen i mi droi'
- 'Rwyf wedi diffygio, ar adegau rwy'n teimlo fel lladd fy hun ac mae angen gwasanaethau cymorth arnaf sy'n addas i'r diben. Mae'r gwasanaethau wedi'u tanariannu, yn brin o staff ac wedi'u llethu cymaint â'r gymuned awtistig. Cefais ddiagnosis hwyr yn fy 50au. Mae fy mhientyn sydd bellach yn oedolyn heb ddiagnosis yn ymwneud â chyffuriau ac yn gamdriniol. Mae eu plant allan o'r system ysgol ac o ganlyniad mae gwasanaethau yn anghofio amdanynt. Cyn belled nad ydynt yn effeithio ar gofrestr presenoldeb yr ysgol maent yn dod yn anweledig. Beth sydd wedi digwydd i ni?! Mae'n dorcalonnus ac yn anobeithiol'

Fodd bynnag, fel y mae'r dyfyniad olaf hwn yn dangos, mae hefyd yn bwysig nodi bod llawer o'r pryderon yn ymwneud â mynediad at gymorth mewn lleoliadau addysgol (nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cod) ac roedd llawer o'r disgrifiadau yn ymwneud â phlant a oedd yn derbyn addysg yn y cartref ^[troednodyn 73], o ystyried yr anawsterau yr oeddent wedi'u profi yn yr ysgol, ac roedd hyn wedi gadael rhieni hyd yn oed yn fwy ynysig ac unig. Mae hyn yn bryder pwysig ac yn rhannol y tu hwnt i gwmpas y Cod (nad yw'n cwmpasu addysg). Serch

[72] Dyma ein casgliad yn seiliedig ar y sylw. Credwn ei bod yn disgrifio ei statws fel mewnfudwr eithaf diweddar o un o wledydd yr UE.

[73] Mewn un rhanbarth, roedd yn drawiadol bod nifer o bobl wedi disgrifio tynnu eu plant o'r ysgol a'u haddysgu yn y cartref ac mewn rhai achosion ymddengys fod hyn wedi eu gwneud yn fwy ynysig.

hynny, fel y mae'r sylw ysgrifenedig hwn yn dangos, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y Cod yn amherthnasol, gan y gall iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fod â rôl o hyd:

Mae fy mhlentyn yn 8 oed, mae ganddo awtistiaeth ac ADHD. Nid yw wedi mynychu lleoliad ysgol ers 2 flynedd. Nid yw'r cymorth yn bodoli ac mae ei achos bellach wedi'i gau. Mae bywyd cartref yn eithaf anodd, y ffrwydradau, trais, brwydrau, iechyd meddwl yn dirywio, bod yn gaeth gartref, nosweithiau di-gwsg. Mae disgwyl i chi fwrw ati a dyna ni. Mae cymorth allan yno ond nid yw'n rhywbeth sy'n cael ei roi, a sut fel rhiant allwch chi gael y cymorth hwn os nad oes neb yn fodlon eich helpu????

Roedd nifer fach o sylwadau yn canolbwyntio ar y math o gymorth, yn hytrach na'r diffyg cymorth; er enghraifft: 'Nid grwpiau cymorth yw'r ateb i bob problem'.

Roedd nifer o'r sylwadau ysgrifenedig yn canolbwyntio ar y rôl bwysig yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod y sector gwirfoddol yn ei chwarae:

- 'mae'r sefydliadau gwirfoddol/elusennol yn wych yn yr ardal hon fel Stand Gogledd Cymru, gofalmwr ifanc NEWCIS a Daffodils'
- 'Y gwirfoddolwyr yn y grwpiau dan arweiniad rhieni yw'r gorau o bell ffordd o ran cyngor, cefnogaeth, gweithgareddau ac ati, o'i gymharu â'r GIG'
- 'Rwyf bob amser yn mynd i STAND Gogledd Cymru CBC am help gan eu bod yn gwybod am beth maent yn siarad'

Roedd sylwadau cadarnhaol achlysurol hefyd am wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol, er enghraifft:

- 'Rwy'n siarad â nyrs seiciatrig yn fy meddygfa sy'n hynod wybodus ac yn deall awtistiaeth. Rwyf wedi mynd i ddigwyddiad llesiant a drefnwyd gan yr NWIAS (roedd yn dda iawn), ac rwyf hefyd wedi cwrdd â rhywun o'r gwasanaeth i drafod sut y gallaf gefnogi fy mrawd awtistig'
- 'mae pethau wedi gwella yn y 12 mis diwethaf'
- 'Rwy'n ffodus gan fod fy mhlentyn yn derbyn cymorth drwy wasanaethau cymdeithasol ac yn cael asesiadau rheolaidd. Mae ei weithiwr cymdeithasol yn wych ac yn cadw llygad arno ef a minnau'
- 'Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth yn Abertawe yn ardderchog, maent wedi darparu cymorth caredig a chyson'

Mynediad at asesiadau diagnostig

Er na ofynnwyd cwestiwn penodol am fynediad at wasanaethau asesu diagnostig, roedd llawer o'r sylwadau ysgrifenedig yn cyfeirio at anawsterau wrth gael fynediad at wasanaethau asesu diagnostig, yn enwedig i blant, er enghraifft:

Roedd yn rhaid i ni dalu'n breifat am ddiagnosis cychwynnol oherwydd anallu'r GIG i wneud diagnosis effeithiol

Mae'r system ar gyfer atgyfeirio plant a rhoi diagnosis iddynt wedi torri. Ni allwch wneud i blentyn aros tair blynedd neu fwy am ddiagnosis. Mae'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol bwysig i blant a'r cyfleoedd hyn a gollwyd i'w cefnogi. Bydd hyn yn cael effeithiau pellgyrhaeddol a niweidiol ar blant yn y blynyddoedd i ddod. Mae diagnosis fy mab dair blynedd yn hwyr ac mae'n wynebu dyfodol ansicr yn mynd i'r ysgol uwchradd oherwydd yr oedi a'r diffyg help a chymorth. Mae awtistiaeth yn cael effaith ar y teulu cyfan, nid dim ond y plentyn dan sylw. Bydd rhai o'r effeithiau hyn yn para am amser hir, mae'r straen ar deuluoedd yn ddigynsail. Mae angen gwneud rhywbeth i drwsio'r hunllef hon o system yr ydym yn gorfod ei brwydro bob dydd.

Mynediad at wasanaethau cymdeithasol

Fel y dengys Tablau 8.4 i 8.6, roedd ymwybyddiaeth o hawliau i asesiad yn amrywiol.

Tabl 8.4. Ymatebion gan oedolion awtistig i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth arnoch gan y gwasanaethau cymdeithasol, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'

	Prif Arolwg (2024) (nifer)	Prif Arolwg (2024) (%)
Ydw	61	50
Nac ydw	51	42
Ddim yn siŵr	10	8

Tabl 8.5. Ymatebion gan rieni neu ofalwyr i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth ar eich plentyn/plant gan y gwasanaethau cymdeithasol, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'

	Prif Arolwg (2024) (nifer)	Prif Arolwg (2024) (%)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024) (nifer)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024) (%)
Ydw	155	22	177	52
Nac ydw	114	8	122	36
Ddim yn siŵr	39	4	43	13

Tabl 8.6. Ymatebion gan rieni neu ofalwyr i'r cwestiwn: 'a ydych yn gwybod, os gallai fod angen help neu gymorth arnoch gan y gwasanaethau cymdeithasol fel gofalwr, bod gennych hawl i gael asesiad o'r anghenion hynny?'

	Prif Arolwg (2024) (nifer)	Prif Arolwg (2024) (%)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024) (nifer)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024) (%)
Ydw	142	21	163	48
Nac ydw	135	11	146	43
Ddim yn siŵr	32	2	34	10

Roedd sylwadau ysgrifenedig yn canolbwyntio ar yr anhawster a brofwyd gan bobl wrth gael asesiad gofal cymdeithasol, er enghraifft:

- 'mae cael asesiad yn amhosibl'
- 'rwyf wedi aros dros flwyddyn ar ôl cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol am asesiad o anghenion, nid yw wedi digwydd eto!'
- Rwy'n gwybod y dylent fod yn [hawl]. Fodd bynnag, y ddau dro diwethaf rwyf wedi gofyn am asesiad rwyf wedi cael gwybod bodd ganddynt gapasiti i flaenoriaethu plant sydd â salwch terfynol neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd!!'
- 'Gofynnais am Asesiad Gofalwyr ychydig flynyddoedd yn ôl gan fod poster yn nerbynfa'r Ganolfan Gofalwyr. Fodd bynnag, dywedodd y fenyw a atebodd y ffôn nad ydynt yn eu gwneud. Fe'm trosglwyddodd i weithiwr cymdeithasol a wnaeth ddim byd ond dweud y dylid nodi ar gofnodion meddyg teulu fy merch mai fi yw ei gofalwr'

Ac, yn fwy cyffredin, roedd rhwystredigaeth gyda chanlyniad yr asesiad, er enghraifft:

Cefais asesiad o anghenion gofalwr ac asesiad cynllun gofal a chymorth - roedd y ddau yn ofnadwy. Dywedais wrth y gweithiwr cymdeithasol fy mod wedi diffygio cymaint fel fy mod yn teimlo fel lladd fy hun (a bod hyn wedi symud ymlaen i'r pwynt lle nad oeddwn yn siŵr pa mor hir y gallwn gadw fy hun yn ddiogel). Dywedodd wrthyf, gan nad oeddwn yn cam-drin fy mhlant, nid oedd dim byd yr oedd angen iddi ei wneud am hynny.

Yn aml, roedd y rhwystredigaeth hon yn gysylltiedig â'r teimlad nad oedd llawer o arian ar gael i ddiwallu eu hanghenion, er enghraifft:

- 'mae asesiadau yn cael eu gwneud i brofi nad oes angen cymorth arnoch, nid i helpu'
- 'NID OES ARIAN ar gyfer Taliadau Uniongyrchol - mae awdurdodau lleol heb yr un geiniog ac nid ydynt ymhell o fethdaliad'
- '....nid wyf yn credu bod gan wasanaethau'r amser, yr adnoddau, yr egni na'r staffio i ddiwallu'r angen hwn. Mae'n syniad gwych ond yn ymarferol nid yw'n realistig gyda sefyllfa bresennol gwasanaethau'

a/neu ddiffyg dealltwriaeth o awtistiaeth, er enghraifft: 'prin iawn yw'r ddealltwriaeth sydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o awtistiaeth'.

O ganlyniad, awgrymodd sylwadau ysgrifenedig, hyd yn oed pan oedd pobl yn ymwybodol o'u hawl i asesiad, eu bod yn teimlo bod hyn o werth cyfyngedig, er enghraifft:

- 'yn gyfreithiol mae hawl, ond nid oes cyllid ar gyfer cymorth gwirioneddol'
- 'nid wyf yn trafferthu oherwydd eu bod yn ddiwerth'
- 'ie, rwy'n gwybod bod gen i hawl, ond cymerodd 3 blynedd i gael asesiad gofalwyr'

Fel yr ydym yn cyfeirio ato yn adran 5, dywedodd nifer fach o bobl eu bod yn amharod i geisio cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â phlant, er enghraifft, roedd sylwadau'n cynnwys:

- 'ydw, rwy'n ymwybodol o'r hawl, ond yna mae yna hefyd y stigma ynghylch cyfranogiad gwasanaethau cymdeithasol'
- Rwy'n teimlo eu bod nhw'n cymryd rhan dim ond pan fyddwch yn gwneud rhywbeth o'i le fel rhiant. Nid ydynt yn hawdd mynd atynt yn yr un ffordd ag y mae gwasanaethau cymdeithasol oedolion ar gyfer cymorth'

Dyweddodd nifer fach o bobl nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at asesiad na sut y gallai gwasanaeth cymdeithasol helpu, er enghraifft:

- 'Nid wyf yn gwybod sut i ofyn am asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol'
- 'Nid wyf yn gwybod ble i ofyn am hyn ac rwyf wedi edrych ar-lein'

Serch hynny, roedd sylwadau cadarnhaol achlysurol, er enghraifft:

- 'mae gofal cymdeithasol wedi bod yn dosturiol ac yn ymatebol'
- 'mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn wych ac wedi darparu cymorth gwych'

Mynediad at asesiadau diagnostig a chymorth cyn ac ôl-ddiagnostig

Er na ofynnwyd cwestiwn penodol am fynediad at asesiadau diagnostig neu gymorth cyn neu ôl-ddiagnostig, mynegodd llawer o'r sylwadau ysgrifenedig bryderon am hyn, yn enwedig mewn perthynas â phlant. Roedd llawer o bryderon am fynediad cyfyngedig at gymorth i'r rhai sy'n aros am asesiad diagnostig, ac yn aml teimlwyd bod hyn yn golygu bod cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar yn cael eu colli, er enghraifft:

- atgyfeiriwyd ein merch am asesiad ASD o'r ysgol gynradd yn 2022. Cawsom sgrinio ar-lein ar ddechrau 2024 ond nid ydym wedi clywed unrhyw beth ers hynny. Mae wedi dechrau yn yr ysgol uwchradd ac mae pethau'n mynd yn anoddach'
- 'nid yw fy mab wedi cael diagnosis ar hyn o bryd, mae ar y llwybr. Mae'n wynebu llawer o heriau bob dydd, a ninnau hefyd fel teulu o ganlyniad i hyn. Rydym wedi ceisio dod o hyd i gymorth i hyn ond nid ydym wedi wynebu unrhyw beth ond rhwystrau oherwydd nad yw wedi cael diagnosis. Mae hyn yn gymaint o drueni, oherwydd pe bai fy mab yn cael y diagnosis, rwy'n teimlo y byddai'n ffynnu'
- 'mae'r asesiad NDd yn cymryd llawer rhy hir a phan fyddwch yn cael diagnosis yn y pen draw, nid yw'n newid unrhyw beth'

- cafodd fy nau blentyn ddiagnosis o awtistiaeth o fewn pythefnos i'w gilydd ddwy flynedd yn ôl ac nid ydym wedi cael unrhyw gynigion o gymorth, mae popeth rydym wedi'i gael rydym wedi gorfod chwilio ac ymladd amdano'
- 'prin iawn yw'r help a'r cymorth sydd allan yno i fy ngŵr a'm plant sydd i gyd yn aros am ddiagnosis asd [sic] ac sydd i gyd ag angen mawr am gymorth iechyd meddwl. Nid oes help i ofalwyr fel fi ychwaith, sy'n ceisio cefnogi a llywio hyn'

Mae'r sylwadau hefyd yn awgrymu bod llawer o rieni, a gofalwyr yn arbennig, yn dal i ddisgwyl y bydd diagnosis yn datgloi mynediad at wasanaethau a chymorth. Ar ôl aros blyneddau efallai am ddiagnosis ^[troednodyn 74], maent yn cael eu siomi'n fawr pan nad yw hyn yn digwydd.

Fel y nodwyd uchod, roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â diffyg cymorth mewn ysgolion (nad yw'n cael ei gwmpasu gan y Cod). Mynegwyd pryderon eang hefyd am y diffyg cymorth ôl-ddiagnostig, er enghraifft:

- 'rwy'n teimlo fel bod ein plentyn wedi cael ei golli yn y system. Ar ôl i chi gael diagnosis nid ydych yn cael eich cyfeirio at unrhyw wasanaethau a rhaid i chi wneud eich ymchwil eich hun'
- 'rwy'n teimlo ers diagnosis fy mhlentyn 2 flynedd yn ôl nad ydym wedi derbyn y cymorth sydd ei angen arnom fel teulu, heb sôn amdano ef, bron fel pe baem wedi cael diagnosis a dweud wrthym am fwrw ati'
- 'cawsom ddiagnosis ar ôl 2 flynedd ar y rhestr ond dim cefnogaeth wedi'i gynnig dim ond rhoi taflen i ni'
- 'fel rhiant plentyn ag awtistiaeth, pan wnaethom frwydro am asesiad, a chael diagnosis o'r diwedd, nid oedd unrhyw gymorth wedi hynny'

Mynediad at wasanaethau i bobl sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Fel y dengys tablau 8.7 ac 8.8, ymhlith rhieni a gofalwyr plant awtistig ac ymhlith oedolion awtistig a oedd angen cael mynediad at wasanaethau fel gwasanaethau iechyd meddwl neu anabledd dysgu, dywedodd dros 80% ei bod naill ai'n 'anodd iawn' neu'n 'eithaf anodd' gwneud hynny.

Tabl 8.7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'mae gan blant awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan wasanaethau fel iechyd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?'

[74] Dylid nodi, i lawer o rieni a gofalwyr, nad yw'r amser y maent yn teimlo eu bod yn aros yn cael ei gyfrifo o'r amser cyn iddynt gael eu derbyn ar restr aros ar gyfer asesiad diagnostig, gan y gallant gyfrif y cyfnod o amser yr oedd ganddynt bryderon, ond ni chafodd y rhain eu cydnabod, neu ni dderbyniwyd atgyfeiriadau am asesiad, fel rhan o'u hamser aros ([Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Chynllun Gweithredu Strategol Anhwylder Sbectrwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)).

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hawdd iawn	3	1	4	1
Eithaf hawdd	30	3	33	11
Eithaf anodd	72	12	84	27
Anodd iawn	103	31	134	44
Ni fu angen i mi gael mynediad at gyngor na chymorth	37	15	52	17

Tabl 8.8. Ymatebion i'r cwestiwn: 'mae gan oedolion awtistig anghenion eraill weithiau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, os oedd angen i chi gael mynediad at gymorth gan wasanaethau fel iechedd meddwl neu wasanaethau anabledd dysgu, pa mor hawdd oedd cael y cymorth hwn?'

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hawdd iawn	2	3	5	4
Eithaf hawdd	7	4	11	9
Eithaf anodd	15	14	29	24
Anodd iawn	22	29	51	42
Ni fu angen i mi gael mynediad at gyngor na chymorth	13	12	25	21

Roedd nifer fawr o sylwadau ysgrifenedig yn disgrifio pryderon ynghylch mynediad at wasanaethau iechedd meddwl i blant ac oedolion awtistig, a theimlad bod gwasanaethau dim ond yn hygyrch pan oedd anawsterau iechedd meddwl wedi gwaethygu i bwynt 'argyfwng'. Disgrifiodd sawl person fod gwasanaethau iechedd meddwl wedi 'torri', er enghraifft:

- 'Mae angen taro pwynt argyfwng i gael help. Fel arall, mae'n rhestr aros arall, cyfeirio i wefan neu daflen. Ni chafodd fy mab y cymorth brys yr oedd ei angen arno tan iddo ddod yn hunanladdol, dechrau hunan-niweidio a chael meddyliau cymhellol am niweidio eraill (niwed anhwylder gorfodaeth obsesiynol). Collodd 2 flynedd o addysg o ganlyniad i hynny.'
- 'rwyf wedi ceisio cael help dro ar ôl tro ar gyfer gorbryder ac iselder ofnadwy ers 2010. A heblaw am [enw rheolwr tîm Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi'i hepgor], mae'r cyfan wedi bod yn artaith ddigymorth, wedi'i gamreoli, ei gamddeall, ei gamddiagnosio a'i drafod yn wael.'
- 'Rydw i mor isel fy ysbryd am ein profiad [gyda gwasanaethau iechedd meddwl]. A'r gwir yw mai ein profiadau yw'r norm yn ôl pob tebyg. Mae'r system wedi torri'n llwyr.'
- 'Mae pawb rwyf yn siarad â nhw am eu profiad gyda Cahms [sic] yn negyddol.'

Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau iechedd meddwl a oedd yn cael eu hystyried yn amharod i, neu mewn rhai achosion yn methu gweithio gydag unigolion awtistig, er enghraifft:

- 'Es i o gwmpas mewn cylchoedd am amser hir gan fy mod o dan TIMC ac yn parhau i gael fy atgyfeirio at Wasanaeth Awtistiaeth Integredig ond ni fyddent yn fy ngweld gan fy mod o dan TIMC. Rwyf bellach yn mynd i'w hyb cyngor a chymorth y trydydd sector.'
- 'Mae gorbryder mewn awtistiaeth yn rhywbeth i'w ddisgwyl, rhywbeth i fyw gydag ef heb unrhyw gymorth. Roedd ein plentyn yn cael ei gefnogi gan iechyd meddwl sylfaenol ac yna daeth y cymorth i ben ar ôl diagnosis o awtistiaeth gan fod disgwyliad y byddem yn cael cymorth arall ar ôl diagnosis, ond ni wnaethom! Brwydr hir i gael ein hatgyfeirio i CAMHS, dim cymorth ar ôl yr asesiad cychwynnol, dim ond cyrsiau rhianta! Roeddwn eisoes wedi bod ar sawl cwrs rhianta, mae'n annheg disgwyl i rieni gefnogi plant heb gymorth. Brwydr arall i gael mwy o help gan CAMHS, rhestr aros hir ond yn y pen draw cynigiwyd therapydd nyrs sy'n dod i'r tŷ. Ni ddylai plentyn orfod brwydro am flynyddoedd heb gymorth a chyrraedd pwynt argyfwng cyn cael help. Mae angen dull llawer mwy rhagweithiol ac ataliol. Mae diffyg cymorth yn Gymraeg.'
- 'CAMHS: ymgynghoriad ar-lein nad oedd ein mab eisiau ei gyrchu gan fod ganddo orbryder am bobl newydd. Daethant i'r casgliad bod ei broblemau yn seiliedig ar awtistiaeth.'
- 'Wedi'i ryddhau gan y gwasanaeth iechyd meddwl gan na allwch gael gorbryder ac iselder os oes gennych awtistiaeth.'
- 'Roedd yn anodd cael mynediad at CAMHS cyn i fy mhlant gael diagnosis o awtistiaeth ac yna cawsant eu rhyddhau yn fuan ar ôl cael y diagnosis.'
- Gwrthodwyd cymorth cahms [sic] ar y sail bod fy merch yn awtistig 3 gwaith ac ni chafodd ei derbyn nes i'r a.s [sic] gymryd rhan.'
- 'Nid yw cymorth iechyd meddwl i oedolion awtistig yn bodoli.'

Codwyd pryderon hefyd, hyd yn oed os gallech gael mynediad ato, nad oedd y cymorth a gynnigir gan wasanaethau iechyd meddwl yn ddigonol, er enghraifft:

- 'Er bod CAMHS wedi bod yn gymharol gyflym i gefnogi'r hyn y gallant ei gynnig nid yw'n cyd-fynd â fy mhlentyn hyd yn hyn.'
- 'Mae dewislen 'CAMHS' o wasanaethau/therapiau yn methu cynorthwyo plant awtistig.'
- 'Nid yw gofal iechyd meddwl sy'n niwro[-]gadarnhau yn bodoli yn fy ardal i.'

Y prif sylw ysgrifenedig (cwyn) am wasanaethau AD oedd mai dim ond y rhai ag IQ isel sy'n gallu cael mynediad atynt, er enghraifft:


- 'Mae'r cyfan yn cael ei benderfynu gan IQ - cywilyddus.'
- 'Mae cael help i oedolion ag anableddau dysgu yn hunllef arall (rwy'n ofalwr i un ac nid yw 'cymorth' yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol yn bodoli). Nid yw'r tîm gwasanaethau cymdeithasol anableddau dysgu eisiau gwybod ac nid yw'r tîm gofal

oedolion eisiau gwybod ychwaith. Rydw i wedi bod ar y ffôn mewn dagrau yn erfyn am help ac wedi cael gwybod nad oes cyllid ar gael.'

Hyder yn ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff iechyd a gofal cymdeithasol

Fel y dengys Siart 8.2, roedd ychydig dros 70% o'r ymatebwyr 'ddim yn hyderus o gwbl' bod staff gofal iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eu bywydau. Fel y dengys Siart 8.3, roedd ymatebwyr yn fwy hyderus mewn perthynas â staff gofal cymdeithasol ond er hynny, roedd ychydig dros hanner 'ddim yn hyderus o gwbl' bod staff gofal cymdeithasol yn deall effaith awtistiaeth ar eu bywydau. Ceir rhagor o fanylion yn Nhablau 8.10 ac 8.11 ac yn Nhablau A3 ac A4 yn yr atodiad.


Siart 8.2. Ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'



Disgrifiad o Siart 8.2: Siart bar sy'n amlinellu'r ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'. Mae mwyafrif yr ymatebion yn adrodd eu bod "ddim yn hyderus o gwbl" i'r ddau ddatganiad.

Ffynhonnell: Prif Arolwg (2024) + Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024), N= 402 a 401 o ymatebion

Siart 8.3. Ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rianta yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'



Ffynhonnell: Prif Arolwg (2024) + Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024), N= 401 a 396 o ymatebion

Disgrifiad o Siart 8.3: Siart bar sy'n amlinellu'r ymatebion i'r cwestiynau: pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal ieched, fel meddygon teulu a nyrsys yn 'gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth' ac yn 'deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd'. Mae lluosogrwydd yr ymatebion yn adrodd eu bod “ddim yn hyderus o gwbl” i'r ddau ddatganiad.

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hyderus iawn	24	2	26	6
rhywfaint yn hyderus	120	15	135	34
Ddim yn hyderus o gwbl	214	17	231	57
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	10	0	10	2

Tabl 8.10. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr ieched, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?'

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hyderus iawn	34	2	36	9
Rhywfaint yn hyderus	61	7	68	17
Ddim yn hyderus o gwbl	263	25	288	72
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	8	0	8	2

Roedd sylwadau ysgrifenedig yn awgrymu problemau penodol wrth gael mynediad at wasanaethau ieched, a adlewyrchir yn eu sylwadau am addasiadau rhesymol (a amlinellir isod) a phryderon ynghylch gwybodaeth a dealltwriaeth staff ieched, a oedd yn ei dro yn cyfyngu ar eu mynediad at wasanaethau ieched fel deintyddion a meddygon teulu, er enghraifft:

- 'Mae'n anodd iawn gwybod â phwy i gysylltu. Roedd gennyf bryderon am arferion bwyta fy mab, er enghraifft, a siaradais â meddyg teulu. Roedd bron yn amhosibl cael apwyntiad a dim ond wedyn os oeddwn yn rhoi gwybod am golli pwysau. Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy ngwrthod fel rhiant gor-bryderus ac roeddwn eisiau rhywun i siarad â nhw a oedd yn deall sut mae awtistiaeth yn effeithio ar fwyta ac i roi rhywfaint o anogaeth sylfaenol iawn.'
- 'Rwy'n berson dosbarth canol gwyn, addysgedig a huawdl iawn, sy'n gyffredinol yn gallu llywio'r systemau sydd ar waith. Mae'r diffyg dealltwriaeth o awtistiaeth yng Nghymru yn y system gofal ieched yn fwy cyffredinol yn wael iawn ac rwy'n gorfod brwydro'n barhaus dros fy mhientyn a bod yn eiriolwr dros fy mhientyn. Rwy'n ofni meddwl sut mae pobl sy'n cyflwyno'n wahanol i mi neu sydd â rhwystrau iaith er enghraifft, yn ymdopi. Mae'n teimlo fel nad yw'r cod ymarfer yn bodoli yng Nghymru felly beth yw'r pwynt o gael un?'
- 'Yn fy mhrofiad i, mae gan y mwyafrif helaeth o staff gofal ieched syniad sefydlog a hen ffasiwn iawn o sut beth yw awtistiaeth.'
- 'Nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol meddygol a gofal cymdeithasol yn gallu cyfathrebu ag unigolion awtistig yn effeithiol'

Roedd yna hefyd lawer o sylwadau ysgrifenedig yn mynegi rhwystredigaeth nad oedd awtistiaeth yn cael ei deall gan staff gofal cymdeithasol, er enghraifft:

- ‘Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn deall bod dal angen cymorth ar bobl ag awtistiaeth uchel ond maent yn ei gyfyngu i'r lleiafswm moel ac yn gwneud iddynt gael trafferth gartref.’
- ‘Mae'n ymddangos bod anwybodaeth gyffredinol am awtistiaeth ac ADHD a'r problemau y mae'r ddau ohonynt yn eu hachosi bob dydd.’
- Rydw i bob amser wedi dod ar draws pobl sy'n fy niystyru, felly mae'n hynod o heriol ceisio “argyhoeddi” rhywun ac yn aml nid wyf yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf oni bai fy mod mewn trallod.’
- ‘Mae gan y tîm Anabledd Integredig yn [enw'r ALI wedi'i hepgor] staff nad oes ganddynt unrhyw hyfforddiant mewn niwroamrywiaeth.’
- ‘A bod yn hollol onest, rwyf bob amser wedi bod yn rhy nerfus i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd ofn na fyddant yn wybodus am niwroamrywiaeth.’
- ‘Prin iawn yw'r bobl yn y gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi cyflwyno unrhyw syniadau o gwbl’

Effaith net teimlo nad oedd staff yn deall awtistiaeth a'u bod yn gweithio mewn system a oedd wedi 'torri', o ystyried, er enghraifft, fel y dywedodd un person, ‘gwasanaethau cyfyngedig, cyllid gwael, dim ond ychydig o gymorth i blant, rhestrau aros annerbyniol’ oedd nad yw pobl sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau ‘yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn teimlo nad oes neb yn poeni amdanynt’.

Fodd bynnag, aeth sawl un o'r sylwadau ymhellach, gan fynegi'r farn bod y diffyg dealltwriaeth wedi arwain gweithwyr proffesiynol i ‘feio’ rhieni neu ofalwyr, er enghraifft:

- ‘Prin iawn yw'r ddealltwriaeth sydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o awtistiaeth, nid ydynt yn gweld awtistiaeth fel anabledd ac maent yn wahaniaethol iawn. Maent yn credu bod pob plentyn awtistig yr un peth! Mae sawl papur ymchwil ar awtistiaeth gan Cerebra a Luke Clements sy'n trafod Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n beio rhieni a Thrawma a Gynhyrchir gan Systemau.’
- ‘Mae sawl ‘gweithiwr proffesiynol’ wedi dweud bod ein plentyn yn ‘ystyfnig’! Rydym wedi cael ein syfrdanu gan y diffyg dealltwriaeth a'r safbwyntiau hen ffasiwn iawn gan weithwyr proffesiynol. Swm sylweddol o feio rhieni’

Serch hynny, gwnaed sylwadau cadarnhaol achlysurol hefyd, er bod y rhain yn aml wedi'u hamodi mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- ‘Mae rhai gweithwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol yn gwybod am awtistiaeth, yn deall anawsterau fy merch ac yn cynnig rhywfaint o arweiniad a chynghor da. Prin iawn yw gwybodaeth gweithwyr eraill ac rwy'n teimlo ein bod yn cael ein trin fel pe baem ar restr wirio ac nad oes unrhyw help na chynghor yn cael ei roi.’

- ‘Mae hyn [ymwybyddiaeth a dealltwriaeth] yn gwella ac mae gweithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau oedolion sy'n ceisio gwella eu dealltwriaeth ac mae eu hagweddau bendant yn newid. Fodd bynnag, mae rhai gweithwyr cymdeithasol o hyd, yn enwedig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, sydd ag agweddau a chredoau ystrydebol... Mewn gwasanaethau plant mae'n dibynnu'n fawr iawn ar y gweithwyr unigol ond mae diffyg gwybodaeth o hyd ac mae pobl yn dal i gredu bod y stereoteip a'r wybodaeth hen ffasiwn yn ffeithiol... er enghraifft, y syniad bod pawb ychydig bach yn awtistig. Mae awtistiaeth yn anabledd dysgu... nid oes gan bob unigolyn awtistig ddychymyg cymdeithasol’

Hyder bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad

Fel y dengys Tablau 8.11 ac 8.12, roedd ymatebwyr ychydig yn fwy hyderus bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad, ond hyd yn oed yma, roedd lluosogrwydd o ymatebwyr (tua 40 y cant) ‘ddim yn hyderus o gwbl’. Fel y dengys tablau A4 ac A5 yn yr atodiad, roedd hyn yn debyg i'r ymatebion yn 2023.

Tabl 8.11. Ymatebion i'r cwestiwn: ‘pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?’

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hyderus iawn	25	5	30	7
Rhywfaint yn hyderus	156	12	168	42
Ddim yn hyderus o gwbl	158	16	174	43
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	28	1	29	7

Tabl 8.12. Ymatebion i'r cwestiwn: ‘pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rianta yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?’

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)

Hyderus iawn	31	5	36	9
Rhywfaint yn hyderus	128	11	139	35
Ddim yn hyderus o gwbl	145	14	159	40
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	63	3	66	17

Prin iawn oedd y sylwadau ysgrifenedig ar atgyfeiriadau, gyda'r rhan fwyaf o sylwadau ar restrau aros, anawsterau o ran cael asesiadau neu fodloni trothwyon a'r diffyg cymorth, yn hytrach na diffyg gwybodaeth staff am sut i atgyfeirio pobl i'r cymorth hwnnw; er enghraifft, fel y dywedodd un person, 'rwy'n meddwl eu bod yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad ond yn oedi cyn gwneud hyn oherwydd y rhestrau aros hir'.

Serch hynny, roedd sylwadau weithiau'n tynnu sylw at enghreifftiau lle roedd atgyfeiriadau naill ai'n cael eu colli neu eu cam-adnabod neu oherwydd bod gwasanaethau wedi methu mewn rhyw ffordd (er enghraifft, collwyd gwaith papur, gwaith papur heb ei anfon ac ati), er enghraifft:

'Cymerodd amser hir cyn i'r pediatregydd atgyfeirio fy mhlentyn i Cahms [sic]. Roedd hyn yn gymaint o ryddhad ar ôl iddo gael ei wneud. Yna gwnaethant golli'r gwaith papur ar ôl i mi aros dros chwe mis i glywed ganddynt. Yna unwaith y dywedwyd wrthyf ei fod yn y system nid oeddent wedi dod o hyd i'r gwaith papur, felly roedd hyn yn dri mis arall. Yna, roedd yn rhaid i ni aros yr amser arferol am apwyntiad. Yn y cyfnod hwn roeddem mewn argyfwng. Yn y cyfamser aethom yn breifat. Beth pe ba baem wedi gwneud hyn? Byddem wedi bod mewn argyfwng fel teulu am ddwy flynedd, ni chafodd fy mab unrhyw addysg yn ystod y cyfnod hwn.'

Hyder pobl y byddai staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud addasiadau rhesymol

Fel y dengys Tablau 8.13 ac 8.14, nid oedd ymatebwyr yn gyffredinol yn hyderus y byddai staff gofal iechyd yn gwneud addasiadau rhesymol. Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr 'ddim yn hyderus o gwbl' a hanner yr ymatebwyr 'ddim yn hyderus o gwbl' y byddai staff gofal iechyd yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau awtistiaeth.

Tabl 8.13. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd?'

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hyderus iawn	14	0	14	3
Rhywfaint yn hyderus	85	8	93	23
Ddim yn hyderus o gwbl	248	25	273	68
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	21	1	22	5

Tabl 8.14. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rhianta yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau?'

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (Nifer)	Cyfanswm (Prif + Teuluoedd yn Gyntaf) (%)
Hyderus iawn	24	5	29	7
Rhywfaint yn hyderus	101	5	106	27
Ddim yn hyderus o gwbl	178	21	199	50
Ddim yn gwybod/ddim yn siŵr	63	3	66	17

Roedd sylwadau ysgrifenedig yn canolbwyntio'n arbennig ar wasanaethau iechyd fel meddygon teulu ac ysbytai ac ymddygiad staff, er enghraifft:

- 'Gall cael mynediad at apwyntiadau ysbyty fod yn lletchwith gan nad wyf yn teimlo bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ac mae'r amseroedd aros yn hir iawn'
- 'Mae'n dibynnu'n fawr pwy rydych yn ei weld ar y diwrnod. Rwyf wedi cyfarfod rhai aelodau staff hyfryd ond yn amlach na pheidio maent yn ymdrin â chi fel y byddent gyda

phlentyn niwronodweddiadol. Nid oes gan y rhan fwyaf o leoliadau gofal iechyd rwyf/rydym wedi'u cyrchu hyd yn oed y pethau sylfaenol fel ystafelloedd tawel, heb sôn am sicrhau bod ganddynt gynllun cyfathrebu ar waith, neu wneud addasiadau fel ymweliadau cartref er mwyn sicrhau bod y person yn teimlo'n gyfforddus'

- 'Nid oes unrhyw addasiad rhesymol wedi'i wneud. Rydw i wedi bod yn yr uned damweiniau ac achosion brys am dros 20 awr gyda dyn ifanc awtistig na all fod mewn grŵp o bobl ac yntau mewn cyflwr ymladd neu ffoi ac yn rhoi ei hun ac eraill mewn perygl'
- 'Nid ydym wedi gweld ystyriaeth o'r fath mewn unrhyw wasanaethau iechyd, ac os ydw i'n ceisio esbonio bod fy mhlant yn awtistig, rwyf naill ai'n cael fy ngwrthod a dywedir bod hynny'n amherthnasol i'r darparwr gofal iechyd neu maent yn esgus nad yw fy mhlant yno?!'
- 'Mae mynediad at iechyd yn gyffredinol yn anablu pobl niwrowahanol yn fawr iawn. Gorfod eirioli drosoch chi'ch hun, cyfleu gwybodaeth wyneb yn wyneb pan ofynnir i chi, mae lleoliadau clinigol yn hunllef synhwyrdd'

O ganlyniad, disgrifiodd rhai pobl sut roedd y methiant i wneud (yr hyn roeddent yn teimlo oedd yn) addasiadau rhesymol, fel newidiadau i'r amgylchedd synhwyrdd a/neu ddull cyfathrebu, yn cyfyngu ar eu mynediad nhw neu fynediad eu plentyn at ofal iechyd, er enghraifft:

- 'Oherwydd bod apwyntiadau wedi'u hamseru, yn aml nid oes amser i'm plant addasu i'r amgylchedd newydd sy'n aml yn frawychus. Nid oes llawer o ardaloedd, os o gwbl, sy'n ddigon tawel. Nid yw'n ymddangos bod ymarferwyr yn deall lefel y tynerwch sydd ei hangen na'r amser sydd ei angen i baratoi'r plentyn a sicrhau ei fod yn ddigon cyfforddus i gael triniaeth'
- Nid wyf wedi gallu cael mynediad at gymorth gan feddyg teulu ers 2019 pan adawodd Dr [enw wedi'i hepgor] fy mhractis. Ers hynny mae staff y dderbynfa wedi siarad â mi yn ffiiaidd, ac yn fy nhrin fel pe bawn yn blentyn / bod yn lletchwith'
- 'Mae gennyf gyflyrau iechyd cronig lluosog ond ni allaf gael mynediad at y cymorth meddygol cywir oherwydd ni fydd neb yn rhoi'r amser sydd ei angen arnaf i ddisgrifio fy nghyflyrau ac ni fydd fy meddyg teulu yn gwneud addasiadau rhesymol fel cyswllt drwy neges e-bost'
- 'Mae bod yn awtistig gyda gorbryder a mudandod dethol wedi bod yn rhwystr llwyr i fy merch i wasanaethau fel meddyg teulu, pediatregydd, therapi galwedigaethol, CAMHS oherwydd nad ydynt yn deall sut i wneud addasiadau rhesymol'

Gwnaed llai o sylwadau hefyd am fethiant staff gofal cymdeithasol i wneud addasiadau rhesymol, er bod y rhai a wnaed yn negyddol ar y cyfan, er enghraifft:

- 'Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn gallu helpu oherwydd eu diffyg profiad neu wybodaeth gyda phlant ag awtistiaeth'

- ‘Mae Gweithwyr Cymdeithasol ac Iechyd yn ymddangos yn gwbl anymwybodol nad yw personol niwroamrywiol o reidrwydd yn cyd-fynd â'u barn ystrydebol ar sut beth yw niwroamrywiaeth. Mae'n ymddangos bod timau wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer anableddau dysgu, ond mae hyfforddiant mewn awtistiaeth/niwroamrywiaeth yn druenus o annigonol, nid yw "ymwybyddiaeth o awtistiaeth" yn ddigon da’

Gwnaeth rhai pobl hefyd sylwadau am eu profiadau ehangach (nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig), er enghraifft:

‘Rwyf bob amser yn dweud wrth wasanaeth fy mod yn awtistig os oes rhaid i mi gael asesiad neu beth bynnag a byth yn cael ateb sy'n cynnig unrhyw fath o addasiad. Rhaid i chi wybod ac eirioli drosoch eich hun a gall hyn fod yn anodd iawn am nifer o resymau, gan gynnwys yr ochr weinyddol o gysylltu â phobl, peidio â theimlo fel baich neu fod yn “anodd” ac ati.’.

Serch hynny, roedd sylwadau cadarnhaol achlysurol hefyd, er enghraifft:

‘Mae meddyg teulu ein mab wedi bod yn cynnal apwyntiadau sy'n canolbwyntio ar y person gydag ef ers pan oedd yn 4 oed. Rwy'n ychwanegu unrhyw wybodaeth a gollwyd sy'n berthnasol, mae gan y meddyg teulu hwn berthnasau awtistig ond mae'n gwybod digon i beidio â chymryd yn ganiataol bod pob unigolyn awtistig yr un fath, mae'n hynod ofalgar ac yn gyson’.

Cael dweud eich dweud yn natblygiad gwasanaethau awtistiaeth

Fel y dengys Tabl 8.15, gwnaeth dros ddwy ran o dair o rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig a ymatebodd i'r cwestiwn: ‘a ydych yn credu bod rhieni neu ofalwyr plant awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?’, ateb na. Fel y mae Tabl 8.16 yn dangos, roedd cyfran yr oedolion awtistig a oedd yn teimlo eu bod yn cael dweud eu dweud yn natblygiad gwasanaethau awtistiaeth yn eu hardal yn uwch ar ychydig dros 50 y cant. Fodd bynnag, roedd cyfran yr oedolion nad oeddent yn gwybod (ychydig dros draean) hefyd yn uwch o'i gymharu ag ymatebion gan rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig.

Tabl 8.15. Ymatebion gan rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig i'r cwestiwn: ‘a ydych yn credu bod rhieni neu ofalwyr plant awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?’

	Prif Arolwg (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2024)	Arolwg Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (Nifer)	Cyfanswm (%)
Ydw	34	5	5	0	44	12

Nac ydw	228	21	19	2	270	71
Ddim yn gwybod	46	8	13	1	68	18

Tabl 8.16. Ymatebion gan oedolion awtistig i'r cwestiwn: 'a ydych yn credu bod oedolion awtistig yn cael dweud eu dweud o ran datblygu gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'

	Prif Arolwg (2024) (nifer)	Prif Arolwg (%)
Ydw	17	15
Nac ydw	57	51
Ddim yn gwybod	38	34

Awgrymodd sylwadau ysgrifenedig nad oedd llawer o hyder bod gan oedolion awtistig neu rieni neu ofalwyr plant awtistig gyfle i ddweud eu dweud yn natblygiad gwasanaethau awtistiaeth, er enghraifft:

- 'Nid ydynt yn gwrando cymaint ar rieni; maent bob amser yn gofyn am fy safbwyntiau ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn weithredol nac yn cael eu gweithredu'n effeithlon i greu darpariaeth ar gyfer fy mhlentyn. Rwy'n gweld bod arbedion costau yn cael blaenoriaeth dros anghenion plant yn [enw'r ALI wedi'i hepgor].'
- Rydym yn hysbys i'r awdurdod lleol a'r GIG [ond] erioed wedi gofyn i gymryd rhan. Rydym wedi cymryd yn y gorffennol ond roeddem yn teimlo nad oedd neb eisiau clywed beth nad yw'n gweithio a sut y gallai pethau fod yn well oherwydd costau'
- 'Pe baent yn [gwrando arnom ni] yna byddai llawer mwy o gymorth ar gael nag sydd yno'

Roedd ymatebion pobl yn aml yn cael eu llunio gan eu profiad personol o'r anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau (a oedd yn awgrymu nad oedd gwasanaethau yn gwrando arnynt nac yn ymateb iddynt), er enghraifft:

- 'Pe baent [wedi cael dweud eu dweud ar ddatblygu gwasanaethau] NI FYDDENT mor ofnadwy. Mae'r holl rieni plant awtistig rwy'n siarad â nhw wedi blino'n lân oherwydd y 'dreth gweinyddu anabledd' o gael nifer o achosion, prosesau a brwydrau anhygyrch i gael y cymorth i'w plant y mae'r gyfraith yn dweud bod ganddynt hawl iddo.'
- 'Nid wyf yn credu bod neb yn gwrando ar brofiadau bywyd teuluoedd'

Roedd sylwadau eraill yn adlewyrchu pesimistiaeth gyffredinol ynghylch a fyddai neu a allai pethau wella, hyd yn oed pe baent yn codi llais, er enghraifft:

- 'Rydych yn casglu barn ond mae'n ymddangos ei bod yn cael ei hanwybyddu ar ôl hynny'
- Rwy'n parhau i lenwi arolygon ond rwy'n amau y bydd unrhyw beth yn newid'
- 'Nid wyf erioed wedi gweld unrhyw beth, yn unman, heblaw am yr arolwg hwn sydd wedi gofyn am fewnbwn gan bobl niwroamrywiol'
- 'rwyf wedi bod yn eirioli dros newidiadau ers blynyddoedd. Nid oes neb yn gwrando.'
- 'Nid oes neb yn gwrando. Ac nid oes cyllid ar gael'
- 'Nid oes llawer o wasanaethau beth bynnag - felly nid oes llawer i ddylanwadu arno. Hefyd, nid wyf yn credu bod y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol mewn unrhyw gyflwr i wrando ar yr hyn a ddywedwn ar hyn o bryd a gweithredu arno. Maent jyst yn ceisio goroesi fel y mae felly nid yw'n amser da i wneud gofynion neu newidiadau mawr gan na ellir eu cynnal ac mae'r staff eisoes o dan ddigon o straen. Rwy'n credu'n onest bod ein gwasanaethau yn gwneud y gorau y gallant gyda'r hyn sydd ganddynt a bod y staff yn wych ond nid wyf yn credu bod ganddynt yr amser/egni/adnoddau i newid pethau mewn unrhyw ffordd fawr ar hyn o bryd'

Serch hynny, roedd nifer fach o sylwadau mwy cadarnhaol, er bod hyd yn oed y rhain yn tueddu i fod wedi'u hamodi mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- 'Rwy'n gynghorydd profiad bywyd gyda'r [enw'r gwasanaeth wedi'i hepgor] ac yn teimlo eu bod yn gwneud llawer i gynnwys pobl. Hoffwn pe gallwn wneud mwy pan ofynnir i mi.'
- 'Rwy'n credu bod rhieni rhagweithiol iawn sy'n cymryd amser i weithio eu ffordd i mewn i wasanaethau er mwyn dylanwadu arnynt ac adrodd eu stori, ond os yw siarad am yr heriau yn anodd, rydych yn cael eich gadael allan o'r sgwrs'

9. Asesu effaith debygol y Cod

Mae'r Cod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r tair blaenoriaeth a amlinellir yng [Nghynllun Gweithredu Strategol](#) Awtistiaeth 2016 :

- 'Asesu a Diagnosio'
- 'Diwallu Anghenion Cymorth'
- 'Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant' [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, t. 6\)](#)

Fel y mae'r cynllun yn esbonio, cafodd y blaenoriaethau hyn eu nodi 'mewn ymateb i'r hyn mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw' a'r 'themâu blaenoriaeth a chatau gweithredu allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion ag awtistiaeth' ([Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig](#)). Er nad yw'r gwerthusiad hwn wedi asesu'n systematig a yw'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaethau i blant ac oedolion awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr, mae gwerthusiadau ac adolygiadau blaenorol (gweler, er enghraifft, [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Chynllun Gweithredu Strategol Anhwylder Sbectrwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)) ac adborth gan randdeiliaid (gan gynnwys oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig, a drafodir yn adran 8), yn awgrymu eu bod yn parhau i fod yn flaenoriaethau. Felly gellir disgwyl i welliannau yn y meysydd hyn gyfrannu at sicrhau (fel y mae'r [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig](#) yn amlinellu) bod 'anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles ac i fyw bywydau llawn' ([Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, t.5](#)).

Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn adrannau 4 i 7:

- mae'r graddau y mae ALLau a BILI yn cydymffurfio â'r Cod yn amrywio
- mae'r graddau y gellir priodoli newidiadau mewn ymarfer i'r Cod yn amrywio'n sylweddol hefyd, gan fod cyflwyno'r Cod fel arfer dim ond yn un o ystod o ffactorau a gyfrannodd at y newidiadau a nodwyd, neu mae'r newidiadau'n rhagflaenu cyflwyno'r Cod

O ystyried y ddau gafeat pwysig hyn, mae'r gwerthusiad yn awgrymu, ar y cam hwn, bod y canlynol yn wir am y Cod ei hun yn y rhan fwyaf o ranbarthau:

- prin fu'r effaith ar fynediad at asesiadau diagnostig neu asesiadau gofal cymdeithasol (fel yn 2023)
- bu rhywfaint o effaith ar fynediad at wybodaeth a chyngor (yn wahanol i 2023, lle gwnaethom nodi mai prin oedd yr effaith), er bod angen rhagor o waith o hyd
- mae wedi cael effaith bwysig ar waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant (fel yn 2023), er bod angen rhagor o waith o hyd

- bu rhywfaint o effaith ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau (yn wahanol i 2023, lle gwnaethom nodi mai prin oedd yr effaith)

Mae cyfyngiadau'r Cod, sydd ond yn cwmpasu gwasanaethau cymdeithasol ac ieuchyd ac nid, er enghraifft, gwasanaethau addysg, cyflogaeth na thai, hefyd yn debygol o gyfyngu ar ei effaith ar fywydau pobl.

Yn yr un modd, mae'r gwerthusiad wedi defnyddio swm trawiadol o waith a wnaed gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol a staff BPRh wrth asesu cydymffurfiaeth a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau a gwendidau. Dylai hyn, mewn egwyddor, arwain at welliannau mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gwerthusiad hefyd yn tynnu sylw at welliannau pwysig ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn, er bod y gwerthusiad yn awgrymu mai prin neu ymylol fu effaith y Cod ar y gwelliannau hyn ar y cam hwn, er enghraifft:

- er bod y bwlch rhwng y galw a'r capasiti yn parhau i herio ac ymestyn gwasanaethau NDd a rhestrau aros yn parhau'n rhy hir, mae cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig) a chyllid y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, wedi helpu i gynyddu capasiti asesu diagnostig rhywfaint ^[troednodyn 75]
- mae cyllid y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth hefyd wedi cefnogi gwelliannau o ran mynediad at gymorth i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis, yn ogystal â symud tuag at weithredu'r fframwaith NYTH ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd
- mae GCCh, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a, lle maent yn cael cyllid, gwasanaethau wedi'u targedu at blant, oedolion awtistig a/neu deuluoedd ^[troednodyn 76] a gofawyr, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan y trydydd sector, wedi gwella mynediad at gymorth GCCh i blant a theuluoedd
- mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth ddarparu mynediad at wybodaeth a chymorth i oedolion awtistig nad ydynt yn gymwys i gael cymorth gan wasanaethau eilaidd (hynny yw, gwasanaethau AD ac ieuchyd meddwl); ar gyfer rhieni a gofawyr (er yr adroddir bod rhai Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig wedi lleihau'r cymorth y maent yn ei gynnig i rieni a gofawyr) ac, yn gynyddol, ar gyfer yr unigolion hynny sy'n aros am ddiagnosis neu nad ydynt wedi cael diagnosis
- mae'r Cod wedi codi proffil awtistiaeth ymhellach a'r pwysigrwydd a roddir iddo gan ALlau a BILI yn rhanbarthol ac mewn gwasanaethau ^[troednodyn 77]. Mae'r asesiad o gydymffurfio â'r Cod hefyd wedi tynnu sylw at feysydd sydd wedi cael eu hesgeuluso

[75] Fel y nodwyd, dywedodd rhanddeiliaid er bod y cyllid wedi cael ei groesawu'n fawr, mae oedi o ran rhyddhau cyllid ac anawsterau recriwtio staff wedi cyfyngu ar ei effaith.

[76] Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sydd, er enghraifft, yn cynorthwyo plant neu oedolion niwroamrywiol neu anabl (ac nid dim ond plant ac oedolion awtistig).

[77] Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid fod statws cyfreithiol y Cod yn helpu i sicrhau bod cydweithwyr mewn BILI ac ALlau yn rhoi sylw i hyn.

neu eu hanwybyddu'n rhy aml gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol, ac annog ymchwilio i'r meysydd hyn a myfyrio arnynt, fel:

- ymarfer mewn gwasanaethau fel gwasanaethau AD ac iechyd meddwl oedolion sy'n cynnal asesiad diagnostig awtistiaeth
- mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (heblaw am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig)
- mynediad at wasanaethau a chymorth i blant ac oedolion mewn sefydliadau diogel
- y rôl y mae pobl â phrofiad bywyd yn gallu ac y dylent ei chwarae wrth ddylunio a chyflwyno hyfforddiant a gwasanaethau

10. Casgliadau

Mynd i'r afael â nodau ac amcanion y gwerthusiad

Fel yr amlinellwyd yn adran 2, nod y gwerthusiad hwn oedd adolygu i ba raddau y mae'r dyletswyddau yn y Cod yn cael eu bodloni ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwelliannau o ran bodloni dyletswyddau'r Cod. Amcanion yr ail gam oedd:

- archwilio a yw'r argymhellion o ran bodloni dyletswyddau'r Cod a nodwyd yng ngham un wedi cael sylw a nodi unrhyw heriau y mae darparwyr gwasanaethau wedi'u cael wrth weithredu'r argymhellion
- asesu ymhellach i ba raddau y mae dyletswyddau'r Cod yn cael eu bodloni
- asesu a yw defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod a'i ddyletswyddau
- asesu a datblygu argymhellion pellach ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod

Mewn ymateb:

- rydym yn trafod y cynnydd y mae pob rhanbarth wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed ar ddiwedd cam un, a'u cydymffurfiaeth â'r Cod, yn adran 4 i 8, a'r rhwystrau a'r galluogwyr i gydymffurfio, yn adran 9
- rydym yn ystyried ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaethau o'r Cod a'u profiadau yn adran 8
- rydym yn asesu i ba raddau y mae'r Cod wedi gwneud gwahaniaeth i ddatblygu a darparu gwasanaethau awtistiaeth yn adran 9

Yn yr adran derfynol hon, rydym yn myfyrio ar y cynnydd a wnaed wrth gydymffurfio â'r Cod (gan gynnwys profiadau defnyddwyr gwasanaethau a galluogwyr a rhwystrau) ac effaith y Cod. Yn yr adran ganlynol (11) rydym wedyn yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod.

Cydymffurfio â'r Cod

Er bod y Cod yn ailddatganiad o ddyletswyddau presennol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf GIG Cymru (yn hytrach na chreu dyletswyddau newydd) mae'r gwerthusiad yn nodi bod ALLau a BILl yn dal i gychwyn ar y daith tuag at gydymffurfio'n llawn: ^[troednodyn 78], er enghraifft:

- mewn perthynas â rhannau o'r Cod, roedd rhanbarthau eisoes yn gyffredinol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod (ac nid yw'r Cod wedi cael fawr o effaith). Yr enghraifft gliriaf o hyn oedd mewn perthynas â dyletswyddau sy'n mynd i'r afael â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig drwy wasanaethau NDd plant a'r

[78] Mae hyn yn gyson â'r gwerthusiad diweddar o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Llywodraeth Cymru, 2023a).

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, lle, ac eithrio'r targed amser aros, roedd y rhanbarthau yn cydymffurfio'n gyffredinol

- mae'r asesiad rhanbarthol o gydymffurfiaeth (a gefnogir gan y gwerthusiad hwn) wedi tynnu sylw at feysydd sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu hanwybyddu gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol, ac annog ymchwilio iddynt, fel asesu diagnostig mewn gwasanaethau AD ac iechyd meddwl oedolion, a mynediad at ofal cymdeithasol mewn sefydliadau diogel. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi rhoi sicrwydd eto bod ALLau a BILI yn cydymffurfio â'r dyletswyddau yn y Cod, nac wedi nodi camau pellach y gallai fod eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth yn y meysydd hyn
- mae'r asesiad rhanbarthol o gydymffurfio hefyd wedi tynnu sylw at nifer o ddyletswyddau penodol yr oedd ALI a BILI:
 - yn cael trafferth eu bodloni yn 2024, yn fwyaf nodedig yr amser aros ar gyfer asesiad diagnostig plant. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adran 3, mae cynnydd yn cael ei wneud, a chyhoeddwyd buddsoddiad ychwanegol i gefnogi gostyngiadau pellach mewn amseroedd aros, ym mis Tachwedd 2024 ([Datganiad Ysgrifenedig: Lleihau Amseroedd Aros Hir \(17 Tachwedd 2024\)](#))
 - sydd (yn briodol) yn heriol (neu'n ymestynnol) iddynt, gan eu bod o bosibl yn ei gwneud yn ofynnol cael newid ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Yr enghreifftiau cliraf o hyn yw dyletswyddau fel y ddyletswydd i 'sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer unigolion awtistig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gfael ar wasanaethau fel pawb arall'
 - y maent yn anghytuno ynghylch yr hyn y maent yn ei ystyried yn arfer da, fel sefydlu paneli i ddarparu un pwynt mynediad at wasanaethau, neu arfer disgresiwn ynghylch a ddylid dweud wrth rywun bod ganddynt yr hawl i asesiad o anghenion os oes ganddynt anghenion gofal a chymorth, nid yw'r rhain o reidrwydd yn gyson â llythyren (neu destun) y Cod ac maent yn ei chael yn anodd cydymffurfio â'r rhain oherwydd eu bod yn groes i fodel a dull cenedlaethol; yn fwyaf nodedig, sefydlu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig fel gwasanaeth sy'n darparu cymorth i bobl sydd â diagnosis o awtistiaeth, gan fod hyn yn mynd ychydig yn groes i'r ddyletswydd ar ALau a BILI i 'sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill'. Er, fel yr amlinellwyd uchod, bod croeso i'r camau gweithredu a gymerwyd i agor cynnig cymorth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis, nid ydynt hyd yma yn darparu cymorth cyfartal i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis. Yn ogystal, nodwyd hefyd nad yw'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig gynnig cymorth cyn-ddiagnostig; yn hytrach, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau a BILI wneud hynny, drwy, er enghraifft, GCCh a mynediad at wasanaethau iechyd sylfaenol

At hynny, hyd yn oed pan fo grwpiau strategol rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr BILI ac ALI ar lefel digon uchel i lywio datblygiad y gwasanaeth, mae ehangder y meysydd polisi lle bydd angen newid yn sylweddol. Bydd angen ymgysylltu ag arweinwyr eraill ALI a BILI a

grwpiau strategol i 'brif ffrydio' awtistiaeth i bolisi ehangach, er mwyn trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys adolygu polisïau ac ymarfer o gydraddoldeb ac amrywiaeth i ddatblygu'r gweithlu. Gall symud i ffocws ehangach ar niwroamrywiaeth, a chynnwys, er enghraifft, ADHD, yn ogystal ag awtistiaeth, yng nghylch gwaith grwpiau strategol rhanbarthol, helpu i atgyfnerthu'r angen i symud y tu hwnt i ffocws ar gyflyrau unigol, i ddull sy'n canolbwyntio mwy ar wahaniaethau ac anghenion pobl.

Yn olaf, mae'n drawiadol bod ym mron pob maes a archwiliwyd, mae'r adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr yn llawer mwy negyddol nag asesiadau ymarferwyr o gydymffurfiaeth. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud cymhariaeth uniongyrchol, o ystyried yr ystyriaethau a amlinellwyd yn adran 2; er enghraifft, nid yw'n glir mor gynrychiadol yw eu profiadau o'r holl oedolion awtistig a/neu holl rieni a gofalwyr plant neu bobl ifanc awtistig. At hynny, yn rhannol ymddengys fod yr agweddau negyddol yn adlewyrchu anawsterau ehangach mewn gwasanaethau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cod (yn fwyaf nodedig addysg) a hefyd profiadau hanesyddol sy'n parhau i gymylu neu ddifetha canfyddiadau pobl o wasanaethau, ond nad ydynt efallai yn cynrychioli gwasanaethau heddiw yn llawn. Serch hynny, fel y mae adran 2 hefyd yn amlinellu, nid oes unrhyw awgrym nad yw eu hymatebion yn ddifffuant ac roedd y profiadau a adroddwyd ganddynt yn aml yn cael eu cydnabod gan randdeiliaid (er enghraifft, fel rhai sy'n gyson â data anecdotaidd ar brofiadau pobl). Felly, mae'n nodyn cryf o rybudd ynghylch effaith y cynnydd y mae ALLau a BILI yn ei adrodd a phwysigrwydd monitro a gwerthuso profiadau bywyd pobl o ryngweithio â gwasanaethau ALLau a BILI. Gall hyn hefyd dynnu sylw at flaenoriaethau gweithredu y tu hwnt i'r rhai a gwmpesir gan y Cod. Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi bod yr adborth yn cynnwys enghreifftiau o bobl â phrofiadau cadarnhaol. Mae dulliau fel ymchwiliad gwerthfawrogol, lle mae'r ffocws ar nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda ac adeiladu arno (yn hytrach na'r hyn nad yw'n gweithio'n dda), hefyd yn briodol i nodi sut y gellir cryfhau gwasanaethau a chymorth.

Mae mwy o ymgysylltu ag unigolion awtistig a'u rhieni neu ofalwyr drwy ddulliau cydgynhyrchiol hefyd yn debygol o fod yn bwysig. Gall hyn fod yn heriol a bydd angen adnoddau (er enghraifft, i sicrhau bod gan staff ddigon o amser i ymgysylltu â phobl). Serch hynny, gall fod yn hanfodol er mwyn helpu i bontio rhai o'r bylchau yr ymddengys eu bod yn bodoli rhwng gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau lle, er enghraifft, weithiau:

- ymddengys fod ymddiriedaeth wedi chwalu, lle mae pobl yn cael profiadau negyddol (gan gynnwys profiadau hanesyddol) a/neu wedi clywed am yr anawsterau y mae defnyddwyr gwasanaethau eraill wedi'u profi (sy'n llywio eu canfyddiadau o wasanaethau)
- Mae defnyddwyr gwasanaethau yn teimlo eu bod wedi'u camddeall, eu gadael a/neu mewn brwydr i gael mynediad at wasanaethau a chymorth
- nid yw disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau o'r hyn y gall ac y dylai gwasanaethau ei wneud yn cyd-fynd â'r hyn y gall gwasanaethau (fel y maent wedi'u cyflunio ar hyn o bryd) ei gynnig

Galluogwyr a rhwystrau i gydymffurfio

Fel yr amlinellwyd yn adran 8, mae effaith y Cod ei hun yn aml wedi bod yn gymharol fach. Mae hyn yn adlewyrchu cyfres o alluogwyr a rhwystrau ehangach sydd wedi cefnogi neu rwystro cydymffurfio. Fel yn 2023, mae'r ffactorau pwysig sydd wedi cefnogi cydymffurfiaeth (galluogwyr) yn cynnwys:

- proffil a grym cyfreithiol y Cod (er hyd yn oed yma, nodir bod y Cod weithiau'n cael ei ystyried yn fwy fel canllawiau yn hytrach na gofyniad statudol) a'r ffyrdd y mae wedi cefnogi unigolion a oedd yn flaenorol â'r angerdd i newid pethau, ond a oedd wedi gorfod dibynnu ar berswâd i ysgogi newid
- cyfres ehangach o bolisiâu a deddfwriaeth nad ydynt yn benodol i awtistiaeth ond sy'n cynorthwyo cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod a/neu yn gwneud hyn yn ofynnol, fel fframwaith NYTH (mewn perthynas â chymorth wrth aros am ddiagnosis); Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (er enghraifft, mewn perthynas â mynediad at wasanaethau GCCh ac asesiadau gofal cymdeithasol) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (mewn perthynas ag addasiadau rhesymol)
- cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth cenedlaethol fel gwasanaethau NDD plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac, yn fwy diweddar, cymorth cyllid ychwanegol gan y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth
- y cymorth gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol/Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, yn enwedig o ran hyfforddiant ac adnoddau

Fel yn 2023, mae'r prif ffactorau sydd wedi rhwystro cydymffurfiaeth (rhwystrau) yn cynnwys:

- ehangder, cymhlethdod a strwythur y Cod sy'n gallu, er enghraifft, canolbwyntio sylw ar ddyletswyddau unigol ar wahân i'w gilydd, yn hytrach na'r system gyfan, a gall hyd yn oed gysgodi neu gymryd lle ffocws ar flaenoriaethau eraill (fel camau gweithredu mewn perthynas ag addysg, nad yw'n cael ei chwmpasu gan y Cod). Mae cymhlethdod y Cod hefyd yn gwneud asesu cydymffurfiaeth yn heriol, gan wneud blaenoriaethu yn anodd (er enghraifft, pan fydd 'dangosfyrddau' yn cael eu llenwi â 'goleuadau' coch neu oren, gan nodi achosion o beidio â chydymffurfio ^[troednodyn 79]), a gall annog yr hyn a ddisgrifiwyd gan rai rhanddeiliaid fel dull 'ticio blychau' o gydymffurfio ^[troednodyn 80]
- yn gysylltiedig â hyn, weithiau mae wedi bod yn anodd cael yr holl randdeiliaid i ymgysylltu ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed nodi mewn ALIau neu BILI pwy sydd â chyfrifoldeb am ddyletswyddau penodol

[79] Mae nifer o ranbarthau wedi defnyddio sgôr RAGG i greu taenlenni sy'n amlygu meysydd o beidio â chydymffurfio.

[80] Er enghraifft, mynegodd rhanddeiliaid bryderon na fydd newidiadau mewn prosesau gwasanaethau i sicrhau cydymffurfio ar bapur, o bosibl yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fywydau unigolion awtistig na'u rhieni a'u gofawyr.

- y pwysau ariannol y mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i lefelau uchel o alw a chyfyngiadau ar eu capasiti, gan gynnwys problemau o ran recriwtio a chadw staff, sy'n gallu annog gwasanaethau i droi tuag at i mewn a chanolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei ystyried fel eu rôl 'graidd'. Gall hyn danseilio arweinyddiaeth systemau ^[troednodyn 81] a gall ei gwneud yn heriol blaenoriaethu camau i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Cod (pan fydd gwasanaethau'n wynebu blaenoriaethau eraill sy'n groes i'w gilydd sy'n mynnu sylw ac adnoddau)
- yn gysylltiedig â hyn, adroddwyd bod natur tymor byr rhywfaint o gyllid, fel rhywfaint o arian y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, ac oedi wrth gadarnhau cyllid, yn cyfyngu ar gwmpas BPRh i ddefnyddio'r arian mor effeithiol ag y byddent yn dymuno
- gwendid mewn arweinyddiaeth a chydlynu rhanbarthol lle, er enghraifft, y cafwyd oedi neu lle nad yw uwch unigolion neu grwpiau wedi cymryd cyfrifoldeb am asesu cydymffurfiaeth a nodi'r camau gweithredu gofynnol

Effaith y Cod

Fel y mae adran 9 yn amlinellu, mae'r Cod yn dechrau gwneud gwahaniaeth mewn meysydd fel darparu gwybodaeth i oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig, a chynllunio rhanbarthol. Serch hynny, dangosir maint yr her sy'n wynebu ALLau, BILL a BPRh yn amlwg gan brofiadau sy'n aml yn ofidus oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig wrth ryngweithio â gwasanaethau (a drafodir yn adran 8). Mae eu hanesion hefyd yn tynnu sylw at yr angen am weithredu y tu hwnt i ddyletswyddau presennol y Cod, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd mewn meysydd y tu hwnt i'r Cod presennol, yn fwyaf nodedig addysg yn achos rhieni a gofalwyr ac, i raddau llai, cyflogaeth mewn perthynas ag oedolion awtistig ^[troednodyn 82].

[81] Gall hyn atal arweinyddiaeth systemau, drwy atal arweinwyr rhag cydweithio ac ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol. Gall hefyd annog beio profiadau gwael unigolion awtistig ar rannau eraill o'r system, fel methiannau neu wendidau gwasanaethau eraill, yn hytrach nag annog gweithredu ar y cyd i wella profiadau unigolion awtistig.

[82] Mae'n debygol nad oedd y mater hwn yn ymddangos yn fwy amlwg oherwydd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi'u gofyn am gyflogaeth. Fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth o ymchwil arall sy'n tynnu sylw at y rhwystrau y mae oedolion awtistig yn eu hwynebu mewn perthynas â chyflogaeth (gweler, er enghraifft, [The Buckland Review of Autism Employment: report and recommendations](#)).

11. Argymhellion ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod

Argymhellion ar gyfer ALLau a BILI

Mae cyfres o argymhellion wedi'u gwneud i bob ALL a BILI i fynd i'r afael â meysydd penodol lle nad ydynt yn cydymffurfio neu lle nad oes digon o dystiolaeth i farnu cydymffurfio â'r Cod. Yn bwysig, mae'r adborth gan oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr plant awtistig a drafodir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod profiadau a chanlyniadau gwael yn aml yn cael eu deall orau fel methiannau neu wendidau systemig, yn hytrach nag fel methiannau i fodloni dyletswyddau unigol. Mae hyn yn awgrymu bod angen ymateb ar draws systemau, ac y gall adolygu dyletswyddau unigol olygu bod y gydberthynas rhwng gwahanol ddyletswyddau yn cael ei cholli.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar:

- cynllunio a chomisiynu: cryfhau rôl grwpiau strategol rhanbarthol, grwpiau gweithredol a hyrwyddwyr awtistiaeth, cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd ac offer cynllunio fel Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, er mwyn:
 - nodi ymarfer da (yn eu rhanbarth eu hunain a rhanbarthau eraill) y gellir ei gynyddu a/neu ei rhannu^[troednodyn 83]
 - gwella'r gwaith o graffu ar ymarfer sydd wedi'i anwybyddu neu ei esgeuluso gan grwpiau strategol rhanbarthol (er enghraifft, mewn perthynas ag asesiadau diagnostig mewn gwasanaethau AD ac iechyd meddwl oedolion) a, lle bo angen, nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau neu wendidau
 - sicrhau bod dull ar draws systemau o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth, sy'n cael ei lywio gan well data ar arferion gwasanaethau a phrofiadau unigolion awtistig, yn helpu i sicrhau bod adnoddau (gan gynnwys cyllid ychwanegol fel y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth) yn cefnogi arloesedd a datblygu gwasanaethau arbenigol (lle bo angen) ac yn helpu i 'brif ffrydio awtistiaeth' o fewn datblygu polisi ehangach
- codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant: sicrhau bod awtistiaeth yn cael ei hystyried mewn dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant y gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gydgyhyrchu cynlluniau hyfforddi i fynd i'r afael â bylchau a diffygion a nodwyd mewn sgiliau, gwybodaeth, profiad a/neu hyder staff; a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd hyn
- gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau, a mynediad atynt: cryfhau'r gwaith o fapio a nodi gwasanaethau awtistiaeth ym mhob ardal a, lle y bo'n berthnasol, y llwybrau i gael mynediad at y gwasanaethau hyn a gwella'r broses o rannu'r wybodaeth hon. Mae'n debygol y bydd angen ystod o ddulliau a phartneriaid i estyn allan i ymarferwyr, unigolion

[83] Er enghraifft, amlygodd rhai rhanddeiliaid ddiffyg enghreifftiau o ymarfer da fel cyfyngiad, a'r aneffeithlonrwydd posibl pe bai pob rhanbarth yn datblygu ei ddull ei hun o hyfforddi, er enghraifft.

awtistig a'u rhieni neu ofalwyr, fel gwefannau, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, Cysylltwyr Cymunedol, Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, gwasanaethau anabledd plant ac oedolion, lleoliadau addysgol (fel ysgolion, colegau a phrifysgolion), sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau a rhwydweithiau rhanddeiliaid a swyddogion awtistiaeth

- gwella mynediad at wasanaethau diagnostig: cymryd camau i fynd i'r afael â heriau galw-capasiti sy'n wynebu gwasanaethau NDd gan ddefnyddio'r [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#) (Llywodraeth Cymru, 2023a) a'r adolygiad diweddar o wasanaethau NDd plant a gynhaliwyd gan Uned Gyflawni'r GIG

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae'r gwerthusiad o effaith y Cod, gan gynnwys terfynau ei effaith debygol neu bosibl mewn meysydd fel addysg, nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cod, a'r galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu a nodwyd gan yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru wrth ystyried y Cod Ymarfer arfaethedig ar Wasanaethau Niwroddatblygiadol. Er enghraifft, wrth ystyried:

- sut y gellir codi ymwybyddiaeth a phroffil o'r Cod ymhlith unigolion awtistig a'u teuluoedd (o ystyried y lefelau cymharol fach o ymwybyddiaeth a nodwyd yn yr arolygon o unigolion awtistig a rhieni neu ofalwyr plant awtistig, a drafodir yn Adran 8) gellid ystyried gweithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd i nodi'r ffordd orau o gyfathrebu'r negeseuon pwysicaf. Er enghraifft, gallai hyn fod drwy ddogfennau fel [Taflen ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd: beth mae cod ymarfer awtistiaeth yn ei olygu?](#) a/neu fathau eraill o gyfryngau fel fideos neu bodlediadau
- sut i annog ymateb system gyfan, drwy ddyletswyddau sy'n aml yn canolbwyntio'n gul ar un rhan fach o'r system, gellid cryfhau'r dyletswyddau presennol yn adran 4 o'r Cod, sy'n canolbwyntio ar 'Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid', sy'n annog safbwynt ar draws systemau
- sut y gall ffrydiau cyllido fel y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, y Gronfa Integreiddio Ranbarthol a chynghor, cymorth a her gan Dîm Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol annog a chefnogi newid ar draws systemau, gan gynnwys:
 - parhau i gefnogi'r gwaith o rannu ymarfer drwy, er enghraifft, ariannu a hwyluso digwyddiadau (fel y digwyddiad yn 2024 yn canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau niwroddatblygiadol), rhwydweithiau a chymunedau ymarfer. Gallai'r rhain fod yn arbennig o werthfawr wrth ddatblygu ymarfer mewn meysydd fel sefydliadau diogel, lle mae bylchau a diffygion ledled Cymru, ac efallai y bydd awydd am ddatblygu model cenedlaethol, yn hytrach na chyfres o fodelau rhanbarthol
 - nodi a oes galw am arweinyddiaeth genedlaethol wrth ddatblygu dulliau newydd (e.e. mewn perthynas â llwybrau asesu diagnostig ac ehangu'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag asesiadau diagnostig neu fformwleiddiadau

[troednodyn 84]). Mae'n debygol y bydd partneriaid, fel Gweithrediaeth y GIG, yn chwarae rhan bwysig yn hyn

- datblygu modelau ac offer y gellir eu defnyddio ledled Cymru, fel [Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol](#) y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a deunyddiau hyfforddi
- symud o ymrwymadau cyllido tymor byr (blwyddyn) i dymor canolig (tair blynedd a mwy), er mwyn cefnogi newid o beilotiaid a phrosiectau i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy
- integreiddio gofynion adrodd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, ac unrhyw ofynion adrodd yn y dyfodol ar gydymffurfio â'r Cod, ag adolygiadau Llywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol BPRh [troednodyn 85], asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal
- archwilio sut y gellir prif ffrydio awtistiaeth (a niwroamrywiaeth yn ehangach) yn fwy effeithiol wrth gyflwyno polisïau ehangach, fel [fframwaith NYTH](#), y [rhaglen trawsnewid ADY](#); y [strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol 2025 i 2035](#) a rhaglenni cymorth rianta fel Teuluoedd yn Gyntaf
- egluro'r rolau y disgwylir i hyrwyddwyr awtistiaeth rhanbarthol, grwpiau strategol a gweithredol rhanbarthol, grwpiau rhanddeiliaid lleol ac arweinwyr ASD lleol eu cael wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod, a sut y gall y gwahanol grwpiau a'r rolau hyn ategu ei gilydd orau
- ystyried sut y gellir symleiddio'r Cod NDD newydd (o ystyried y ffordd y daeth nifer y dyletswyddau yn y Cod awtistiaeth yn rhwstr i gydymffurfio); ei symleiddio (o ystyried yr amwysedd ynghylch yr hyn sy'n ofynnol gan rai dyletswyddau, neu mewn rhai achosion tensiynau rhwng yr hyn sy'n cael ei ystyried yn arfer da a'r hyn y mae'r Cod troednodyn⁸⁶ neu ganllawiau eraill yn ei wneud yn ofynnol troednodyn⁸⁷) a'i ailstrwythuro (o ystyried y ffordd y mae dyletswyddau sy'n cysylltu'n agos â'i gilydd yn aml yn ymddangos mewn gwahanol rannau o'r Cod, yn hytrach na chael eu grwpio gyda'i gilydd)

[84] Mae fformiwleiddiad wedi'i ddiffinio fel esboniad neu ragdybiaeth dros dro o sut mae unigolyn yn cyflwyno gydag anhwylder neu amgylchiad penodol ar adeg benodol mewn amser. ([Formulation: A Multiperspective Model](#), t. 351).

[85] Mae'r Cod presennol yn amlinellu y 'bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gyflawni'r cynllun ardal rhanbarthol gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r gofynion yn y Cod hwn'. Fodd bynnag, fel y mae'r gwerthusiad hwn yn amlinellu, mae dealltwriaeth BPRh o gydymffurfiaeth yn aml yn dameidiog.

86 Er enghraifft, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol 'Sicrhau nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra' ar gyfer gwasanaethau iechyd (t. 22), tra bod gwasanaethau AD yn aml yn adrodd defnyddio IQ fel un o'u meini prawf cymhwysra. Gwelwyd hefyd bod anghymhwysra ar gyfer gwasanaethau AD yn un o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

87 Er enghraifft, un o'r 'Egwyddorion' yn y [Canllaw Cefnogol](#) ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yw 'Ac eithrio'r asesiad diagnostig o oedolion, dim ond y rhai sydd wedi cael diagnosis ffurfiol o awtistiaeth all droi at y gwasanaeth'. Er, mae'r canllaw hefyd yn ei gwneud yn glir y 'gall y Gwasanaeth weithio gydag oedolion ar eu rhestr aros am Asesiad Diagnostig' (t. 6), mae hyn yn dal i fynd yn groes i'r ethos na ddylai fod angen diagnosis i gael mynediad at wasanaethau a chymorth.

Wrth edrych ymlaen at y Cod NDd arfaethedig, mae'n nodedig bod y [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#) (presennol), yn cynnwys cymysgedd o ofynion proses a chanlyniadau.⁸⁸ Er enghraifft, yn Adran 1, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol:

- ALLau a BILI i 'Ddynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant, pobl ifanc ac oedolion. 13). Mewn gwirionedd, mae'r Cod yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ALLau a BILI ei wneud, heb nodi canlyniad hyn
- BILI i 'Gydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol ar gyfer asesu a diagnosis' (t.. 12). Mewn gwirionedd, mae'r Cod yn nodi'r canlyniad sy'n ofynnol (hynny yw, cydymffurfio â'r safon amseroedd aros) heb nodi sut i gyflawni'r canlyniad hwn

Mae pob dull yn cynnig cryfderau. Er enghraifft:

- gall canolbwyntio ar ofynion proses ddarparu mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i ALLau a/neu BILlau ei wneud a gall anelu at alluogi amrywiaeth o ganlyniadau neu gyfrannu atynt. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd i 'Ddynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig' yn darparu'r sail ar gyfer cyflawni nifer o ddyletswyddau eraill
- mae canolbwyntio ar ganlyniadau, yn darparu mwy o hyblygrwydd i fynd i'r afael â chyd-destunau lleol a hefyd yn canolbwyntio mwy ar y canlyniad a fwriedir. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd i 'gydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol', yn rhoi rhyddid i BILI a gwasanaethau NDd ddatblygu dulliau gwahanol ac yn eu hannog i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd yr hyn y maent yn ei wneud

Mewn cod NDd yn y dyfodol, rydym yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei roi i a yw canlyniad penodol a ddymunir yn cael ei gyflawni orau drwy:

- fynegi'n uniongyrchol ac yn glir yr hyn y mae'n rhaid i ALLau a BILI ei wneud (gan ddefnyddio gofynion prosesau) a/neu
- fynegi'n uniongyrchol ac yn glir y canlyniadau y mae'n rhaid i ALLau a BILI eu cyflawni (gan ddefnyddio gofynion canlyniadau), a lle bynnag y bo modd, amlinellu sut y dylid mesur y canlyniad a ddymunir. Lle bynnag y bo modd, rydym yn awgrymu bod y rhain yn seiliedig ar fesurau canlyniadau presennol neu wedi'u cynllunio, fel y rhai a gynigir ar gyfer y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth

Mewn llawer o achosion, efallai y bydd yn briodol cynnwys gofynion proses a chanlyniadau. Mae gofynion proses yn debygol o fod yn briodol lle mae sylfaen

⁸⁸ Yn y cyd-destun hwn, mae gofynion 'proses' yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'n rhaid i ALI a/neu BILI ei wneud, ac mae gofynion 'canlyniadau' yn canolbwyntio ar y canlyniadau neu'r nodau terfynol y mae angen eu cyflawni. Gall y gwahaniaethau rhwng y ddau fod yn aneglur. Er enghraifft, gellid dehongli'r ddyletswydd yn adran 1 o'r Cod 'pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol' fel un sy'n canolbwyntio ar brosesau, o ystyried y gofyniad i wneud atgyfeiriadau, ond nid yw'r ddyletswydd yn nodi sut y dylid gwneud yr atgyfeiriadau, a gallai sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud, hefyd gael ei ddehongli fel canolbwyntio ar ganlyniad.

dystiolaeth gref o'r hyn sy'n gweithio a chonsensws ar yr hyn y dylid ei wneud neu sut y dylid ei wneud. I'r gwrthwyneb, mae gofynion canlyniadau yn debygol o fod yn briodol lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn wannach ac mae llai o gonsensws ar yr hyn y dylid ei wneud neu sut y dylid ei wneud, er mwyn cyflawni'r canlyniad a ddymunir.

O ystyried yr amwysedd ynghylch yr hyn sy'n ofynnol gan rai o'r dyletswyddau yn y Cod Awtistiaeth presennol (mater sy'n cael ei drafod yn Adran 2), bydd bod mor glir ac uniongyrchol ynghylch yr hyn sy'n ofynnol, yn bwysig mewn Cod NDd yn y dyfodol. Dylai hyn anelu at wella cydymffurfiaeth a'i gwneud yn haws archwilio cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

12. Llyfryddiaeth

David, A.S. a Deeley, Q. (2024) 'Dangers of self-diagnosis in neuropsychiatry', *Psychological Medicine*, Cyfrol 54, Rhifyn 6, tudalennau 1057 i 1060

Atodiad A. Data Arolwg Ychwanegol

Tabl A1. Ymatebion i'r cwestiwn: 'a yw'n hawdd cael gwybodaeth am y gwasanaethau awtistiaeth yn eich ardal?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfansw m (%)
Ydy	3	1	4	13
Nac ydy	16	2	18	58
Rwy'n ansicr	9	0	9	29

Tabl A2. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr ieched, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod beth yw arwyddion awtistiaeth?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	8	0	8	20
ychedig bach yn hyderus	12	3	15	38
rhywfaint yn hyderus	11	0	11	28
eithaf hyderus	5	0	5	13
hyderus iawn	1	0	1	3

Tabl A3. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn deall effaith awtistiaeth ar eich bywyd?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	11	1	12	30
Ychydig bach yn hyderus	4	1	5	13
Rhywfaint yn hyderus	12	1	13	33
Eithaf hyderus	6	0	6	15
Hyderus iawn	4	0	4	10

Tabl A4. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	15	0	15	38
Ychydig bach yn hyderus	6	1	7	18
Rhywfaint yn hyderus	7	1	8	20
Eithaf hyderus	8	1	9	23
Hyderus iawn	1	0	1	3

Tabl A5. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rianta yn gwybod sut i atgyfeirio pobl am asesiad?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	8	0	8	20
Ychydig bach yn hyderus	10	1	11	28
Rhywfaint yn hyderus	12	0	12	30
Eithaf hyderus	7	2	9	23
Hyderus iawn	0	0	0	0

Tabl A6. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod staff gofal cymdeithasol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a gwasanaethau cymorth teuluoedd a rianta yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	7	0	7	18
Ychydig bach yn hyderus	12	1	13	33
Rhywfaint yn hyderus	11	1	12	30
Eithaf hyderus	5	1	6	15
Hyderus iawn	2	0	2	5

Tabl A7. Ymatebion i'r cwestiwn: 'pa mor hyderus ydych chi bod gweithwyr ieched, fel meddygon teulu a nyrsys yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion awtistig yn gallu cael mynediad at wasanaethau ieched?'

	Arolwg Peilot Teuluoedd yn Gyntaf (2023)	Arolwg STAND (2023)	Cyfanswm (Nifer)	Cyfanswm (%)
Ddim yn hyderus o gwbl	13	2	15	38
Ychydig bach yn hyderus	8	0	8	20
Rhywfaint yn hyderus	10	1	11	28
Eithaf hyderus	4	0	4	10
Hyderus iawn	2	0	2	5

Atodiad B. Meincnodau

Tabl B1.1 Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (cyfranogiad amlddisgyblaethol)

Dyletswyddau: Rhaid i BILI: Ddarparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Manylion cyfranogiad amlddisgyblaethol mewn asesiadau diagnostig (er enghraifft, nifer o ddisgyblaethau'n ymwneud â hanes / arsylwi / cyfweliad clinigol a/neu benderfyniad ar ddiagnosis) yn y gwasanaeth sy'n cynnig asesiadau diagnostig i blant ac oedolion (er enghraifft, NDd plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, AMHS, AD).	- Manylion cyfranogiad amlddisgyblaethol mewn asesiadau diagnostig (er enghraifft, nifer o ddisgyblaethau'n ymwneud â hanes / arsylwi / cyfweliad clinigol a/neu benderfyniad ar ddiagnosis) yn y gwasanaeth sy'n cynnig asesiadau diagnostig i blant ac oedolion (er enghraifft, NDd plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, AMHS, AD).	- Manylion am gyfranogiad amlddisgyblaethol mewn asesiadau diagnostig, ond bylchau neu wendid sylweddol mewn timau (er enghraifft oherwydd swyddi gwag).	- Tystiolaeth glir nad yw canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfranogiad amlddisgyblaethol yn cael eu dilyn.
- Mae gan bob tîm gwasanaeth gapasiti digonol i gynnal asesiadau diagnostig trylwyr (er enghraifft, o ran nifer y staff a sgiliau a chymhwysedd y staff).			

Tabl B1.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau asesu diagnostig (mewn sefydliadau diogel)

Dyletswydd: Rhaid i BILI ac ymddiriedolaethau'r GIG: sicrhau bod gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw yn y sefydliad diogel.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofnion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Manylion am y llwybrau i bobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel gwahanol yn y rhanbarth (er enghraifft, cartrefi plant diogel ALI, Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc, carchardai) - Tystiolaeth bod gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw yn y sefydliad diogel (megis enghreifftiau o hyn yn digwydd).	- Manylion am sut y gallai pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel gwahanol yn rhanbarth gael mynediad at wasanaeth asesu diagnostig.	- Manylion am y sut y gallai pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel gwahanol yn rhanbarth gael mynediad at wasanaeth asesu diagnostig.	- Tystiolaeth glir nad yw gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw yn y sefydliad diogel.

Tabl B1.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (llwybrau atgyfeirio)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael gwybod am lwybrau atgyfeirio asesu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Manylion am sut y mae ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael eu hysbysu am lwybrau atgyfeirio asesu i'r gwasanaeth	- Manylion am sut y mae ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael eu hysbysu am lwybrau atgyfeirio asesu i'r gwasanaeth	- Manylion am sut y mae ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn cael eu hysbysu am lwybrau atgyfeirio asesu i'r gwasanaeth	- Tystiolaeth bod ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd nad ydynt wedi cael gwybod am lwybrau atgyfeirio asesu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.
- Tystiolaeth bod ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn deall ac yn defnyddio llwybrau (er enghraifft, dadansoddi cyfraddau atgyfeirio a chyfraddau atgyfeiriadau amhriodol i wasanaethau gwahanol gan wahanol grwpiau staff; arolygon o ymwybyddiaeth staff).	- Barn y tîm gwerthuso (yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd) ynghylch a yw'r camau a gymerir i hysbysu ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn debygol o fod yn ddigonol: maent yn debygol o fod yn ddigonol.	- Barn y tîm gwerthuso (yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd) ynghylch a yw'r camau a gymerir i hysbysu ymarferwyr gofal sylfaenol ac eilaidd yn debygol o fod yn ddigonol: nid ydynt yn debygol o fod yn ddigonol.	

Tabl B1.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswydd sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros)

Dyletswydd: Rhaid i BILI: gydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol ar gyfer asesu a diagnosis.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae amser aros y gwasanaeth NDd plant wedi bod o dan < 26 wythnos am y tair blynedd diwethaf.	- Mae amser aros y gwasanaeth NDd Plant wedi bod yn agos i'r 26 wythnos neu o dan hyn am y tair blynedd diwethaf NEU - gwnaed cynnydd cryf wrth ei leihau dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n edrych yn debygol y bydd yn cael ei fodloni o fewn y flwyddyn nesaf.	- Mae amser aros y gwasanaeth NDd plant dros yr amser aros 26 wythnos, ond mae cynnydd da yn cael ei wneud i'w leihau a mae siawns y bydd yn cael ei fodloni o fewn y flwyddyn nesaf (er bod hyn yn annhebygol).	Mae amser aros y gwasanaeth NDd plant yn sylweddol uwch na > 26 wythnos ac mae'n annhebygol iawn y bydd yn cael ei fodloni o fewn y flwyddyn nesaf.

Tabl B1.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswydd sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (amseroedd aros a chasglu data)

Dyletswydd: Rhaid i BILL: sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu plant, pobl ifanc ac oedolion yn cydymffurfio â'r safonau amser aros cenedlaethol presennol ar gyfer asesu a diagnosis.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae'r gwasanaeth NDd plant yn darparu data amser aros i LIC	- Mae'r gwasanaeth NDd plant yn darparu data amser aros i LIC	- Mae'r gwasanaeth NDd plant yn darparu data amser aros i LIC	- Nid yw'r data yn cael eu darparu.
- Mae data o'r gwasanaethau yn cael eu dadansoddi i nodi tueddiadau a llywio cynllunio galw-capasiti, penderfyniadau am gyllid, datblygu gwasanaethau ac ati. - Mae data o wasanaethau yn cael eu rhannu â'r BPRh ac yn cael eu craffu ganddo (er enghraifft, strategaeth awtistiaeth a grwpiau gweithredol).		- Fodd bynnag, mae pryderon yn cael eu codi am y data a ddarperir.	

Tabl B1.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (atgyfeirio prydlon)

Dyletswyddau: Pan wneir diagnosis o awtistiaeth, gwneir atgyfeiriad prydlon at asesiadau cymorth ôl-ddiagnosis, lle bo hynny'n briodol, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos y rhan fwyaf o blant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).

Pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, atgyfeirio'r unigolyn gyfer archwiliad pellach, os yw'r asesiad yn dangos bod angen gwneud hynny, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos plant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae atgyfeiriadau (lle y'u nodir/lle y maent yn briodol) i asesiadau cymorth ôl-ddiagnostig / neu ymchwiliad pellach yn rhan o'r llwybrau ar gyfer y gwasanaeth sy'n cynnal asesiadau diagnostig. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gan y gwasanaeth ei hun ac atgyfeirio i drydydd partïon hefyd.	- Mae atgyfeiriadau (lle y'u nodir/lle y maent yn briodol) i asesiadau cymorth ôl-ddiagnostig / neu ymchwiliad pellach yn rhan o'r llwybrau ar gyfer y gwasanaeth sy'n cynnal asesiadau diagnostig. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gan y gwasanaeth ei hun ac atgyfeirio i drydydd partïon hefyd.	- Mae atgyfeiriadau (lle y'u nodir/lle y maent yn briodol) i asesiadau cymorth ôl-ddiagnostig / neu ymchwiliad pellach yn rhan o'r llwybrau ar gyfer y gwasanaeth sy'n cynnal asesiadau diagnostig. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gan y gwasanaeth ei hun ac atgyfeirio i drydydd partïon hefyd.	- Mae tystiolaeth glir nad yw'r gwasanaethau'n gwneud atgyfeiriadau, yn dilyn asesiad diagnostig (beth bynnag yw'r canlyniad), pan nodir hyn/pan ei fod yn briodol ac mae'r rhiant neu'r plentyn neu'r oedolyn wedi rhoi cydsyniad.

- Mae'r atgyfeiriadau hyn bob amser yn cael eu gwneud yn dilyn asesiad diagnostig (beth bynnag yw'r canlyniad), pan nodir hyn/pan ei fod yn briodol ac mae'r rhiant neu'r plentyn neu'r oedolyn wedi rhoi cydsyniad. - Mae atgyfeiriadau (lle y bo'n briodol) ar gyfer asesiadau cymorth ôl-ddiagnostig yn cael eu derbyn yn rheolaidd gan wasanaethau eraill (er enghraifft, therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, gofal cymdeithasol) - Mae atgyfeiriadau (lle y bo'n briodol) ar gyfer ymchwiliad pellach (er enghraifft, ar gyfer cyflwr NDd arall) yn cael eu derbyn yn rheolaidd gan wasanaethau eraill (er enghraifft, gwasanaethau AMHS / ADHD).	- Weithiau, mae'r atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud gan y gwasanaethau, yn dilyn asesiad diagnostig (beth bynnag yw'r canlyniad), pan nodir hyn/pan eu bod yn briodol ac mae'r rhiant neu'r plentyn neu'r oedolyn wedi rhoi cydsyniad neu mae pobl yn cael eu hannog i hunanatgyfeirio. - Nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch a yw'r rhain yn cael eu derbyn neu a oes problemau'n cael eu nodi (er enghraifft, atgyfeiriadau'n cael eu gwrthod gan wasanaethau eraill).	- Weithiau, mae'r atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud gan y gwasanaethau yn dilyn asesiad diagnostig (beth bynnag yw'r canlyniad), pan nodir hyn/pan eu bod yn briodol ac mae'r rhiant neu'r plentyn neu'r oedolyn wedi rhoi cydsyniad neu mae pobl yn cael eu hannog i hunanatgyfeirio, ond prin yw'r dystiolaeth o hyn yn digwydd a/neu nodir problemau sylweddol (er enghraifft, atgyfeiriadau'n cael eu gwrthod gan wasanaethau eraill); A/NEU - Mae capasiti'r gwasanaeth i gynnig asesiadau ôl-ddiagnostig yn gyfyngedig iawn.	
--	---	---	--

Tabl B1.7. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (dynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol)

Dyletswydd: Rhaid i ALLau a BILL: ddynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Rhoddir enw'r unigolyn dynodedig sy'n bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth.	- Rhoddir enw'r unigolyn dynodedig sy'n bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth.	- Adroddir bod unigolyn sy'n bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth (ond nid yw wedi'i enwi) A/NEU - Nid oes tystiolaeth eu bod wedi cynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig.	- Nid oes unrhyw un yn gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth.
- Mae'r unigolyn dynodedig yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo'r <u>holl</u> lwybrau diagnostig awtistiaeth (ar gyfer gwasanaethau gwahanol, er enghraifft NDd plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, AD ac AMHS) - Mae'r unigolyn dynodedig wedi adolygu'r holl lwybrau	- Mae'r unigolyn dynodedig wedi adolygu llwybr diagnostig awtistiaeth y gwasanaeth o fewn y 12 mis diwethaf.		

diagnostig awtistiaeth o fewn y 12 mis diwethaf.			
--	--	--	--

Tabl B1.8. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau asesu diagnostig (darpariaeth, cyhoeddiad ac adolygiad rheolaidd o lwybrau asesu a diagnostig)

Dyletswydd: Rhaid i BILL: sicrhau darpariaeth, cyhoeddiad ac adolygiad rheolaidd o lwybrau asesu a diagnostig ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Darperir copi o'r llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth neu ddolen iddynt	- Darperir copi o'r llwybrau diagnostig ar gyfer y gwasanaeth neu ddolen iddynt	- Adroddir bod llwybr, ond nid oes unrhyw fanylion pellach yn cael eu hadrodd; ac - mae pryderon yn cael eu codi am weithrediad neu ddyluniad y llwybr a allai awgrymu nad yw'n cydymffurfio â chanllawiau NICE.	- Adroddir nad oes llwybr a/neu mae pryderon difrifol yn cael eu codi am ddyluniad a/neu weithrediad y llwybr sy'n golygu nad yw'n cydymffurfio â chanllawiau NICE.
Mae'r llwybr diagnostig yn cynnwys:	- Mae gwasanaethau'n rhoi sicrwydd bod y llwybr		

- pwynt atgyfeirio unigol (gan gynnwys hunanatgyfeirio i oedolion) i wasanaethau diagnostig; - derbyn yr holl 'atgyfeiriadau priodol' (er enghraifft, os oes tystiolaeth o arwyddion a symptomau treiddiol sy'n effeithio ar weithredu); - Pan na dderbynnir atgyfeiriadau, rhoddir rhesymeg dros hyn i'r atgyfeiriwr, ynghyd â chynghor ar sut i wella'r atgyfeiriad neu i ba wasanaeth arall i atgyfeirio iddo fel y bo'n briodol.* - Mae asesiadau wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person gan sicrhau bod gwybodaeth ddigonol i greu proffil o angen yr unigolyn yn cael ei chasglu, wrth sicrhau dull darbodus, hyblyg o ddefnyddio adnoddau; - Mae trafodaeth amserol sy'n cynnwys pawb sy'n ymwneud â'r broses asesu sy'n arwain at benderfyniad am ganlyniad yr asesiad, proffil o gryfderau ac	diagnostig yn ystyried canllawiau arfer gorau NICE.		
--	--	--	--

anawsterau'r unigolyn ac argymhellion ar gyfer cymorth yn y dyfodol. - Bydd gweithiwr proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o'r broses asesu yn cyfathrebu canlyniad yr asesiad â'r teulu (a'r plentyn lle y bo'n briodol). Dilynir hyn yn ysgrifenedig, a lle rhoddir cydsyniad, dylid ei rannu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynorthwyo'r plentyn. - Darperir gwybodaeth ac arweiniad, ochr yn ochr â chynghor ynghylch lle a sut i gael mynediad at gymorth yn y dyfodol. - Darperir manylion am adolygiad diweddar o'r llwybr (hynny yw, o fewn y 12 mis diwethaf) gan gynnwys canlyniadau'r adolygiad (er enghraifft, archwiliad yn erbyn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau NDd plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; a'r canllawiau cyfatebol ar gyfer			
--	--	--	--

gwasanaethau eraill, er enghraifft AMHS).			
--	--	--	--

Tabl B2.1. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (gwybodaeth a chyfeirio i gael mynediad at wasanaethau asesu)

Dyletswyddau: Rhaid i ALLau sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig hyd yma	Dim tystiolaeth / tystiolaeth annigonol i werthuso cydymffurfiaeth
Gwefannau ALL yn darparu gwybodaeth glir a chynhwysfawr am: - Sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol; a - Sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth.	Gwefannau ALL yn darparu gwybodaeth glir a chynhwysfawr am: - Sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol; a - Sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth.	Gwefannau ALL yn darparu gwybodaeth am: - Sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol; a - Sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth, - ond mae'r wybodaeth yn aneglur, yn anghyflawn ac ati.	- Nid oes gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu neu mae'r rhain yn amlwg yn annigonol.
Mae gwefannau hefyd yn darparu gwybodaeth am: - Sut y mae systemau gofal a chymorth cymdeithasol yn gweithredu o ran gwasanaethau awtistiaeth yn yr ardal; - y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael i unigolion awtistig; a - sut i gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd ar gael; ac			

- mae ALLau yn rhoi cyhoeddusrwydd i sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol drwy ystod o gyfryngau (er enghraifft, gwefannau, poster, taflenni mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd ac ati.).			
---	--	--	--

Tabl B2.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (gwybodaeth a chyfeirio i gael mynediad at wasanaethau asesu parhad)

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
Gall staff yr ALI (gan gynnwys gwasanaethau GCCh ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ddarparu cyngor ar: - Sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol; - y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael i unigolion awtistig; - Sut i gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd ar gael; a - Sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth.	Gall gwasanaethau GCCh ALI ddarparu cyngor ar: - Sut i gael mynediad at asesiad gofal cymdeithasol; a - Sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth.	Gall gwasanaethau GCCh ALI ddarparu: - mynediad at wasanaethau asesu.	
- Mae nifer y bobl sy'n ceisio asesiad gofal cymdeithasol yn cael ei fonitro yn erbyn meincnodau (er enghraifft,			

cyfraddau disgwylledig/rhagweledig) a phan fydd hyn yn is na'r disgwyl/yn is na'r hyn a ragwelir, ymchwilir i hyn a chymerir camau i godi cyfraddau.			
---	--	--	--

Tabl B2.3. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (ymwybodol o'r hawl i asesiad)

Dyletswyddau: rhaid i ALLau sicrhau bod unigolion awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr ar gyfer gofalwr. Dylai'r broses o gael gafaél ar y rhain gyd-fynd â'r diagnosis.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofnion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mewn gwasanaethau sy'n cynnal asesiadau diagnostig, lle mae'n ymddangos y gall fod gan unigolyn angen am ofal a chymorth, dywedir wrth yr <u>holl</u> unigolion bod ganddynt yr hawl i asesiad, fel rhan o'r cymorth a'r adborth ôl-ddiagnostig.	- Mewn gwasanaethau sy'n cynnal asesiadau diagnostig, lle mae'n ymddangos y gall fod gan unigolyn angen am ofal a chymorth, dywedir wrth yr <u>holl</u> unigolion bod ganddynt yr hawl i asesiad, fel rhan o'r cymorth a'r adborth ôl-ddiagnostig.	- Mewn gwasanaethau sy'n cynnal asesiadau diagnostig, lle mae'n ymddangos y gall fod gan unigolyn angen am ofal a chymorth, dywedir wrth <u>rai</u> unigolion (ond nid yr holl unigolion) bod ganddynt yr hawl i asesiad, fel rhan o'r cymorth a'r adborth ôl-ddiagnostig.	- Tystiolaeth sylweddol nad yw pobl yn ymwybodol, neu'n annhebygol o fod yn ymwybodol, o'u hawl i gael mynediad at asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr ar gyfer gofalwr.
- Yn seiliedig ar farn y tîm gwerthuso, cymerwyd camau digonol i estyn allan at unigolion awtistig a'u gofalwyr, y gall fod ganddynt angen am anghenion gofal a chymorth, i'w hysbysu am eu hawl i asesiad (er enghraifft, drwy weithio gyda'r trydydd sector, grwpiau cymorth, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac ati).			

Tabl B2.4. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (rhannu gwybodaeth yn brydlon)

Dyletswyddau: Rhaid i ALI a BILI sicrhau'r canlynol:

- Pan wneir diagnosis o awtistiaeth, gwneir atgyfeiriad prydlon at asesiadau cymorth ôl-ddiagnosis, lle bo hynny'n briodol, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos y rhan fwyaf o blant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr
- Sicrhau pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond ni wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydsyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am blant ac oedolion sydd / nad ydynt wedi cael diagnosis ond lle y nodwyd ei bod yn angenrheidiol gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad pellach.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Lle y bo'n briodol, mae unigolyn a allai fod ag angen am ofal a chymorth, bob amser yn cael ei atgyfeirio i gael asesiad - Mae gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am blant ac oedolion nad ydynt wedi cael diagnosis o awtistiaeth ond y nodwyd ei bod yn angenrheidiol gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad pellach. - Mae canlyniad atgyfeiriadau i wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol yn cael ei fonitro ac, os oes angen,	- Lle y bo'n briodol, mae unigolyn a allai fod ag angen am ofal a chymorth, bob amser yn cael ei atgyfeirio i gael asesiad NEU - ei gynghori i hunanatgyfeirio i gael asesiad AC - Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am blant ac oedolion nad ydynt wedi cael diagnosis o awtistiaeth ond y nodwyd ei bod yn angenrheidiol	- Lle y bo'n briodol, mae unigolyn a allai fod ag angen am ofal a chymorth, yn cael ei gynghori i hunanatgyfeirio i gael asesiad.	- Mae tystiolaeth nad yw unigolion a allai fod ag angen am ofal a chymorth, yn cael eu hatgyfeirio na'u cynghori i hunanatgyfeirio i gael asesiad.

cymerir camau gweithredu (er enghraifft, os na dderbynnir niferoedd uchel o atgyfeiriadau).	gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad pellach.		
---	--	--	--

Tabl B2.5. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol (sefydliadau diogel)

Dyletswyddau: rhaid i ALI a BILI sicrhau bod llwybrau o fewn sefydliadau diogel ar ôl atgyfeirio er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofnion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau am asesiad pellach ar ôl atgyfeirio o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.	- Mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau am asesiad pellach ar ôl atgyfeirio o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.	- Mae diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau a/neu lwybrau a gwendid ymddangosiadol mewn llwybrau a/neu fynediad at asesiadau gofal cymdeithasol yn y sefydliad diogel.	- Mae tystiolaeth glir nad yw llwybrau ar gyfer asesiad pellach ar ôl atgyfeirio yn y sefydliad digonol yn ddigonol o ran cynllun a/neu weithredu.
- Mae tystiolaeth bod llwybrau ar gyfer asesiad pellach ar ôl atgyfeirio o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol, yn gweithio'n dda, ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.	- Adroddir bod llwybrau ar gyfer asesiad pellach ar ôl atgyfeirio o fewn sefydliadau diogel sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.		

Tabl B3.6. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae ymarferwyr a gwasanaethau yn ymwybodol o wasanaethau awtistiaeth ac mae ganddynt lwybrau atgyfeirio clir)

Dyletswyddau: Rhaid i BILL:

- sicrhau bod ymarferwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.
- gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Ym marn y tîm gwerthuso, cymerwyd camau digonol i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn gwybod sut i atgyfeirio unigolion awtistig i wasanaethau awtistiaeth (er enghraifft, hyfforddiant, gweithgarwch codi ymwybyddiaeth). Noder: gallai hyn, er enghraifft, fod drwy'r GCCh neu 'ddrws blaen' i wasanaethau.	- Ym marn y tîm gwerthuso, cymerwyd camau digonol i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn gwybod sut i atgyfeirio unigolion awtistig i wasanaethau awtistiaeth (er enghraifft, hyfforddiant, gweithgarwch codi ymwybyddiaeth). Noder: gallai hyn, er enghraifft, fod drwy'r GCCh neu 'ddrws blaen' i wasanaethau.	- Mae gwybodaeth sylfaenol am sut i atgyfeirio i wasanaethau awtistiaeth craidd (er enghraifft, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig).	- Mae tystiolaeth nad yw ymarferwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol ac nad oes ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.
- Mae gwasanaethau awtistiaeth lleol wedi cael eu mapio; ac - mae gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn	- Mae gwasanaethau awtistiaeth lleol wedi cael eu mapio; ac - mae gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn		

cael ei darparu ar wefannau ALI a/neu BILI.	cael ei darparu ar wefannau ALI a/neu BILI.		
- Mae llwybrau atgyfeirio clir i wasanaethau awtistiaeth yn cael eu cyhoeddi (a darperir copïau). Noder: gallai hyn, er enghraifft, fod drwy'r GCCh neu 'ddrws blaen' i wasanaethau. - Mae staff iechyd ac ALI yn atgyfeirio unigolion awtistig i wasanaethau awtistiaeth yn rheolaidd. - Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau awtistiaeth yn cael ei fonitro yn erbyn meincnodau (er enghraifft, cyfraddau disgwylledig/rhagweledig) a phan fydd hyn yn is na'r disgwyl/yn is na'r hyn a ragwelir, ymchwilir i hyn a chymerir camau priodol i godi cyfraddau.			

Tabl B3.7. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth GCCh)

Dyletswyddau: dylai ALLau gyda BILL sicrhau bod staff iechyd ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio unigolion awtistig i'r gwasanaeth.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae'r gwasanaeth GCCh a sut i gael mynediad ato, yn glir ar wefannau ALI.	- Mae'r gwasanaeth GCCh a sut i gael mynediad ato, yn glir ar wefannau ALI.	- Mae'r gwasanaeth GCCh a sut i gael mynediad ato, yn glir ar wefannau ALI.	- Ym marn y tîm gwerthuso, nid oes camau wedi'u cymryd, neu mae camau sy'n amlwg yn annigonol wedi'u cymryd, i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio unigolion awtistig i'r gwasanaeth.
- Ym marn y tîm gwerthuso, mae camau digonol wedi'u cymryd i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio unigolion awtistig i'r gwasanaeth.	- Ym marn y tîm gwerthuso, mae camau digonol wedi'u cymryd i sicrhau bod staff iechyd ac ALI yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio unigolion awtistig i'r gwasanaeth.		
- Mae staff iechyd ac ALI yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh ac mae sut i gael mynediad ato yn cael ei fonitro (gan gynnwys, er enghraifft, priodoldeb a nifer yr			

atgyfeiriadau y maent yn eu gwneud i wasanaethau GCCh).			
---	--	--	--

Tabl B3.8. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth am wasanaeth GCCh ar gael ar wasanaethau awtistiaeth lleol)

Dyletswyddau: rhaid i ALLau sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth GCCh. Fel rhan o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sicrhau bod y gwasanaeth GCCh yn darparu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae gwasanaethau awtistiaeth lleol wedi cael eu mapio; ac - Mae gwasanaethau GCCh yn darparu gwybodaeth am: - y mathau o wasanaethau awtistiaeth sydd ar gael a - sut i gael mynediad at wasanaethau awtistiaeth.	- Mae gwasanaethau awtistiaeth lleol wedi cael eu mapio; ac - Mae gwasanaethau GCCh yn darparu gwybodaeth am: - y mathau o wasanaethau awtistiaeth sydd ar gael a - sut i gael mynediad at wasanaethau awtistiaeth.	- Mae gwasanaethau GCCh yn darparu gwybodaeth am y mathau o wasanaethau awtistiaeth sydd ar gael, ond mae gwendidau sylweddol; er enghraifft, nid yw gwasanaethau awtistiaeth lleol wedi'u mapio'n ddigonol, A/NEU er enghraifft mae gormod o bwyslais ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig fel y gwasanaeth awtistiaeth yn yr ardal.	- Nid oes gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth ar gael gan wasanaethau GCCh.
- Mae gan wasanaethau GCCh wybodaeth dda am wasanaethau awtistiaeth (gan gynnwys yr ystod lawn o wasanaethau sy'n cynorthwyo unigolion awtistig) ac yn atgyfeirio unigolion			

awtistig / eu rhieni neu ofalwyr i wasanaethau awtistiaeth yn rheolaidd. - Yn ddelfrydol, mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau awtistiaeth gan y GCCh yn cael ei fonitro yn erbyn meincnodau (er enghraifft, cyfraddau disgwylledig/rhagweledig) a phan fydd hyn yn is na'r disgwyl/yn is na'r hyn a ragwelir, ymchwilir i hyn a chymerir camau priodol i godi cyfraddau.			
--	--	--	--

Tabl B3.9. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ar gael i'r cyhoedd).

Dyletswyddau: dylai ALLau gyda BILI wneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd (er enghraifft, ar wefannau).	- Mae ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd (er enghraifft, ar wefannau).	- Mae ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd (er enghraifft, ar wefannau).	- Nid oes trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Ym marn y tîm gwerthuso, mae'r wybodaeth, yr adnoddau a'r hyfforddiant yn gynhwysfawr, yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddynt a chael mynediad atynt.	- Ym marn y tîm gwerthuso, mae'r wybodaeth, yr adnoddau a'r hyfforddiant yn gynhwysfawr, yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddynt a chael mynediad atynt.		
- Mae disgrifiad cynhwysfawr o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant awtistiaeth yn cael ei gynnig i wahanol grwpiau ^[troednodyn 89] , gan gynnwys: - staff gofal iechyd			

^[89] Dylai hyn gynnwys: gwybodaeth ymwybyddiaeth gyffredinol am effaith awtistiaeth; gwybodaeth i unigolion awtistig, eu teuluoedd neu eu gofalmwr am eu hawliau; gwybodaeth am gyfleoedd lleol wedi'u teilwra i unigolion awtistig; gwybodaeth am hyfforddiant lleol sydd ar gael sy'n gallu cynorthwyo unigolion awtistig a'u teulu neu eu gofalmwr; gwybodaeth i helpu unigolion awtistig a'u teulu neu eu gofalmwr i baratoi ar gyfer y dyfodol; a manylion cyswllt y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

- staff gofal cymdeithasol - staff eraill yr ALI (h.y. gwasanaethau tai, hamdden) - unigolion awtistig - rhieni a gofalwyr - mae disgrifiad cynhwysfawr o ddeunydd a hyfforddiant sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith ALI, a staff BILI a'r cyhoedd yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo model cymdeithasol o anabledd ^[troednodyn 90]. - Tystiolaeth o gamau a gymerwyd i sicrhau hygrychedd ar gyfer grwpiau gwahanol (er enghraifft, dolen i'r wefan lle y mae ar gael i'r cyhoedd; taflenni a phosteri mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd ac ati.).			
---	--	--	--

[⁹⁰] Fel y mae'r canllaw ategol yn amlinellu: 'codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned' a 'gan gydnabod y Model Cymdeithasol o anabledd, i greu cymdeithas gynhwysol ar gyfer unigolion awtistig mae angen dealltwriaeth o awtistiaeth ledled y gymuned. Dylai awdurdodau lleol fel darparwyr/comisiynwyr cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd, ynghyd â darparwyr ieuchyd a'r trydydd sector, addasu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion awtistig, gan gael gwared ar yr hyn sy'n rhwystro cynhwysiant. Gellir cyflawni hyn drwy: i. helpu unigolion awtistig a'u teuluoedd neu ofalwyr i gael cyfleoedd i fod yn rhan o weithgareddau cymunedol a rhannu profiadau ii. darparu gwybodaeth ymwybyddiaeth gyffredinol o effaith awtistiaeth iii. rhoi gwybodaeth i unigolion awtistig a'u teulu neu ofalwyr am eu hawliau iv. darparu gwybodaeth am gyfleoedd lleol wedi'u teilwra ar gyfer unigolion awtistig v. darparu gwybodaeth am hyfforddiant lleol sydd ar gael a all gefnogi unigolion awtistig a'u teulu neu ofalwyr vi. darparu gwybodaeth er mwyn helpi i baratoi at y dyfodol vii. darparu manylion cyswllt y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.' (Llywodraeth Cymru 2022b, tt 25 i 26).

- Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant, a'u profiadau, ac effaith hyn (er enghraifft, ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth) yn cael ei fonitro a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant			
--	--	--	--

Tabl B3.10. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth a mynediad atynt (mae gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ar gael i'r cyhoedd parhad).

Dyletswydd: dylai ALLau gyda BILI wneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig neu anwastad hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae polisïau effeithiol gan yr ALI a'r BILI ar nodi ac yna gwneud addasiadau rhesymol.	- Mae polisïau effeithiol gan yr ALI a'r BILI ar nodi ac yna gwneud addasiadau rhesymol.	- Mae polisïau effeithiol gan yr ALI a'r BILI ar nodi ac yna gwneud addasiadau rhesymol.	- Mae tystiolaeth gyson nad yw addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unigolion awtistig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel pawb arall.
- Mae strategaethau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth cynhwysfawr yn sail i'r polisïau hyn.	- Mae strategaethau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth cynhwysfawr yn sail i'r polisïau hyn.		
- Mae profiadau unigolion awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau yn cael eu monitro, ac os yw'n briodol, cymerir camau gweithredu i wella eu profiadau (er enghraifft, drwy gryfhau gwaith			

hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth)			
-------------------------------------	--	--	--

Tabl B4.1. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (aros am ddiagnosis)

Dyletswyddau: rhaid i ALI a BILI sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill.

Cydymffurfiaeth lawn + (gan gynnwys mynd y tu hwnt i ofynion y Cod)	Cynnydd da (ond heb gydymffurfiaeth lawn)	Cynnydd cyfyngedig hyd yma	Ddim yn cydymffurfio
- Mae cymorth yn cael ei gynnig yn gyson i bobl ar sail angen yn hytrach na diagnosis. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r rhai sy'n aros am asesiad.	- Mae cymorth yn cael ei gynnig yn gyson i bobl ar sail angen yn hytrach na diagnosis. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'r rhai sy'n aros am asesiad.	- Yn gyffredinol, mae cymorth yn cael ei gynnig i bobl ar sail angen yn hytrach na diagnosis, ond mae enghreifftiau lle mae angen diagnosis i gael mynediad at wasanaethau a chymorth penodol.	- Mae tystiolaeth na all unigolion awtistig sy'n aros am ddiagnosis gael mynediad at gymorth a gwasanaethau eraill oherwydd eu bod yn aros am ddiagnosis.
- Adroddir bod cynnig cymorth cyn-ddiagnostig cryf gan wasanaethau NDd (fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaeth NDd Plant) NEU wasanaethau eraill fel gwasanaethau'r Blynnyddoedd Cynnar.			

Tabl B4.2. Meincnodau ar gyfer cydymffurfio: dyletswyddau sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd)

